

Penrhos

DATBLYGU CARTREFI PRESWYL A GOFAL NYRSIO

Achos Busnes Amlinellol



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

RHEOLI DOGFEN

Enw'r prosiect	Cartref Gofal a Nyrsio Penrhos	Rhif y prosiect	GASG0168
Dyddiad Cyflwyno	Ebrill 2025	Rhif y Fersiwn	1
Rheswm dros gyhoeddi	Drafft Cychwynnol		

Awdur y ddogfen	Ratiel Gapa	Graddfa	Ymgynghorydd Gweithredol
-----------------	-------------	---------	--------------------------

Llofnod	
---------	--

Cyfranwyr	Saira Anwar Riyanan Sandhu
-----------	-------------------------------

Cymeradwywyd gan	Michael Davies	Graddfa	Uwch Gyfarwyddwr
------------------	----------------	---------	------------------

Llofnod	
---------	--

Dosbarthiad diogelwch	Amherthnasol
-----------------------	--------------

Dosbarthiad i	
---------------	--

Dogfennau prosiect cysylltiedig	
---------------------------------	--

Crynodeb Gweithredol	7
Crynodeb Gweithredol	8
Pwrpas y Ddogfen	18
Pwrpas y Ddogfen	19
Strwythur y Ddogfen	19
Yr Achos Strategol	20
1. Yr Achos Strategol	21
1.1 Cyflwyniad	21
1.2 Partneriaeth Penrhos	21
1.3 Y Cyd-destun Cenedlaethol	23
1.4 Y Cyd-destun Lleol	38
1.5 Yr Achos dros Newid	40
1.6 Trefniadau Cyfredol	51
1.7 Buddion	58
1.8 Risgiau, Cyfyngiadau a Dibyniaeth	61
1.9 Casgliad yr Achos Strategol	64
Yr Achos Economaidd	65
2.1 Cyflwyniad	66
2.2 Ffactorau Llwyddiant Hanfodol	67
2.3 Asesiad Opsiynau	67
2.4 Arfarniad Economaidd	69
2.5 Costau'r Cynllun	71
2.6 Buddion â Gwerth Ariannol	73
2.7 Cymhareb Cost Budd	80
2.8 Dadansoddiad Sensitifrwydd	81
2.9 Newid Gwerthoedd	82
2.10 Casgliad yr Achos Economaidd	82
Yr Achos Masnachol	83
3. Yr Achos Masnachol	84
3.1 Cyflwyniad	84
3.2 Strategaeth a Llwybr Caffael	84
3.3 Trefniadau Cytundebol Allweddol	96
3.4 Dyrannu Risg	98

3.5 Goblygiadau Personél	99
3.6 Materion Cytundebol	99
3.7 Yr Ymdriniaeth Gyfrifeg	100
3.8 Cyfrif Banc y Prosiect	100
3.9 Casgliad yr Achos Masnachol	100

Yr Achos Ariannol	102
4. Yr Achos Ariannol	1022
4.1 Trefniadau Cyfalaf	103
4.2 Dull Ariannu	104
4.3 Cadarnhad o Gefnogaeth	105
4.4 Gofynion Refeniw	105
4.5 Sensitifrwydd	107
4.6 Casgliad yr Achos Ariannol	108

Yr Achos Rheolaethol	109
5. Yr Achos Rheolaethol	110
5.1 Cyflwyniad	110
5.2 Trefniadau Llywodraethu'r Rhaglen	110
5.3 Trefniadau Rheoli'r Rhaglen	112
5.4 Trefniadau Rheoli'r Prosiect	114
5.5 Cynllun y Prosiect	114
5.6 Cyfathrebu ac Ymgysylltu	115
5.7 Rheoli Newid	116
5.8 Cynllun Rheoli Risg	117
5.9 Trefniadau Amlinellol ar gyfer Gwireddu Buddion	118
5.10 Casgliad yr Achos Rheolaethol	119

Atodiadau	120
------------------	------------

Ffigur 1: Dadansoddiad thematig cydgyfeiriant enillion amcanion y bartneriaeth ar draws 5 maes	23
Ffigur 2: Trosolwg o Nodau Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol	27
Ffigur 3: Graff i ddangos y newid yn y boblogaeth (%) yn ôl grŵp oedran yng Ngwynedd rhwng 2011 a 2021	41
Ffigur 4: Graff i ddangos Newidiadau yn y Boblogaeth yng Ngwynedd (2011-2021)	42
Ffigur 5: Graff i ddangos y Cynnydd a Amcangyfrifir mewn Achosion o Ddementia yn y DU (2020-2050)	44
Ffigur 6: Graff sy'n dangos nifer y bobl a amcangyfrifir â dementia rhwng 2020 a 2040	44
Ffigur 7: Map i ddangos y Cartrefi Preswyl a Nyrsio presennol yn Llŷn ac Eifionydd	52
Ffigur 8: Delwedd sy'n dangos gweithgarwch gweithdy buddion	59
Ffigur 9: Y map buddion diwygiedig	60
Ffigur 12: Defnyddio'r Tîm Proffesiynol	97
Ffigur 13: Trefniadau llywodraethu lefel uwch	111
Ffigur 14: Trefniadau rheoli prosiect	113
Ffigur 15: Proses Buddion	118

Tabl 1: Tabl yn amlinellu amcanion strategol gwahanol y tri phartner	22
Tabl 2: Tabl i ddangos perthnasedd Nodau Llesiant i Benrhos	27
Tabl 3: Tabl i ddangos y gymhariaeth rhwng mesur heneiddio ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (data yn seiliedig ar 2019)	41
Tabl 4: Tabl i ddangos y Nifer ar y rhestr aros ar gyfer gwelyau preswyl a nyrsio yn 22/09/2025	47
Tabl 5: Tabl sy'n dangos llwybrau oedi gofal yng ngogledd Cymru gan gleifion ALI yn eu man preswyl	48
Tabl 6: Amcanion Buddsoddi	57
Tabl 7: Gofynion Allweddol y Gwasanaeth	57
Tabl 8: Dadansoddiad o'r Buddion	58
Tabl 9: Tabl sy'n dangos y risgiau sydd â'r effaith fwyaf a'r effeithiau cysylltiedig	67
Tabl 10: Cyfyngiadau	63
Tabl 11: Dibyniaethau	64
Tabl 12: Ffactorau Llwyddiant Hanfodol	67
Tabl 13: Rhestr Hir o Opsiynau	68
Tabl 14: Opsiynau Rhestr Hir a Aseswyd yn erbyn y Ffactorau Llwyddiant Hanfodol	68
Tabl 15: Rhesymeg tu ôl i'r asesiad	69
Tabl 16: Crynodeb Arfarnu ar gyfer yr Opsiynau a ffeirir a Gwneud yr isafswm	70
Tabl 17: Amcangyfrif cost diweddaraf	71
Tabl 18: Costau Gostyngol	72
Tabl 19: Addasu ar gyfer Difuddiant	72
Tabl 20: Asesiad o swyddi adeiladu ychwanegol net	73
Tabl 21: Gwerth Cymdeithasol Adeiladu	74
Tabl 22: Asesiad o Ychwanegoldeb	75
Tabl 23: Nifer sylfaenol derbyniadau Damweiniau ac Achosion Brys	78
Tabl 24: Llai o arosiadau yn yr ysbyty	79
Tabl 25: Cymhareb Cost Budd	82
Tabl 26: Dadansoddiad Sensitifrwydd	82
Tabl 27: Newid CCB i 1.5:1	82
Tabl 28: Newid CCB i 1.0:1	82
Tabl 29: Strwythur yr achos masnachol	84
Tabl 30: Opsiynau ar gyfer llwybr priodol i'r farchnad	85
Tabl 31: Crynodeb o'r gweithdrefnau caffael	87
Tabl 32: Dadansoddiad SWOT o weithdrefn agored	87
Tabl 33: Dadansoddiad SWOT o weithdrefn gyfyngedig	88
Tabl 34: Fframweithiau sydd ar gael	90
Tabl 35: Asesu'r fframweithiau sydd ar gael	91
Tabl 36: Lotiau a Ffiniau Gwerth	93
Tabl 37: Lot 5 Crynodebau Contractwyr	95
Tabl 38: Gwahaniaethau rhwng y Farchnad Agored a'r Fframwaith	95
Tabl 39: Manteision ac anfanteision dylunio ac adeiladu a thraddodiadol	96
Tabl 40: Trefniadau ar gyfer rheoli cyfleusterau	98
Tabl 41: Dyrannu risgiau	98
Tabl 42: Contract Gwaith	99
Tabl 43: Cytundeb Gwasanaethau Proffesiynol Cyngor Gwynedd	99
Tabl 44: Cytundeb Gwasanaethau Proffesiynol Wakemans	99
Tabl 45: Cytundeb Gwasanaethau Proffesiynol Lovelock Mitchell	99
Tabl 46: Strwythur yr Achos Ariannol	102

Tabl 47: Amcangyfrif o'r Costau Cyfalaf ar y cam ABS	103
Tabl 48: Costau ar gyfer yr Opsiwn a Ffefrir ar y cam ABA	103
Tabl 49: Gwariant Cyfalaf a Ragwelir	104
Tabl 50: Gofynion Cyfalaf Ymlaen Llaw	104
Tabl 51: Prynu Gwelyau Allanol	105
Tabl 52: Crynodeb o'r Costau Refeniw	105
Tabl 53: Sefyllfa Weithredu Net	106
Tabl 54: Sefyllfa Cyfrifyddu'r Cyngor	106
Tabl 55: Dehongli Senario ar draws dwy orwel amser	107
Tabl 56: Strwythur yr achos rheolaethol	110
Tabl 57: Ymgynghorwyr presennol a'u rôl	113
Tabl 58: Rheolaethau seiliedig ar PRINCE 2 i reoli prosiectau	114
Tabl 59: Cerrig milltir y prosiect	114
Tabl 60: Rhanddeiliaid	115
Tabl 61: Gweithdrefn reoli risg PRINCE 2	117
Tabl 62: Asesiad o'r Risgiau	118

Crynodeb Gweithredol

Crynodeb Gweithredol

Yr Achos Strategol

Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yng ngogledd-orllewin Cymru yn wynebu anawsterau oherwydd angen cynyddol am ofal a chymorth, yn enwedig ymhlith y demograffig hŷn. Mae'r Achos Busnes Amlinellol hwn yn mynd i'r afael â'r galw cynyddol am wasanaethau gofal o ansawdd uchel yn y rhanbarth. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio a phwysau cynyddol ar y cyfleusterau gofal presennol, mae'r prosiect hwn yn gyfle i wella seilwaith gofal iechyd lleol wrth sicrhau dull cynaliadwy a chydymdeimladol tuag at ofal yr henoed. Datgelodd canlyniadau cyntaf y cyfrifiad a gyhoeddwyd ym mis Awst 2022 ostyngiad yn y boblogaeth o oedran gweithio dros y degawd diwethaf, sy'n creu heriau ychwanegol mewn ardal wledig i sicrhau digon o staff i ddarparu gofal.

Trosolwg o'r Prosiect:

Mae prosiect Penrhos yn cynnig datblygu cyfleuster gofal newydd, arloesol, wedi'i adeiladau'n bwrpasol ar safle Penrhos yng ngogledd-orllewin Cymru. Bydd yn darparu cartref gofal preswyl a nyrsio sy'n cynnwys 32 o welyau dementia preswyl a 24 o welyau nyrsio, y bydd 8 ohonynt yn welyau dementia nyrsio, wedi'u cynllunio i safonau rheoleiddio modern, gan gynnwys darpariaeth en-suite lawn a nodweddion sy'n gyfeillgar i ddementia. Mae'r cynllun yn bartneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a Chymdeithas Tai ClwydAlyn. Mae'n rhan o gampws iechyd a gofal integredig ehangach Penrhos ac mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau polisi lleol a chenedlaethol i ailgydbwyso'r farchnad ofal, cefnogi darparu gofal dwyieithog, a darparu llety cynaliadwy o ansawdd uchel yn agosach at adref. Yn amodol ar gymeradwyaeth cyllid trwy'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF), bydd y prosiect yn cael ei symud ymlaen trwy ddylunio manwl a chaffael yn 2026–2027, gyda disgwyl i'r gwaith adeiladu ddechrau yn 2027. Disgwylir cwblhau a throsglwyddo'r cyfleuster newydd yn 2029, ac y bydd yn gweithredu'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn honno. Amcangyfrifir bod cyfanswm y costau cyfalaf ar gyfer y cyfleuster gofal newydd yn £19.634m ac mae'r costau referiw disgwyledig wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â lefelau meddiannaeth yn y cartref gofal. Ar 92%, asesir y bydd y cynllun yn adennill y costau ac yn cynhyrchu elw bychan.

Yr Achos dros Newid

Mae datblygu Cartref Gofal Preswyl a Nyrsio Penrhos yn hanfodol i fynd i'r afael â'r galw cynyddol am wasanaethau gofal yng Ngwynedd. Gyda mwy o bobl yn byw'n hwy, fel yr amlygwyd yn Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwynedd (2022-27), mae'r rhanbarth yn wynebu cynnydd sylweddol yn ei boblogaeth hŷn, gan arwain at fwy o bwysau ar wasanaethau gofal iechyd a chymorth cymunedol. Mae'r cynnydd mewn unigolion â dementia, salwch iechyd meddwl, ac anghenion iechyd cymhleth yn dwysáu'r angen am gyfleusterau gofal arbenigol ymhellach. Yn ychwanegol, mae heriau fel mynediad cyfyngedig at ofal ac oedi rhyddhau o'r ysbyty yn rhoi straen ar awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd, gan bwysleisio'r brys am well opsiynau gofal preswyl a nyrsio. Nod datblygiad Penrhos yw darparu gofal o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, i ddiwallu'r anghenion cynyddol hyn wrth gefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau gofal iechyd yn y rhanbarth.

Wrth i anghenion gofal y sir newid, mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i sicrhau mynediad syml ac uniongyrchol at wasanaethau sy'n cefnogi'r hyn sy'n bwysig i bobl hŷn yng Ngwynedd. Mae dull sy'n rhoi mwy o bwyslais ar iechyd a llesiant a gwaith ataliol yn sicrhau canlyniadau gwell i unigolion, yn eu galluogi i fyw'n annibynnol cyn hired â phosib ac yn lleihau'r angen am ofal cymhleth.

Mae cyfanswm o 128 o welyau preswyl yn ardal Llŷn ac Eifionydd ond mae prinder cynyddol o welyau nyrsio ar gyfer anghenion y boblogaeth. Yn anffodus, mae prinder enbyd o fannau cartrefi nyrsio ar draws y sir, ac sy'n fwy aciwt yn ardal Llŷn heb ddarpariaeth nyrsio o gwbl. Mae'r sector annibynnol yn darparu holl ddarpariaeth nyrsio y sir oherwydd nad yw wedi bod yn gyfreithiol bosib i Awdurdodau Lleol ddarparu gofal nyrsio. Felly, mae dibyniaeth lawn ar y farchnad allanol i ddarparu darpariaeth gofal nyrsio i'r boblogaeth. O ganlyniad, mae oedi yn cael ei achosi i unigolion dderbyn y gofal sydd ei angen arnynt, neu efallai y bydd unigolion yn cael eu gorfodi i fynd i leoliad arall a allai fod ymhellach i ffwrdd o'u cymuned o ddewis, gan achosi anghyfleustra enfawr yn eu bywydau. Mae'n golygu bod yn rhaid i bobl deithio i ddod o hyd i ddarpariaeth addas a chymwys, gan gynyddu'r pwysau ar dai yn yr ardaloedd y byddent yn symud iddynt. Rydym hefyd yn gwybod bod yn rhaid i rai unigolion chwilio am leoliadau y tu allan i'r sir sy'n creu anhawster o ran ymweld a chynnal cysylltiad â theuluoedd a gall fod yn anos derbyn gwasanaeth yn y Gymraeg.

Mae canllawiau IRCF Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cyfeirio at y Papur Gwyn 'Ailgydbwysio Gofal a Chymorth' sy'n nodi uchelgeisiau gweinidogol i ailgydbwysio'r sector oddi wrth gost i ansawdd, o allbynnau i ddeilliannau ac o elw tuag at werth cymdeithasol. Mae prosiect cartref gofal Penrhos yn cyflawni ail flaenoriaeth y gronfa, sef *Blaenoriaeth 2 - Ailgydbwysio'r farchnad gofal preswyl*.

Buddion

Mae buddion y prosiect wedi'u rhestru yn y tabl isod:

Amcanion Buddsoddi		Prif Feini Prawf Buddion
1	Cefnogi ailgydbwysio'r farchnad gofal preswyl a nyrsio (yn ardal Gwynedd) wrth gynyddu darpariaeth y sector cyhoeddus/nid-er-elw sy'n ymdrechu i ddarparu canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bawb.	- Sicrhau darpariaeth nyrsio 'nid-er-elw' yn yr ardal leol - Darpariaeth iechyd a gofal hyblyg ("gofal di-dor" fel y'i disgrifir yn 'Cymru Iachach') - Gall dull partneriaeth rhwng Iechyd a'r Awdurdod Lleol greu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio dulliau integredig
2	Cefnogi darparu gofal yn nes at adref drwy wella hygyrchedd gofal preswyl a nyrsio, gan sicrhau y darperir gwasanaethau drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.	Nad oes neb yn aros yn hwy na sydd angen mewn gofal cleifion preswyl aciwt. Nad oes "oedi wrth drosglwyddo gofal" oherwydd diffyg darpariaeth gwelyau preswyl a nyrsio
3	Cefnogi cynnaladwyedd darpariaeth gofal preswyl a nyrsio lleol drwy ddull partneriaeth gydweithredol fydd yn integreiddio â'r sbectrwm ehangach o ofal a ddarperir o safle Penrhos.	Mae cael darpariaeth sector cyhoeddus mewn nyrsio yn rhoi'r gallu i ddeall yn fwy craff beth sy'n achosi pwysau o fewn y sector ac yn galluogi cefnogi darparwyr llai.
4	Datblygu model gweithlu arloesol fydd yn cefnogi'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yn yr hirdymor gyda'r posibilrwydd o'i ddefnyddio mewn ardaloedd eraill yng ngogledd Cymru a chreu cyfleoedd hyfforddi drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.	- Cyfleoedd cyflogaeth i breswylwyr - Rhoi'r sgiliau cywir i drigolion gael cyflogaeth hirdymor - Cynnig cyflogaeth ystyrlon a hirdymor i'r sawl sy'n gadael ysgol ac sydd eisiau datblygu gyrfa - Cefnogi a thyfu'r gadwyn gyflenwi leol - Y gallu i hyfforddi a datblygu staff meddygol, nyrsio a gofal trwy gyfleoedd secondiad a chysgodi yn y ddarpariaeth - Bydd sgiliau iaith Gymraeg yr holl staff yn rhan o bolisi recriwtio'r Cyngor.
5	Sicrhau llety sydd wedi'i ddylunio'n benodol i ddiwallu anghenion gofal unigolion nawr ac i'r dyfodol.	- Darparu amgylchedd gwaith cyfoes a hygyrch sy'n cymell gwahanol grwpiau o weithwyr proffesiynol i gydweithio. - Yn darparu gweledigaeth amlwg i integreiddio gwasanaeth - Cyfraniad positif at yr agenda datgarboneiddio/sero net; llety sy'n diwallu argymhellion adeiladu cyfredol (e.e. HBN/DDA/awyru/atal heintiau) - Yn diwallu dyheadau BREEAM.

Casgliad yr Achos Strategol:

Mae'r Achos Strategol yn dangos yn glir resymeg gref dros fuddsoddi mewn cartref gofal preswyl a nyrsio 56 gwely newydd ym Mhenrhos gan nad oes darpariaeth nyrsio o gwbl yn ardal Llŷn; mae'n ymateb yn uniongyrchol i'r galw cynyddol am ofal preswyl a nyrsio dwyieithog o ansawdd uchel yng Ngwynedd. Mae dibyniaeth lawn ar y farchnad allanol i ddarparu darpariaeth gofal nyrsio i'r boblogaeth. O ganlyniad, mae oedi yn cael ei achosi i unigolion dderbyn y gofal sydd ei angen arnynt, neu efallai y bydd unigolion yn cael eu gorfodi i fynd i leoliad arall a allai fod ymhellach i ffwrdd o'u cymuned o ddewis, gan achosi anghyfleustra enfawr yn eu bywydau. Mae'n golygu bod yn rhaid i bobl deithio i ddod o hyd i ddarpariaeth addas a chymwys, gan gynyddu'r pwysau ar dai yn yr ardaloedd y byddent yn symud iddynt. Rydym hefyd yn gwybod bod yn rhaid i rai unigolion chwilio am leoliadau y tu allan i'r sir sy'n creu anhawster o ran ymweld a chynnal cysylltiad â theuluoedd a gall fod yn anos derbyn gwasanaeth yn y Gymraeg. Mae hefyd yn cefnogi rhyddhau amserol o'r ysbyty trwy fodelau gofal integredig. Mae'r cynllun yn cyd-fynd â blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac yn cynnig ateb cynaliadwy, hirdymor i gefnogi iechyd a llesiant oedolion hŷn a'r rhai sydd ag anghenion cymhleth. Mae'r cynnig hefyd yn darparu buddion system ehangach trwy ddatblygu'r gweithlu, datgarboneiddio, ac ailgydbwyso'r farchnad, ac mae'n cyflwyno cyfle unigryw i drawsnewid darpariaeth gofal ar draws y rhanbarth.

Fel comisiynwyr, mae Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn drwy ddod yn ddarparwyr cartref gofal gyda nyrsio. Fel comisiynwyr, mae'r partneriaid yn bwriadu ymyrryd lle nad yw'r farchnad wedi darparu ateb.

Mae dau fodel neu drefniant cytundebol posib i Gyngor Gwynedd a BIPBC ddarparu'r cartref preswyl a nyrsio sector cyhoeddus newydd arfaethedig ym Mhenrhos. Mae'r rhain wedi cael eu hasesu'n ddiweddar gan Gyngor Sir Gaerfyrddin a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fel rhan o brosiect tebyg iawn yng Nghaerfyrddin i adeiladu a rhedeg cartref preswyl a nyrsio 60 gwely. Y ddau fodel yw:

- Opsiwn 1 – Model Partneriaeth: Y Bwrdd Iechyd (BI) yn cyflogi'r staff nyrsio, gan gadw goruchwyliaeth glinigol. Byddai'r Awdurdod Lleol yn rhedeg y cartref ei hun ac yn gorff cofrestredig gydag AGC.

Byddai hyn yn golygu y byddai'r BI yn cyllido'r staff nyrsio (o gyllidebau CHC presennol) a byddai'r Awdurdod Lleol yn codi tâl ar wahân ar y BI am y gorbenion sy'n gysylltiedig â rhedeg cartref gofal – byddai hyn yn cynrychioli trefniant cytundebol newydd;

- Opsiwn 2 – Model Dirprwyedig: Yr Awdurdod Lleol yn cyflogi'r holl staff, gan gynnwys staff nyrsio, o dan gyfrifoldeb dirprwyedig gan y Bwrdd Iechyd. Byddai'r Awdurdod Lleol yn rhedeg y cartref ac yn gorff cofrestredig gydag AGC (CIW). O dan y trefniant hwn, byddai'r trefniant cytundebol yn aros yr un fath ag y mae ar hyn o bryd gyda'r BI yn comisiynu lleoliad gofal gan yr ALI trwy gyllidebau CHC/FNC.

Nid yw'r ABA ar hyn o bryd yn mynegi'r trefniadau contractio terfynol yn y dyfodol gan y bydd hyn yn dibynnu ar ba fodel sy'n cael ei ddilyn. Bydd y trefniadau hyn yn cael eu diffinio ar y cam ABLI.

Mae canllawiau IRCF Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cyfeirio at y Papur Gwyn 'Ailgydbwyso Gofal a Chymorth' sy'n nodi uchelgeisiau gweinidogol i ailgydbwyso'r sector oddi wrth gost i ansawdd, o allbynnau i ddeilliannau ac o elw tuag at werth cymdeithasol. Mae prosiect cartref gofal Penrhos yn cyflawni ail blaenoriaeth y gronfa, sef *Blaenoriaeth 2 - Ailgydbwyso'r farchnad gofal preswyl*.

Yr Achos Economaidd

Mae'r Achos Economaidd yn asesu cynnig gwerth am arian y buddsoddiad arfaethedig ym Mhenrhos, gan sicrhau ei fod yn darparu'r buddion economaidd gorau posib i randdeiliaid a'r gymuned ehangach.

Ffactorau Llwyddiant Hanfodol

Cyn nodi'r opsiynau posib sydd ar gael i gyflawni'r amcanion buddsoddi, mae'n bwysig sefydlu'r Ffactorau Llwyddiant Hanfodol (CSF) y bydd yr opsiynau'n cael eu hasesu yn eu herbyn. Nododd a chytunodd gweithdy rhwng partneriaid y prosiect y Ffactorau Llwyddiant Hanfodol a ganlyn.

Ffactorau Llwyddiant Hanfodol	Disgrifiad
Addasrwydd strategol ac anghenion busnes	Yn bodloni amcanion gwariant y cytunwyd arnynt, anghenion busnes cysylltiedig a gofynion gwasanaeth. Yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol lleol a chenedlaethol.
Gwerth am Arian posib	Gwneud y gorau o werth cyhoeddus (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol) o ran costau, buddion, effeithlonrwydd a risgiau posib.
Cyflawnadwyedd posib	Gallu partneriaeth Cyngor Gwynedd/BIPBC i ddarparu'r gwasanaethau a'r cyflawniadau angenrheidiol.
Capasiti a gallu'r cyflenwyr	Gallu'r bartneriaeth i arloesi, addasu, cyflwyno, cefnogi a rheoli'r lefel ofynnol o newid, gan gynnwys rheoli risgiau cysylltiedig. Gallu'r bartneriaeth i ddatblygu gweithio blaengar a chydweithredol ymhellach o fewn ac ar draws ffiniau.
Fforddiadwyedd posib	Gallu'r bartneriaeth i ariannu'r lefel ofynnol o wariant - sef y canlyniadau refeniw sy'n gysylltiedig â'r model buddsoddi a darparu gwasanaethau arfaethedig.

Rhestr Hir o Opsiynau

Nodwyd y rhestr hir o opsiynau i gyflawni'r amcanion buddsoddi fel a ganlyn:

Opsiwn	Disgrifiad
1	Busnes fel arfer. Diffyg darpariaeth yn lleol yn parhau.
2	Comisiynu pob gwely gan ddarparwr preifat.
3	Ail-bwrpasu ysbytai cymunedol i ddarparu llety gofal preswyl addas.
4	Gofal cartref 24/7 ar gyfer darpariaeth nyrsio a phreswyl. Dim gwelyau preswyl newydd yn cael eu darparu.
5	Dull cyflawni partner sengl. Darparwr ALI yn unig neu ddarparwr BI yn unig.
6	Partneriaeth rhwng yr ALI a'r BI – adnewyddu cartref gofal presennol Penrhos.
7	Partneriaeth rhwng yr ALI a'r BI - adeiladu cyfleuster cartref gofal a nyrsio newydd ym Mhenrhos.

Mae pob un o'r opsiynau hyn wedi bod yn destun Prawf Dadansoddi Penderfyniadau Aml-faen gan ddefnyddio ffactorau llwyddiant hanfodol. Mae sail resymegol sut mae pob opsiwn rhestr hir wedi perfformio wedi'i nodi yn y tabl isod:

Opsiwn	Sail Resymegol
Opsiwn 1: Busnes fel arfer	Nid yw'n bodloni gofynion gwasanaeth nac yn darparu buddion cysylltiedig. Cost uchel yn gysylltiedig â defnyddio darpariaeth breifat y tu allan i'r ardal leol. Wedi'i ddiystyried ond wedi'i ystyried yn yr arfarniad economaidd er mwyn cymharu yn erbyn achos busnes.

Opsiwn 2: Comisiynu pob gwely gan ddarparwr preifat	Nid oes darpariaeth nyrsio breifat ar gael ar hyn o bryd yn ardal Llŷn. Mae tystiolaeth hyd yma yn dangos nad yw'r sector preifat yn debygol o fynd i mewn i'r farchnad yn lleol. Nid yw'n bodloni gofynion gwasanaeth ac felly mae'n cael ei ddiystyried.
Opsiwn 3: Ail-bwrpasu Ysbytai Cymunedol	Byddai'n rhaid ailbwrpasu safle Bryn Beryl i sicrhau gofal yn agosach at adref. Byddai hyn yn debygol o effeithio ar wasanaethau ysbytai eraill, gan effeithio ar y system iechyd a gofal ehangach. Diystyrir yr opsiwn.
Opsiwn 4: Gofal cartref 24/7 ar gyfer darpariaeth nyrsio a phreswyl	Mae argaeledd gweithlu yn yr ardal i ateb y galw yn rhwystyr sylweddol i lwyddiant yr opsiwn hwn. Oherwydd y diffyg gwelyau cartrefi nyrsio, mae'r opsiwn hwn yn cynrychioli risg o bobl ag anghenion uchel sy'n byw ar eu pennau eu hunain. Diystyrir yr opsiwn.
Opsiwn 5: Darparwr ALI yn unig, darparwr BI yn unig	Ni all unrhyw bartner ddarparu gofal nyrsio heb bartneriaeth y Bwrdd Iechyd. Ni fyddai dull un partner yn cyflawni'r amcanion buddsoddi o ddiwallu'r bylchau yn y farchnad a nodwyd yn yr achos strategol. Ni all y Bwrdd Iechyd weithredu cartref gofal ar ei ben ei hun, oherwydd anallu'r Bwrdd Iechyd i godi tâl ar breswylwyr am wasanaethau gofal. Diystyrir yr opsiwn.
Opsiwn 6: Partneriaeth gyda'r ALI a'r BI – adnewyddu cartref gofal presennol Penrhos	Mae gan Gyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gytundeb partneriaeth yn ei le i ddarparu lleoliadau cartrefi nyrsio o fewn y sir ac i sefydlu model gofal arloesol, di-dor ac effeithiol i ddiwallu anghenion trigolion Gwynedd yn y dyfodol. Mae angen partneriaeth i alluogi'r sector cyhoeddus i ddarparu gofal nyrsio hyblyg ac ymatebol. Nid yw darparu gofal nyrsio hyblyg ac ymatebol wedi'i deilwra i anghenion pobl leol yn bosib heb y bartneriaeth hon rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd. Ni fyddai nifer yr ystafelloedd y gellid eu defnyddio trwy adnewyddu yn bodloni gofynion lleol ac ystyrir bod costau adnewyddu yn ormodol ac ni fyddent yn cynrychioli gwerth am arian. Aed â hwn ymlaen i'r arfarniad economaidd at ddibenion cymhariaeth.
Opsiwn 7: Partneriaeth gyda'r ALI a'r BI – cyfleuster cartref gofal a nyrsio newydd ym Mhenrhos	Mae gan Gyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gytundeb partneriaeth yn ei le i ddarparu lleoliadau cartrefi nyrsio o fewn y sir ac i sefydlu model gofal arloesol, di-dor ac effeithiol i ddiwallu anghenion trigolion Gwynedd yn y dyfodol. Mae angen partneriaeth i alluogi'r sector cyhoeddus i ddarparu gofal nyrsio hyblyg ac ymatebol. Nid yw darparu gofal nyrsio hyblyg ac ymatebol wedi'i deilwra i anghenion pobl leol yn bosib heb y bartneriaeth hon rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd. Yr opsiwn a ffeirir yw cyflawni hyn trwy gyfleuster newydd, addas i'r diben gyda'r gallu i fodloni gofynion yr ecosystem gofal iechyd lleol. Aed â hwn ymlaen.

Rhestr Fer o Opsiynau

Yn seiliedig ar y dadansoddiad uchod, yr opsiynau ar y rhestr fer a arfarnwyd drwy'r asesiad economaidd felly yw:

- **Opsiwn 1: Busnes fel Arfer (BfA)**
- **Opsiwn 6: Partneriaeth gyda'r ALI a'r BI – adnewyddu cartref gofal presennol Penrhos** (Gwneud yr isafswm)
- **Opsiwn 7: Partneriaeth gyda'r ALI a'r BI – cyfleuster cartref gofal a nyrsio newydd ym Mhenrhos** (Gwneud yr uchafswm, yr opsiwn a ffeirir)

Rhagwelir y bydd yr opsiwn a ffeirir o gartref gofal preswyl a nyrsio newydd ym Mhenrhos yn cynhyrchu £31m o Werth Presennol Net a Chymhareb Cost Budd o 2.57:1. Mae hyn yn cymharu â'r opsiwn o wneud yr isafswm o £10m o Werth Presennol Net a Chymhareb Cost Budd o 1.42:1.

Casgliad yr Achos Economaidd:

Mae'r dadansoddiad economaidd yn cadarnhau mai'r ffordd ymlaen a ffeirir – **Opsiwn 7 – ffurfio partneriaeth gyda'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu cyfleuster cartref gofal a nyrsio newydd ym Mhenrhos** – sy'n darparu'r gwerth mwyaf am arian, gan gynnig y buddion net uchaf pan gaiff ei asesu yn erbyn y ffactorau llwyddiant hanfodol a'r amcanion buddsoddi. Mae'r arfarniad opsiynau yn dangos bod yr ateb a ddewiswyd yn darparu cydbwysedd cymesur o gost, risg a budd, gyda manteision clir dros y dewisiadau amgen. Mae dadansoddiad sensitifrwyd yn cadarnhau cadernid y deiliant mewn amrediad o sefyllfaoedd. Felly, mae'r opsiwn a ffeirir yn cynrychioli'r llwybr mwyaf buddiol yn economaidd ymlaen.

Yr Achos Masnachol

Mae'r achos masnachol yn nodi'r dull caffael, y strategaeth contract, a threfniadau masnachol i ddarparu'r opsiwn a ffeirir. Mae'n dangos bod y cynllun yn fasnachol hyfyw, bod gan y farchnad y gallu i gyflawni, a bod dyrannu risg a strwythurau cyfreithiol priodol yn eu lle.

Strategaeth a Llwybr Caffael: Daeth adolygiad o opsiynau caffael i'r casgliad mai'r llwybr mwyaf addas yw drwy Lot 5 Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru (PAGC – 3^{edd} cenhedlaeth). Mae'r fframwaith hwn wedi'i gynllunio ar gyfer prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr ac yn blaenoriaethu contractwyr rhanbarthol, cost-effeithlonrwydd a gwerth cymdeithasol.

Gwybodaeth Gytundebol Allweddol: Bydd yr adeilad yn cael ei gaffael gan ddefnyddio dull caffael traddodiadol gyda dyluniad wedi'i ddatblygu'n llawn a Bil Meintiau llawn. Bydd dyluniad contractwr yn cael ei gadw i'r isafswm. Mae hyn yn sicrhau bod y cleient yn cael sicrwydd costau tra'n cadw rheolaeth o'r fanyleb. Y contract fydd Contract Adeiladu Safonol gyda Meintiau 2024 y Tribiwnlys Contractau ar y Cyd (JCT).

Rheoli Cyfleusterau a Rolau Rhanddeiliaid: Bydd rheoli cyfleusterau'n cael ei ddarparu yn fewnol gan Gyngor Gwynedd, gan gynnwys rheolaeth cyfleusterau caled a meddal, cyfleustodau a gwastraff. Mae cytundeb partneriaeth rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ar waith, sy'n diffinio cyfrifoldebau a rennir ar gyfer meysydd o'r cyfleuster a galluogi hyblygrwydd yn y dyfodol.

Dyrannu Risg: Mae risgiau wedi'u dyrannu yn unol ag arfer gorau y diwydiant. Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn cadw'r risgiau dylunio, gweithredol a darparu gwasanaethau.

Goblygiadau Personél: Bydd y Cyngor yn cadw'r cyfrifoldeb am recriwtio a rheoli staff. Bydd gallu yn y Gymraeg yn cael ei ymgorffori yn y polisi recriwtio. Roedd y model gweithredol yn awgrymu: Cyflawniad dan arweiniad y Cyngor gyda nyrsys a gyflogir gan y GIG. Bydd trefniadau terfynol yn cael eu diffinio cyn yr Achos Busnes Llawn.

Materion Cytundebol: Bydd y prosiect yn cydymffurfio â Deddf Caffael 2024. Mae'r fframwaith PAGC yn cefnogi'r defnydd o offer monitro contractau cadarn, cymalau buddion cymdeithasol, a dangosyddion perfformiad allweddol a fydd yn cael eu hymgorffori yn y cytundeb terfynol.

Yr Ymdriniaeth Gyfrifeg: Bydd y cynllun yn cael ei drin fel buddsoddiad cyfalaf ar fantolen y Cyngor. Bydd yr holl gyllid a gwariant yn cael eu cofnodi yn unol â safonau adrodd ariannol y cyngor. Bydd cynllunio ar gyfer goblygiadau referniw (e.e. dibrisiant, costau FM) mewn cyllidebau tymor hir.

Casgliad yr Achos Masnachol:

Mae'r dull masnachol a ffeirir a amlinellir yn yr achos busnes hwn yn dangos llwybr hyfyw a chystadleuol i'r farchnad sy'n cyd-fynd â rheoliadau caffael ac yn rhoi gwerth am arian. Mae'r strategaeth arfaethedig yn sicrhau ymgysylltiad â'r farchnad, yn annog arloesedd cyflenwyr, ac yn lliniaru risgiau masnachol allweddol. Trwy brofion marchnad cynnar a threfniadau cytundebol priodol, mae'r prosiect mewn sefyllfa dda i sicrhau partneriaid cyflawni medrus tra'n cynnal hyblygrwydd a rheolaeth. Yn gyffredinol, mae'r achos masnachol yn cefnogi fframwaith caffael cadarn sy'n sail i gyflawni prosiectau llwyddiannus.

Gan ystyried yr adnoddau angenrheidiol, risgiau posib a rhyng-ddibyniaeth prosiectau, mae'r Achos Masnachol yn dangos bod y Cyngor mewn sefyllfa dda i gaffael a gweithredu'r opsiwn a ffeirir yn effeithiol.

Yr Achos Ariannol

Mae'r achos ariannol yn amlinellu costau rhagamcanol, referniw, a hyfywedd ariannol cyffredinol y fenter fusnes hon. Mae'n darparu dadansoddiad manwl o ofynion buddsoddi, enillion disgwylidiedig, a risgiau ariannol allweddol, gan sicrhau bod penderfyniadau gwybodus yn cael eu gwneud.

Er mwyn arfarnu'r opsiwn a ffefrir ar sail ariannol, datblygwyd model ariannol lle mae'r incwm a'r gwariant a ragwelir yn cael ei fewnbynnu ar sail llif arian, gyda'r cartref gofal a adeiladir o'r newydd yn cael ei arfarnu dros gyfnod o 30 mlynedd.

Trosolwg o Gostau Cyfalaf

Mae proffil cost cyfalaf wedi'i gynhyrchu ar gyfer **Opsiwn a Ffefrir 7 Partneriaeth gyda'r ALI a'r BI – cyfleuster cartref gofal a nyrsio newydd ym Mhenrhos** yn seiliedig ar y wybodaeth dyluniad a gosodiad a ddarparwyd gan y Cyngor gan ddefnyddio meincnodau a chyfraddau marchnad a gafwyd gan Wakemans.

Gwariant Cyfalaf	Eitem
£ 15,410,000	Adeiladu - cartref gofal newydd gyda nyrsio
£ 1,079,000	Ffioedd Statudol a Phroffesiynol @ 7%
£ 500,000	Dodrefn ac Offer
£ 1,155,000	Lwfans Risg y Prosiect 7.5%
£ 933,000	Cynnydd Chwyddiant @ 5.63%
£ 557,000	Tueddiad Optimistiaeth @ 3%
£ 19,634,000	CYFANSWM - GWARIANT CYFALAF

Costau'r Opsiwn a Ffefrir:

Gwariant Cyfalaf a Ragwelir

Blwyddyn Ariannol	% gwariant	£
2026/27	10%	1,963,000
2027/28	45%	8,835,000
2028/29	40%	7,854,000
2029/30	5%	982,000
CYFANSWM		<u>19,634,000</u>

Bwriad yr ABA hwn yw sicrhau cyllid o £16.634m gan Lywodraeth Cymru o'r Gronfa Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IRCF) i greu datblygiad partneriaeth sector cyhoeddus ar safle Penrhos, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC).

Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd yn gofalu bod cyllid ar gael i ganiatáu i Gyngor Gwynedd a BIPBC ddatblygu cynlluniau llawn ar gyfer y cynllun nyrsio a gofal preswyl newydd. Disgwylir i gais cynllunio ffurfiol gael ei gyflwyno maes o law cyn i'r awdurdodau dan sylw wneud cais pellach am gyllid IRCF.

Bydd cyllid cyfalaf mewnol o £3m yn cael ei ddarparu gan Gyngor Gwynedd o ddarpariaeth ar gyfer cyllid cyfatebol prosiectau yn y sector gofal fel yr amlinellir yn y Cynllun Rheoli Asedau 2024-2035. Bydd hyn yn cyfrannu tuag at wrthbwyso unrhyw ddiffyg cyllid o ystyried cost gyfredol y cynnydd mewn prisiau. Mae cadarnhad o'r cyllid hwn wedi'i gynnwys yn [Adroddiad y Cabinet 11/06/2024](#).

O ystyried bod cyllid y Cyngor wedi cael ei gadarnhau, ar y sail bod cyfanswm o £16.634m yn cael ei ddarparu a'i dderbyn yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru yn y symiau sydd eu hangen i gefnogi'r proffil gwariant disgwylid, yna bydd costau cyfalaf y prosiect yn cael eu hariannu'n llawn.

Costau Refeniw

Mae proffil cost refeniw wedi'i gynhyrchu ar gyfer yr opsiwn a ffeirir yn seiliedig ar y wybodaeth ddylunio a gosodiad a ddarperir. Darperir crynodeb o'r costau refeniw yn y tabl isod.

Eitemau	Cyfanswm
Staff	£ 3,213,840
Arall	£ 242,989
Costau canolog	£ 72,248
Incwm rhent	-£ 40,222
CYFANSWM	<u>£3,488,855</u>
Dibrisiad	£ 385,000

Model Refeniw

Rhagwelir y bydd yr opsiwn a ffeirir yn niwtral o ran refeniw neu'n well i Gyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd. Mae'r tueddiadau cyfredol yn dangos bod darpariaeth gwasanaethau preswyl mewnol yng Nghyngor Gwynedd ar lefel meddiannaeth gyfartalog (occ) o 92% ar hyn o bryd. Roedd gan Gartref Gofal y Pwyliaid yn flaenorol lefel meddiannaeth gyfartalog o 90%. Mae'r lefelau meddiannaeth yn y sector annibynnol yng Ngwynedd yn uwch, sef 95%.

	92% occ	90% occ	80% occ	70% occ
Gwariant – Gweithredu	£3,488,855	£3,488,855	£3,488,855	£3,488,855
Is-gyfanswm GWARIANT	£3,488,855	£3,488,855	£3,488,855	£3,488,855
Incwm - Gofal Nyrsio	£1,204,580	£1,185,526	£1,090,255	£994,984
Incwm - Gofal Preswyl	£ 2,331,543	£ 2,283,296	£2,042,064	£1,800,832
Is-gyfanswm INCWM	£3,536,122	£3,468,822	£3,132,319	£2,795,816
GWARGED BLYNYDDOL / (DIFFYG)	<u>£47,267</u>	<u>-£20,033</u>	<u>-£356,536</u>	<u>-£693,039</u>

Mae'r sefyllfa weithredol net yn amrywio ar draws 70%, 80%, 90% a 92% o feddiannaeth gyda dim ond yr olaf yn cynnig gwarged net o £47k y flwyddyn (1.33% o'r incwm). Arbedion maint yn unig yw'r gwahaniaeth rhwng gwarged a diffyg.

Yr Achos Rheolaethol

Mae'r achos rheolaethol yn asesu a oes trefniadau cadarn ar waith ar gyfer cyflawni, monitro a gwerthuso'r cynllun. Mae hyn yn dangos y gellir cyflawni'r opsiwn a ffeirir yn llwyddiannus gyda threfniadau yn eu lle i reoli contractau, gwireddu buddion a rheoli risg.

Cymeradwyaethau a Gwarantau:

Fel ar gyfer pob prosiect dros £5 miliwn, rhaid cyflwyno achosion busnes mewn tri cham: Achos Amlinellol Strategol, Achos Busnes Amlinellol, ac yna Achos Busnes Llawn. Yn dilyn hynny, bydd angen Achos Busnes Llawn (ABLI).

Ar gyfer prosiectau sy'n ymgeisio am Gyllid IRCF, bydd yr Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRh) yn cymeradwyo'r prosiect yn y lle cyntaf ac yn cymeradwyo cynllun cyn y gellir cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru i'w glywed mewn Panel IRCF.

Bydd paneli asesu IRCF, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, tai ac adfywio, yn gwerthuso'r ceisiadau, gan gynnwys yr un hwn, i benderfynu ar eu haddasrwydd ar gyfer cyllid.

Pan fydd cais yn cael ei gymeradwyo gan y panel asesu, bydd yn cael ei gyflwyno i Weinidogion Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo'n derfynol.

Er mwyn sicrhau goruchwyliaeth a thryloywder parhaus, cyflwynir adroddiadau yn rheolaidd bob deufis. Bydd yr adroddiadau hyn yn darparu diweddariadau ar gerrig milltir y prosiect, statws y gyllideb, ac unrhyw faterion neu risgiau sydd wedi dod i'r amlwg. Bydd yr adroddiadau hyn yn galluogi'r BPRh i gynnal goruchwyliaeth barhaus o'r prosiect a darparu diweddariadau amserol i Lywodraeth Cymru.


Trefniadau Rheoli'r Rhaglen

Mae Bwrdd Rhaglen Penrhos yn darparu arweinyddiaeth strategol a throsolwg o'r prosiect gan y prif bartneriaid yn y prosiect yn ogystal â rheoli risgiau a sicrhau bod y prosiect yn gweithio tuag at gyrraedd y nodau y cytunwyd arnynt. Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys uwch swyddogion a rheolwyr o bob sefydliad partner yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol eraill.

Mae Byrddau sefydliadau partner presennol yn cadw'r grym i gwblhau llofnodi'r achos busnes ar bob cam o'r broses ddatblygu trwy eu trefniadau llywodraethu sefydliadol, fel a ganlyn:

- Cyngor Gwynedd – Cabinet.
- BIPBC – IHC y Gorllewin, Tîm Gweithredol, PFIG a'r Bwrdd Iechyd.

Cynrychiolir trefniadau rheoli rhaglen a phrosiect yn y ffigur isod sydd hefyd yn gosod y trefniadau hyn o fewn cyd-destun ehangach cymeradwyo achos busnes:



Cynllun y Prosiect

Mae'r tabl isod yn dangos cerrig milltir y prosiect a'u dyddiadau dangosol:

Cerrig Milltir y Prosiect	Dyddiadau Dangosol
Y Bartneriaeth yn cymeradwyo'r ABS	Mawrth 2023
LIC yn adolygu'r ABS a chymeradwyaeth i fwrw ymlaen	Gorffennaf 2024
Dechrau ar y broses gynllunio	Medi 2025
Caniatâd cynllunio amlinellol	Hydref 2025
Cwblhau'r ABA yn cynnwys cymeradwyaeth fewnol i fwrw ymlaen	Medi 2025
LIC yn adolygu'r ABA a chymeradwyaeth i fwrw ymlaen	Hydref 2025
Cais cynllunio ffurfiol	Ionawr 2026
Cwblhau'r ABLI yn cynnwys cymeradwyaeth fewnol i fwrw ymlaen	Mehefin 2026
LIC yn adolygu'r ABLI a chymeradwyaeth i fwrw ymlaen	Medi 2026
Adeiladu, cwblhau a throsglwyddo	Mawrth 2027 – Medi 2029
Symud i mewn	Hydref 2029

Casgliad yr Achos Rheolaethol:

Mae'r Cyngor wedi sefydlu'r strwythurau llywodraethu angenrheidiol ac wedi dyrannu adnoddau priodol i oruchwylio'r prosiect yn effeithiol. Mae dull rheoli prosiect strwythuredig ar waith, sy'n amlinellu strategaethau lliniaru risg, fframwaith rheoli newid clir, ac amserlen prosiect gynhwysfawr gyda cherrig milltir a dyddiadau cau pendant. Bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau drwy gydol yr amser, gyda chefnogaeth Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu pwrpasol. Mae cynllun y prosiect yn realistig ac yn cael ei gefnogi'n dda gan dîm medrus, amlddisgyblaethol, gyda chefnogaeth gref gan rhanddeiliaid i fwrw ymlaen â'i weithredu ar ôl derbyn cymeradwyaeth cyllido.

Yr Opsiwn a Ffefrir

Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn cadarnhau'r dull a ffefrir i ddatblygu Cartref Gofal Preswyl a Nyrsio Penrhos. Yr opsiwn a ffefrir yw cyfleuster cartref gofal a adeiladir o'r newydd sy'n darparu hyd at 56 o welyau ar y safle.

Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd wedi ceisio cymeradwyaeth yr Achos Busnes Amlinellol (ABA) trwy eu llywodraethu mewnol eu hunain. Cytunwyd ar hyn gan Fwrdd Cyfalaf Strategol BPRh, a bydd y Cyngor wedyn yn cyflwyno cais am gyllid IRCF i Lywodraeth Cymru i geisio am gyllid IRCF, yn seiliedig ar yr opsiwn a ffefrir a nodir yn y ddogfen hon.

Os rhoddir cymeradwyaeth i'r Achos Busnes Amlinellol, bydd angen i'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd wedyn baratoi Achos Busnes Llawn a cheisio pob cymeradwyaeth i ryddhau cyllid ar gyfer y prosiect.

Ochr yn ochr â hyn, bydd y Cyngor yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddylunio a chaffael contractwr ynghyd â chyflwyno'r cais cynllunio ar gyfer y safle ac ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid.


Pwrrpas y Ddogfen

Pwrpas y Ddogfen

Pwrpas yr Achos Busnes Amlinellol yw:


- Adnabod y cyfle marchnad sy'n cynnig y gwerth gorau am arian
- Nodi'r trefniadau masnachol a chytundebol ar gyfer y cytundeb a drafodwyd
- Cadarnhau bod y cytundeb yn parhau i fod yn fforddiadwy
- Sefydlu trefniadau rheoli ar gyfer cyflawni, monitro a gwerthuso'r prosiect yn llwyddiannus

Mae'r ddogfen hon yn mynegi Cam 2 yn y Fframwaith Datblygu Achos Busnes tra hefyd yn arddangos elfennau o weithgareddau Cam 1 (Achos Amlinellol Strategol).



Mae'r Achos Busnes Amlinellol hwn yn galluogi i Porth 2 gael ei gynnal ac i benderfyniad buddsoddi gael ei wneud yn benodol mewn perthynas â datblygu Cartref Gofal Preswyl a Nyrsio Penrhos.

Mae'r tabl ar y dde yn dangos y lefelau cwblhau/sicrwydd disgwyliedig ar gyfer pob un o'r camau wrth i'r prosiect symud trwy'r Fframwaith Datblygu Achos Busnes. Mae'r rhes ganol o golofnau yn cynrychioli'r lefelau cwblhau presennol ar gyfer y prosiect hwn gan fynd â Phartneriaeth Penrhos i sefyllfa lle gellir gofyn am ganiatâd i symud i'r cam caffael (Cam 3).



Strwythur y Ddogfen

Mae'r ddogfen wedi'i strwythuro i gynnwys y 5 elfen a ganlyn yn unol â'r model 5 achos:

- Yr **Achos Strategol**: Pam bod ymyrraeth yn angenrheidiol a pha fuddion ddylid eu cyflawni o ganlyniad i ymyrraeth?
- Yr **Achos Economaidd**: Beth yw'r opsiynau sydd ar gael i gyflawni'r bwriad strategol a pha un sy'n cynnig y Gwerth am Arian gorau?
- Yr **Achos Masnachol**: Sut y gellir caffael a chyflawni'r prosiect?
- Yr **Achos Ariannol**: Sut bydd y prosiect yn cael ei ariannu a faint mae'n ei gostio?
- Yr **Achos Rheolaethol**: Sut bydd y rhaglen yn cael ei chyflawni a pha drefniadau llywodraethu fydd yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau cyflawniad sy'n gymesur â'r bwriad strategol?

Yr Achos Strategol

1. Yr Achos Strategol

1.1 Cyflwyniad

Diben yr Achos Strategol hwn yw dangos bod datblygu Cartref Gofal Preswyl a Nyrsio Penrhos yn darparu synergedd ac yn cyd-fynd â'r holl bolisiâu, achosion busnes a strategaethau rhanbarthol, lleol a chenedlaethol. Yn ei hanfod, mae'r Achos Strategol yn gwneud yr achos dros newid.

1.2 Partneriaeth Penrhos

Mae Cartref Gofal Preswyl a Nyrsio Penrhos yn bartneriaeth sector cyhoeddus arloesol a newydd sy'n adnabod pwysigrwydd cydweithredu traws-sector i ddarparu'r canlyniadau gorau i drigolion a chymunedau lleol.

Bydd y model newydd o weithio mewn partneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn cefnogi ailgydbwysu'r farchnad gofal preswyl a nyrsio (yn ardal Gwynedd) wrth gynyddu darpariaeth y sector cyhoeddus neu nid er elw sy'n ymdrechu i ddarparu canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bawb.

Bydd y cartref gofal a nyrsio yn cael ei adeiladu ar safle Penrhos, gyda datblygiadau tai â gofal newydd sy'n cael eu cwblhau gan Gymdeithas Tai ClwydAlyn. Er eu bod yn elfennau gwaith unigryw gyda mecanweithiau ariannu gwahanol, mae'r prosiect tai a phrosiect y cartref gofal yn rhyng-ddibynnol iawn.

Mae gan y prosiect ddau bartner allweddol ar gyfer y cartref gofal, tra bod ClwydAlyn yn bartner allweddol ar y safle gyfan. Gweler isod grynodedb byr ynghylch y partneriaid.

Cyngor Gwynedd

Cyngor Gwynedd (CG) yw corff llywodraethu prif ardal Gwynedd, sy'n cynnwys hen siroedd Sir Gaernarfon a Sir Feirionnydd. Mae Cyngor Gwynedd yn darparu ar gyfer 117,400 o drigolion dros ardal o 2,540 o gilometrau sgwâr. Mae'n un o gyflogwyr mwyaf y sir, gan gyflogi dros 7,000 o staff (3,000 yn llawn amser / 4,000 yn rhan-amser) gyda 65% o'i boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Ar wahân i'w rôl llywodraeth leol a gwleidyddol, mae'r Cyngor yn gweithredu ystod eang o wasanaethau mewn dros 10 Adran. Yn eu mysg, mae'r adrannau:

- Oedolion, Iechyd a Llesiant
- Plant a Chefnogi Teuluoedd
- Economi a Chymuned
- Addysg
- Yr Amgylchedd
- Tai ac Eiddo.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr [BIPBC] yw sefydliad iechyd mwyaf Cymru, gyda chyllideb o £2.2 biliwn a gweithlu o dros 20,000 o staff. Mae'n darparu gwasanaethau ysbyty sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl a gwasanaethau aciwt ar gyfer poblogaeth gogledd Cymru.

Yn ogystal â'r tri phrif safle ysbyty yn Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Wreccsam Maelor, mae hefyd yn gyfrifol am ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl, timau cymunedol, meddygfeydd a gwasanaethau eraill y GIG a ddarparwyd gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr.


Cymdeithas Tai ClwydAlyn

Gyda dros 800 o staff, mae ClwydAlyn yn Landlord Cymdeithasol cofrestredig sy'n rheoli dros 6,500 o dai yng ngogledd a chanolbarth Cymru, gan ddarparu gwasanaethau rheoli tai yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Powys a Wrecsam. Mae ClwydAlyn yn cynnwys pedwar endid cyfreithiol, gan gynnwys Cymdeithas Tai, cwmni masnachol, rheolwr rhaglen tai cymdeithasol newydd a chwmni cyllid tai. Mae ClwydAlyn yn darparu ystod eang o dai a gwasanaethau, gan gynnwys tai fforddiadwy i deuluoedd, byw â chymorth, rhan-berchnogaeth a rheoli lesddaliad. Un o brif egwyddorion ClwydAlyn yw adeiladu tai carbon hynod isel yn defnyddio deunyddiau lleol.

Yn ogystal â bod yn ddarparwr tai cymdeithasol, mae ClwydAlyn yn cynnig gwasanaethau i bobl bregus yng ngogledd Cymru, megis llochesi i'r digartref, llochesi trais domestig, cefnogaeth iechyd meddwl a chartrefi gofal ar gyfer pobl sydd angen gofal, sy'n dangos bod ClwydAlyn yn cymryd rhan weithredol mewn mentrau cymunedol.

Sefydliadau Partner	Amcanion a Champau Gweithredu
Cyngor Gwynedd	Y saith blaenoriaeth ar gyfer y 5 mlynedd nesaf sy'n deillio o Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028: Gwynedd Yfory: Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc. Gwynedd Ffyniannus: Cryfhau'r economi a chefnogi pobl Gwynedd i ennill cyflog teg. Gwynedd Glyd: Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau. Gwynedd Ofalgar: Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw mewn cymunedau llawn a diogel. Gwynedd Gymraeg: Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y gymuned. Gwynedd Werdd: Gwarchod prydfwerthwch naturiol y sir, ac ymateb yn bositif i'r argyfwng newid hinsawdd. Gwynedd Effeithlon: Rhoi pobl Gwynedd yn gyntaf a'u trin yn deg a sicrhau bod y Cyngor yn perfformio yn effeithiol ac yn effeithlon.
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	<u>BIPBC: Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025-2028</u> Mae'r Bwrdd wedi gosod pump Amcan Strategol i arwain gwelliannau: - Adeiladu Corff Effeithiol - Datblygu Strategaeth a Newid Parhaol - Creu Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu Tosturiol - Gwella Ansawdd, Deilliannau a Phrofiad - Sefydlu Amgylchedd Effeithiol ar gyfer Dysgu
Cymdeithas Tai ClwydAlyn	Dehongliad cryno o amcanion strategol ClwydAlyn: Mwy o dai gydag amrywiaeth ehangach: Rydym yn darparu ystod eang o wasanaethau tai, o dai cyffredinol, i gartrefi gofal a chynlluniau byw'n annibynnol, ynghyd â chynlluniau byw â chymorth. Taclo Tlodi: Cydweithio i daclo tlodi, gan sicrhau bod gan bawb yng ngogledd Cymru fynediad at dai o ansawdd ardderchog. Effeithlonrwydd Ynni: Gwneud tai newydd mor ynni effeithlon â phosib i daclo tlodi tanwydd a gwella iechyd a lles preswylwyr. Cynaliadwyedd: Mae gan ClwydAlyn weledigaeth hirdymor i ymdrin â heriau newid hinsawdd yn gynaliadwy ac economaidd, gyda'r nod o ddarparu tai Sero Carbon erbyn 2050. Cefnogaeth Gymunedol: Canolbwyntio ar greu cymunedau ble mae preswylwyr yn medru ffynnu, gan ddarparu gwasanaethau cymorth megis cartrefi gofal, tai â chymorth a chynlluniau byw'n annibynnol. Cyfraniad Economaidd: Mae ClwydAlyn yn cyfrannu'n sylweddol at economi gogledd Cymru fel cyflogwr a buddsoddwr, gyda gwariant cyfalaf sylweddol ar brosiectau tai newydd.

Tabl 1:Tabl yn amlinellu amcanion strategol gwahanol y tri phartner.



Ffigwr 1: Dadansoddiad thematig cydgyfeiriant enillion amcanion y bartneriaeth ar draws 5 maes

Mae'r cydweithio rhwng sefydliadau'r partner yn ceisio cynyddu datblygiad economaidd ac ehangu ar gyfraniad economaidd y preswylwyr. Ar draws yr holl wasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai, mae'n ceisio darparu gwasanaethau ansawdd uchel sy'n cynyddu diogelwch ac yn lleihau anghydraddoldebau drwy ddull sy'n rhoi pobl yn gyntaf. Bwriad hyn yw cyflawni ysbryd cymunedol sydd wedi'i wreiddio'n ddiwylliannol yn yr iaith Gymraeg ac arferion Cymreig. Elfen allweddol ar draws y bartneriaeth yw'r sensitifrwydd i newid hinsawdd a'r angen i fabwysiadu dulliau ac arferion cynaliadwy a gwyrdd ar draws yr holl wasanaethau.

Mae adroddiad cyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd (28/03/23) yn datgan ac yn croesawu'r cydweithio hwn rhwng Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd.

1.3 Y Cyd-destun Cenedlaethol

Mae'r adran hon yn cyfeirio at y polisiau, arweiniad, fframweithiau, cynlluniau a strategaethau iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol perthnasol sy'n eirioli yn unigol a/neu gyda'i gilydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar gyfer datblygiad cartref gofal preswyl a nyrsio Penrhos a'r lefel angenrheidiol o gydweithio rhwng partneriaid. Y polisiau, arweiniad, fframweithiau, cynlluniau a strategaethau yw:

Canllawiau y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF) Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022-2025¹

Mae'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF) Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn fenter ariannol allweddol sydd wedi'i dylunio i gefnogi nodau ac amcanion iechyd a gofal cymdeithasol integredig er mwyn ymdrin ag anghenion hanfodol mewn seilwaith gofal cymdeithasol. Mae IRCF² wedi'i sefydlu i gefnogi'n uniongyrchol ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu (PfG) o ddatblygu 50 o hybiau iechyd a gofal cymdeithasol a chefnogi ailgydbwyso'r farchnad gofal preswyl. Sefydlwyd y rhaglen i wneud y canlynol:

- Cefnogi dull cydlynol i gynllunio i gyd-leoli ac integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o fewn y gymuned ar draws Cymru
- Cefnogi ailgydbwyso darpariaeth gofal preswyl oedolion wrth gynyddu darpariaeth o'r sector nid er elw.
- Cefnogi gwaredu elw o ddarpariaeth gofal preswyl plant.

Mae gan yr IRCF dri maes blaenoriaeth o fuddsoddiad i gefnogi gweithrediad ymrwymadau Cymru lachach a PfG. Mae prosiect cartref gofal Penrhos yn cwrdd ag ail flaenoriaeth y gronfa sef *Blaenoriaeth 2 - Ailgydbwyso'r farchnad gofal preswyl*. Dan Flaenoriaeth 2, mae canllawiau IRCF Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cyfeirio at Bapur Gwyn 'Ailgydbwyso Gofal a Chefnogaeth' sy'n gosod uchelgeisiau gweinidogol er mwyn ailgydbwyso'r sector o gost i ansawdd, o allbynnau i ddeilliannau ac o elw at werth cymdeithasol.

¹Canllawiau'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022-2025.pdf

²[Cronfa cyfalaf integreiddio ac ailgydbwyso iechyd a gofal cymdeithasol: canllawiau 2025 i 2027](#)

Dyraniad Cyllideb Gyfalaf (2025-2027)

Mae'r IRCF wedi dyrannu cyfanswm cyllideb y rhaglen o £70m y flwyddyn rhwng 2025-2027.

Mae'r gronfa yn canolbwyntio ar dri phwynt allweddol:

1. Datblygu Hybiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig i ddarparu gwasanaethau di-dor a chydleoli gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chymunedol.
2. Ailgydbwyso'r Farchnad Gofal Preswyl Oedolion drwy gynyddu darpariaeth gofal nid er elw a chefnogi capasiti mewnol ar gyfer awdurdodau lleol.
3. Dileu Elw mewn Gofal Preswyl Plant, gan flaenoriaethu cyllid ar gyfer gwasanaethau gofal plant nid er elw.

Cefnogaeth Cyllideb Refeniw:

Yn ogystal â chyllid cyfalaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo cyllid refeniw penodol i helpu i ddarparu'r rhaglen:

- £200,000 y flwyddyn i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) ddatblygu Cynllun Cyfalaf strategol 10-mllynedd.
- £500,000 y flwyddyn i bob BPRh gefnogi astudiaethau dichonoldeb a chydlynu darpariaeth gwasanaeth Integredig drwy hybiau iechyd a gofal cymdeithasol.

Bwriedir i'r gefnogaeth refeniw hon ehangu capasiti awdurdodau lleol i gynllunio, datblygu a rheoli cyfleusterau gofal newydd yn effeithiol, gan sicrhau dull strategol i ymdrin ag anghenion lleol.

Ailgydbwyso Gofal Preswyl Oedolion:

Mae'r IRCF yn ymarfer ailgydbwyso gofal preswyl oedolion drwy'r canlynol:

- **Cynyddu Capasiti:** Mae buddsoddiad yn cael ei gyfeirio at ehangu cartrefi gofal mewnol, uwchraddio cyfleusterau presennol a chynyddu capasiti gofal nyrsio, yn enwedig ar gyfer anghenion gofal cymhleth.
- **Cefnogi Darparwyr Nid er Elw:** Mae'r Gronfa yn annog twf darpariaeth gofal nid er elw, gan anelu at symud i ffwrdd o fodelau sy'n cael eu gyrru gan elw tuag at wasanaethau sy'n canolbwyntio ar werth cymunedol ac ansawdd.
- **Cynyddu Gwasanaethau Integredig:** Mae buddsoddiad yn targedu cyfleusterau sy'n medru darparu ystod eang o wasanaethau iechyd integredig, megis adsefydlu, ail-alluogi a chymorth iechyd perthynol, yn uniongyrchol o fewn lleoliadau gofal preswyl.

Llywodraethu a Chynllunio Strategol

Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yn chwarae rhan ganolog yn rheoli cronfeydd yr IRCF. Mae ganddynt y dasg o ddatblygu Cynlluniau Cyfalaf Strategol sy'n alinio ag anghenion rhanbarthol a blaenoriaethau'r llywodraeth, gan sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau refeniw a chyfalaf. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys:

- Asesiadau cynhwysfawr o seilwaith gofal cyfredol.
- Adnabod bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth, yn enwedig mewn gofal nyrsio a phreswyl.
- Blaenoriaethau buddsoddi strategol wedi'u anelu at ehangu darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar draws y rhanbarth.

Goblygiadau ar gyfer Datblygu Cartref Gofal Penrhos

Mae'r IRCF yn cyflwyno cyfleoedd sylweddol ar gyfer prosiectau megis datblygu cartref gofal Penrhos:

- **Mynediad at Gyllid Cyfalaf:** Gall Penrhos elwa o Fuddsoddiad Cyfalaf sydd wedi'i anelu at ehangu capasiti gofal nyrsio a phreswyl, uwchraddio cyfleusterau ac integreiddio gwasanaethau iechyd ychwanegol ar y safle.
- **Cymorth i Ddarparu Gwasanaeth Integredig:** Mae canolbwyntio ar gyd-leoli gwasanaethau yn alinio'n dda gyda nodau strategol Penrhos, gan alluogi'r cyfleuster i gynnig ystod gynhwysfawr o ofal, o gymorth byw'n annibynnol i ofal nyrsio cymhleth.
- **Gwell Sefydlogrwydd Ariannol:** Gall cymorth refeniw ar gyfer cynllunio strategol ac astudiaethau dichonoldeb helpu i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â datblygu a gweithredu cyfleusterau gofal newydd, gan sicrhau twf cynaliadwy a hyfywedd hirdymor.

Cefnogaeth Cyllideb Refeniw ar gyfer Cynllunio Strategol

Mae dyraniadau cyllideb refeniw IRCF yn darparu cefnogaeth sylweddol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) ddatblygu Cynlluniau Cyfalaf Strategol cynhwysfawr. Ar gyfer prosiect Penrhos, mae hyn yn golygu:

- **Mynediad at Gyllid Refeniw:** Gall y dyraniad blynyddol o £200,000 fesul BPRh ar gyfer cynllunio strategol a £500,000 ar gyfer astudiaethau dichonoldeb elwa Penrhos yn uniongyrchol, gan helpu i dalu costau cynllunio prosiect manwl, ymgysylltu â rhanddeiliaid a dylunio gwasanaeth.
- **Gwell Capasiti ar gyfer Cynllunio Hirdymor:** Bydd y gefnogaeth refeniw yn galluogi tîm datblygu Penrhos i weithio'n agos â BPRh a'u cynllun strategol 10-mllynedd, gan alinio'r prosiect â blaenoriaethau rhanbarthol a sicrhau fframwaith cryf ar gyfer twf yn y dyfodol.

Ailgydbwyso'r Farchnad Gofal Preswyl Oedolion

Mae'r IRCF yn pwysleisio ar ailgydbwyso'r farchnad gofal preswyl oedolion drwy gynyddu darpariaeth gofal nid er elw a gwella capasiti mewnol. Mae hyn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â nodau datblygu Penrhos:

- **Symud tuag at Werth Cymdeithasol ac Ansawdd:** Gall Penrhos leoli ei hun fel darparwr gofal ansawdd uchel, sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, gan ganolbwyntio ar ddarparu gwerth, sy'n cyd-fynd ag angen Llywodraeth Cymru ar gyfer modelau gofal nid er elw.
- **Cynyddu Capasiti Gofal Nyrsio:** Drwy ddefnyddio cyllid IRCF sy'n anelu at gynyddu gwasanaethau gweithwyr iechyd proffesiynol perthynol, gall Penrhos gynyddu ei allu i ofalu am breswylwyr gydag anghenion iechyd cymhleth, gan leihau'r straen at ysbytai lleol.
- **Cefnogi Twf Nid er Elw ac Awdurdod Lleol:** Mae'r gronfa yn cymell awdurdodau lleol a darparwyr nid er elw i ehangu eu cyfleusterau gofal mewnol. Gall Penrhos, fel rhan o'r strategaeth hon, gael mynediad at adnoddau i gynyddu ei gapasiti gwelyau, cwrdd â gofynion rheoleiddiol a gwella ansawdd gwasanaeth cyffredinol.

Ymdrin â Heriau Gweithredol gydag Integreiddio Refeniw:

Mae integreiddio ffrydiau cyllido refeniw a chyfalaf drwy'r IRCF yn darparu dull holistaidd at gyllido, sy'n fuddiol ar gyfer prosiectau megis Penrhos:

- **Lliniaru Cynydd mewn Cyflog a Chostau Yswiriant:** Gall y gefnogaeth refeniw ychwanegol helpu i wneud i fyny am gostau gweithredol cynyddol o gynyddu'r Cyflog Byw Cenedlaethol a chyfraniadau Yswiriant Gwladol, sy'n ystyriaethau sylweddol ar gyfer y sector cartref gofal.
- **Cynllunio Ariannol Cynaliadwy:** Drwy gyd-fynd â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) a rhaglenni refeniw eraill, gall Penrhos sicrhau llif cyson o gronfeydd Gweithredol i gefnogi ei wasanaethau, gan leihau risg ariannol a hyrwyddo cynaliadwyedd hirdymor.

Llywodraeth Cymru, Papur Gwyn, Ailgydbwyso Gofal a Chefnogaeth 'Ymgynghoriad ar wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau gweithio mewn partneriaeth i gefnogi lles pobl yn well' (2021)³

Mae galw cynyddol am ofal a chefnogaeth ymhob grŵp poblogaeth. Dyma ffynhonnell o'r her sylfaenol mwyaf ac mae'n ymwneud â safle cyllid y sector. Mae Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei ddarparu drwy farchnad o dros 1,000 o ddarparwyr, yn bennaf o'r sector annibynnol, sy'n aml yn cystadlu am yr un contractau. Comisiynwyd gofal a chefnogaeth pobl drwy Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol neu'n uniongyrchol eu hunain. Mae'n cael ei gyllido drwy lywodraeth leol a chenedlaethol a ffioedd a thaliadau y gall pobl eu talu i'w Awdurdod Lleol neu'n uniongyrchol i ddarparwr gofal. Yn y cyd-destun hwn o system dameidiog, mae'n hanfodol i bartneriaid weithio gyda'i gilydd. Mae hyn yn dystiolaeth o arfer dda, ond yn yr un modd, mae pryderon am gynnydd yr integreiddio. Nid oes llawer o ofod ar gyfer sefydliadau gwerth cymdeithasol a rhannu data cyfyngedig fel sail i ddysgu system gyfan. Dyma'r system sydd ar gael yn hytrach na'r system sydd ei hangen. O'r achos dros newid sy'n cael ei drafod yn nes ymlaen, mae tri maes hanfodol yn codi ble mae angen gweithredu penodol i ddarparu gwelliant:

- Ail-ganolbwyntio hanfodion y farchnad gofal - i ffwrdd o bris tuag at fesur gwerth yn seiliedig ar ansawdd y gwasanaeth a chostau cyffredinol
- Aildrefnu arferion comisiynu fel eu bod yn canolbwyntio mwy ar ddeilliannau; ac
- Esblygu mecanweithiau integreiddio a symleiddio cyd-gynllunio a chyflawni.

Drwy weithredu ar y tri maes hwn, mae'r Papur Gwyn Ailgydbwyso Gofal a Chefnogaeth yn ceisio ailgydbwyso'r farchnad gofal a chefnogaeth yn seiliedig ar fframwaith cenedlaethol clir ble mae gwasanaethau yn cael eu trefnu yn rhanbarthol a'u cyflawni yn lleol. Wrth wneud hyn, y nod yw ail-addasu'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol fel nad oes gor-ddibyniaeth ar y sector preifat na monopoli i'r cyfeiriad arall. Mae'r Papur Gwyn yn diffinio 'ailgydbwyso' yn eang fel cyfres o ddisgrifiadau o'r newid system sy'n angenrheidiol.

Er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau gweinidogol a'r rhaglen IRCF, ac i helpu i wneud y symud angenrheidiol, mae buddsoddiad Cyfalaf ar gael i gefnogi awdurdodau lleol a sefydliadau nid er elw (megis Cyngor Gwynedd a BIPBC) a chymdeithasau tai (megis ClwydAllyn) yn y ffyrdd canlynol:

1. Buddsoddi mewn lleoliadau cymunedol/eiddo preswyl/gofal nyrsio i sicrhau eu bod yn medru cwrdd ag anghenion mwy cymhleth unigolion yn agosach at eu cartref, h.y., nyrsio, capasiti gofal canolraddol a gweithwyr proffesiynol iechyd perthynol. Gall hyn gynnwys mynediad cynyddol at wasanaethau GIG, (megis therapi cymunedol, adsefydlu / ail-alluogi a phodiatreg) ar gyfer preswylwyr, gan adnabod eu bod yn parhau'n aelodau o boblogaeth y Bwrdd Iechyd
2. Cefnogi a chymell awdurdodau lleol a ddarparwyr nid er elw i gynyddu'r ddarpariaeth fewnol - gall gynnwys ehangu cartrefi gofal mewnol (gwelyau ychwanegol), uwchraddio cyfleusterau i ddod â nhw'n unol â rheoliadau fel bod modd iddynt gael eu hail-gofrestru fel ddarpariaeth nid er elw.
3. Cymorth i awdurdodau lleol ddod â ddarpariaeth sydd wedi methu yn ôl dan reolaeth llywodraeth leol.
4. Cynyddu capasiti gofal preswyl a nyrsio ble mae bylchau/prinder amlwg o ddarpariaeth.
5. Cefnogaeth i gartrefi gofal annibynnol llai fenthyg adnoddau ar gyfer buddsoddi (ar sail fesul achos - mwy o gyngor i ddilyn).

Mae datblygiad cartref gofal Penrhos yn adlewyrchu bwriad yr IRCF i gyflawni'r shiftt angenrheidiol. Mae hefyd yn adlewyrchu ac yn ymateb i uchelgeisiau gweinidogol, ynghyd â chyd-fynd yn uniongyrchol ag amcanion rhaglen IRCF. Gyda mwy o gyfranogiad nid er elw yn cael ei ddarparu drwy gydweithio Cyngor Gwynedd a BIPBC a rheoli cartref gofal Penrhos, gall y cydbwysedd tuag at ansawdd, allyriadau a gwerth cymdeithasol gael ei ail-addasu i ffafrio anghenion pobl.

³[dogfen-ymgynggori_0.pdf](#)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol⁴ yn ceisio cynyddu lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Drwy gyfres o 7 nod llesiant, mae'r Ddeddf (wedi'i strwythuro isod⁵) yn rhoi pwrpas cyffredinol sy'n gyfreithiol rwymol ar gyfer llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrrff cyhoeddus penodol eraill.



Ffigwr 2: Trosolwg o Nodau Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'n manylu ar y ffyrdd y mae'n rhaid i gyrrff cyhoeddus weithio, a gweithio gyda'i gilydd, i wella llesiant Cymru. Mae'r 7 nod llesiant yn ymwneud â Phenrhos fel a ganlyn:

Nod:	Perthnasedd i Benrhos: Bydd y prosiect hwn yn...
Cymru lewyrchus	Cyfrannu at gyfleoedd cyflogaeth ac ysgogi datblygiad economaidd.
Cymru gydnerth	Gwella lles hollstaidd y gymuned, gan gynnwys adfywio economaidd a bydd yn annog cymuned lleol mwy gwydn yn Llŷn.
Cymru iachach	Darparu gwell ansawdd o iechyd a gofal cymdeithasol yn ardal wledig Llŷn.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cynnig cyfle am well mynediad at ofal sy'n agosach at adref a chynnig cyfle am gyfranogiad ac ymgysylltu cymunedol ehangach a gwell.
Cymru o gymunedau cydlynus	Canolbwyntio ar ac annog lles cymunedol; gweithio'n agos gyda mentrau cymunedol i sicrhau nad yw pobl bregus yn cael eu hynysu.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu	Darparu gofod ar gyfer hyfforddeion sy'n siarad Cymraeg fel bod modd cynnig gwasanaethau gofal drwy gyfrwng y Gymraeg, gan felly hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r treftadaeth Pwyleg gwreiddiol.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Drwy gaffael gwasanaethau ar y safle, sicrhau bod cadwyni cyflenwi yn deg, yn foesegol ac yn gynaliadwy a bod penderfyniadau ariannol bellach yn galluogi cenedlaethau'r dyfodol i ffynnu. Bydd y prosiect hefyd yn anelu at weithrediadau ac adeiladu sero carbon.

Tabl 2: Tabl i ddangos perthnasedd y Nodau Llesiant i Benrhos

⁴Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Cyfraith Cymru

⁵Deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol: yr hanfodion

Mae saith nod llesiant cysylltiedig Cymru yn cael eu cefnogi gan y pum ffordd o weithio sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn y prosiect o'r cychwyn, fel a ganlyn:

1. **Hirdymor:** Mae'r prosiect, gyda model gweithredu hwb gofal a chymunedol, yn fuddsoddiad hirdymor, fydd yn darparu ar gyfer preswylwyr Llŷn am flynyddoedd i ddod.
2. **Atal ac Integreiddio:** Mae'r prosiect yn cael ei yrru gan bartneriaeth y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Awdurdod Lleol i sicrhau darpariaeth o gyfleuster gofal cynaliadwy, cryf yn ardal Llŷn i gwrdd ag anghenion lleol presennol a rhai'r dyfodol sy'n cwrdd ag amcanion y ddau bartner.
3. **Cydweithio:** Mae'r prosiect hwn yn ffrwyth gwaith y cydweithio rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol dros gyfnod estynedig i sicrhau gwasanaeth preswyl a nyrsio lleol sy'n cwrdd ag anghenion preswylwyr ac yn addas ar gyfer y dyfodol.
4. **Cyfranogiad:** Mae cyfranogiad cyhoeddus drwy nifer o gyfleoedd ymgysylltu wedi siapio barn ar anghenion y gymuned. Mae profiadau byw yr heriau yn y cymunedau yn cael eu hadlewyrchu yn y diffiniad o sgôp a gweledigaeth cartref gofal Penrhos. Mae cyfranogiad yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd yn sicr wedi creu ymdeimlad o gyd-weledigaeth a pherchnogaeth o'r datblygiad arfaethedig hwn.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant⁶ yn canolbwyntio ar yr angen i wella cydweithio a phartneriaeth rhwng a thu hwnt i sefydliadau iechyd a gofal. Mae'r Ddeddf:

- Angen i awdurdodau lleol benderfynu i hyrwyddo cydweithrediad gyda phartneriaid perthnasol ac eraill mewn perthynas ag oedolion gydag anghenion am ofal a chefnogaeth, gofalwyr a phlant.
- Yn gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu a rhannu gwybodaeth gydag awdurdodau lleol er mwyn cefnogi darparu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.
- Yn darparu ar gyfer hyrwyddo integreiddio gofal a chefnogaeth gyda gwasanaethau iechyd.
- Yn darparu ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol er mwyn eu rhyddhau o'u swyddogaethau.
- Yn darparu ar gyfer cronfeydd wedi'u pwlio sy'n cynnwys cyfraniadau gan yr awdurdod a'r partner perthnasol neu bartneriaid cysylltiedig, ac ohonynt, gellir gwneud taliadau tuag at wariant sydd wedi'i gronni wrth weithredu swyddogaethau'r awdurdod a swyddogaethau'r partner perthnasol.

Mae Adran 47(6) y Ddeddf yn nodi:

"caiff awdurdod lleol, er gwaethaf is-adrannau (1), (2), (4) a (5), drefnu i lety ynghyd â gofal nyrsio gan nyrs gofrestredig gael eu darparu-

- a. os yw'r awdurdod wedi cael cydsyniad i drefnu'r ddarpariaeth gofal nyrsio gan h.y. pa bynnag Fwrdd Iechyd Lleol sy'n ofynnol o dan reoliadau, yn achos llety yng Nghymru..., neu*
- b. mewn achos brys a lle bo'r trefniadau'n rhai dros dro."*

Mae Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) yn darparu canllawiau statudol Trefniadau Partneriaeth sy'n datgan:

"⁷rhaidd i awdurdodau lleol benderfynu i hyrwyddo cydweithrediad gyda'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion gydag anghenion am ofal a chefnogaeth, gofalwyr a phlant. Mae'n rhoi dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu gyda, a darparu gwybodaeth i'r, awdurdodau lleol er diben eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n darparu ar gyfer hyrwyddo integreiddio gofal a chefnogaeth gyda gwasanaethau iechyd. Mae'n darparu ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol er mwyn eu rhyddhau o'u swyddogaethau. Mae hefyd yn darparu Gweinidogion Cymru gyda phwerau i wneud rheoliadau lle gallant ofyn am greu trefniadau partneriaeth ffurfiol a defnyddio cronfeydd wedi'u pwlio".

⁶[Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 | Cyfraith Cymru](#)

⁷[canllawiau-statudol-rhan-9-trefniadau-partneriaeth.pdf](#)

Mae canllaw statudol Rhan 9 yn eirioli partneriaethau sy'n cynnwys rhwng 'Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr' ac awdurdodau lleol Sir y Fflint, Wrecsam, Ynys Môn, Gwynedd, Sir Ddinbych a Chonwy. Mae angen i bartneriaeth o'r fath flaenoriaethu integreiddio gwasanaethau mewn perthynas â:

- Phobl hŷn gydag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor.
- Gwasanaethau Cefnogi Teulu Integredig.
- Anableddau dysgu.
- Plant ag anghenion cymhleth yn sgil anabledd neu salwch.
- Gofalwyr.

Mae cartref gofal Penrhos yn ymgorffori trefniadau'r bartneriaeth a blaenoriaethau gofal ar gyfer pobl hŷn gydag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan greu aliniad uniongyrchol rhwng datblygiad y cartref gofal a strategaeth genedlaethol.

Llywodraeth Cymru. Cymru iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2022)

Mae'r strategaeth hon⁸, a gyhoeddwyd yn gyntaf yn 2018 a'i diweddarau yn 2022, yn cyflwyno Fframwaith Cenedlaethol strategol ar gyfer gofal a chymorth sy'n gosod y sylfaen ar gyfer comisiynu ymarfer, lleihau cymhlethdod ac ailgydbwysu'r comisiynu er mwyn cynyddu'r ffocws ar ansawdd a deilliannau.

Mae'r strategaeth yn rhoi pobl a deilliannau pobl wrth wraidd y Fframwaith, sydd hefyd yn annog gweithio mewn partneriaeth ar lefelau clwstwr, lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Y prif ddeilliannau yw:

- Ei gwneud yn hawdd i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac eraill weithio gyda'i gilydd.
- Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu mwy o ofal cartref neu cyn agosed â phosib at y cartref.
- Symud rhai gwasanaethau i ffwrdd o'r ysbyty a helpu pobl i aros yn iach a bod yn fwy annibynnol.
- Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i wrando ar bobl a'u teuluoedd a darganfod beth sydd orau iddynt ac yna wneud eu gorau i wireddu'r pethau hynny.
- Gwneud newidiadau a sicrhau bod digon o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cymryd balchder yn eu gwaith ac yn cael boddhad proffesiynol, sy'n gwneud eu gwaith yn dda.

Mae'r strategaeth hon yn ceisio sicrhau bod pobl yn aros yn iach ac yn annibynnol cyn hired â phosib ac mae'n cynnig y gwerthoedd canlynol:

- Cydlynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddi-dor.
- Mesur y deilliannau iechyd a lles sy'n bwysig.
- Cefnogi pobl yn rhagweithiol drwy gydol eu hoes.
- Gyrru newid trawsnewidiol.
- Hyrwyddo gwerthoedd a diwylliant unigryw dull system gyfan Gymreig.

Y Nod Pedwarplyg

Mae'r syniad hwn o bedwar nod cydgloadol⁹ yn cael ei argymhell gan yr Adolygiad Seneddol ac mae'n gyrru datblygiad nifer o systemau iechyd a gofal cymdeithasol rhyngwladol sy'n perfformio'n dda. Bydd y nodau hyn yn cael eu defnyddio i fapio sut mae'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfrannu at gyflawni'r nodau a ddiffiniwyd yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Pedair thema'r Nod Pedwarplyg, a ddehonglwyd yng nghyd-destun Cymru, yw:

- Gwellu iechyd a lles y boblogaeth

⁸[A Healthier Wales](#)

⁹ [Cymru iachach \(gov.wales\)](#)

- Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n fwy hygyrch ac o ansawdd gwell
- Iechyd a gofal cymdeithasol gwerth uwch
- Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol brwdfrydig a chynaliadwy

Mae amcanion a gweledigaeth Penrhos yn cyd-fynd â'r themâu hyn gan eu bod yn anelu at ddarparu'r deilliannau gorau ar gyfer trigolion a chymunedau drwy iechyd a gofal cymdeithasol gwell.

Rhaglen Trawsnewid Cenedlaethol

Mae'r rhaglen hon¹⁰ yn argymhelliad amlwg gan yr Adolygiad Seneddol a bydd yn cynghori ar ac yn ymrwymo cefnogaeth gyllidol wedi'i thargedu i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gan ganolbwyntio'n benodol ar fodolau newydd penodol o iechyd a gofal cymdeithasol lleol di-dor sy'n cael eu hadnabod fel ffordd o ddarparu gwell gwerth sylweddol ac yn cyd-fynd yn gryf â blaenoriaethu cenedlaethol.

Mae gofynion prosiect Penrhos hefyd yn dibynnu'n gryf ar y blaenoriaethau cenedlaethol ar y pryd. Mae hyn yn cael ei ddangos yn yr Achos dros Newid yn nes ymlaen yn yr Achos Busnes Amlinellol a'r data amrywiol a ddefnyddiwyd i adeiladu dealltwriaeth o'r hyn sydd yn angenrheidiol i wella iechyd a gofal cymdeithasol.

Adolygiad Cenedlaethol Arolygiaeth Gofal Cymru o gartrefi gofal i bobl sy'n byw gyda dementia (2020)

*"Wrth i ni ddechrau adfer o'r pandemig, rwyf wedi myfyrio ar yr hyn rydym wedi ei ddysgu, ac un peth sy'n amlwg yw pwysigrwydd gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd yn cydweithio'n ddidrafferth i hybu llesiant pobl hyn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru"*¹¹

- Gillian Baranski, Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal Cymru

Mae'r Adolygiad Cenedlaethol¹² a ddatblygwyd ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ymysg eraill, wedi edrych ar y gofal mae pobl sy'n byw gyda dementia yn ei dderbyn mewn cartrefi gofal yng Nghymru, a sut maen nhw'n cael eu cefnogi mewn cyfnod tyngedfennol o'u bywydau. Cynhaliwyd 164 o archwiliadau ar draws ystod o gartrefi gofal gan AGC, ac fe wnaethant siarad â chomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau gofal cartref, ynghyd â phobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd, ac fe wnaethon nhw weld y gofal roeddent yn ei dderbyn. Gwnaeth AGC rai argymhellion allweddol, sef:

1. **Dewis:** mae pobl angen gwybodaeth fwy clir am leoliad a'r mathau o wasanaethau sydd ar gael. Mae angen i gomisiynwyr ymdrin â bylchau yn y ddarpariaeth gofal cartref.
2. **Hyfforddiant:** mae angen i ddarparwyr gwasanaethau gofal a chomisiynwyr sicrhau bod hyfforddiant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Dylai hyfforddiant gynnwys pobl sydd yn byw gyda dementia sy'n medru disgrifio eu profiad o ofal.
3. **Amgylchedd:** dylai darparwyr a chomisiynwyr weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod cartrefi newydd yn cael eu dylunio a'u hadeiladu i wella deilliannau a sicrhau gofal effeithiol, sy'n cael ei lywio gan dystiolaeth.
4. **Yr iaith Gymraeg:** mae'n rhaid i ddarparwyr a chomisiynwyr gasglu gwybodaeth well am sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu; mae'n rhaid i addysgwyr weithio i uwchsgilio'r gweithlu presennol.
5. **Meddyginiaeth gwrth-seicotig:** dylai pob partner mewn gofal weithio gyda'i gilydd i sicrhau gwell ymarfer o ran gweinyddu ac adolygu meddyginiaeth gwrth-seicotig.
6. **Hawliau:** mae diffyg dealltwriaeth am gapasiti meddyliol gyda'r angen i uwchsgilio staff yng nghydestun dulliau sy'n seiliedig ar hawliau i ofal a chefnogaeth.

¹⁰ [Cymru iachach \(gov.wales\)](https://gov.wales/cymru-iachach)

¹¹ [200909-National-review-of-care-homes-for-people-living-with-dementia-en.pdf \(careinspectorate.wales\)](https://careinspectorate.wales/200909-National-review-of-care-homes-for-people-living-with-dementia-en.pdf)

¹² [200909-National-review-of-care-homes-for-people-living-with-dementia-en.pdf \(careinspectorate.wales\)](https://careinspectorate.wales/200909-National-review-of-care-homes-for-people-living-with-dementia-en.pdf)

7. **Cefnogaeth amlddisgyblaethol:** mae angen gwella cefnogaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a derbyn a rhyddhau cleifion yn effeithiol o'r ysbyty¹³.

Mae dyluniad, strwythur a gweithrediadau arfaethedig Penrhos yn ymdrin â'r argymhellion uchod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan sicrhau bod gofal iechyd meddyliol a chorfforol a gofal cymdeithasol preswylwyr cartref gofal Penrhos yn cael ei ddarparu'n ddigonol ac yn ddi-dor, fel yr eiriolwyd gan Brif Arolygydd AGC.

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (2016)

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016¹⁴ yn adeiladu ar lwyddiant rheoleiddio yng Nghymru ac yn rhoi ansawdd gwasanaethau a gwelliannau wrth wraidd rheoleiddio. Mae'n cryfhau'r warchodaeth ar gyfer y rheini sydd ei hangen, gan sefydlu system rheoleiddio sy'n unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn creu system rheoleiddio sy'n canolbwyntio ar bobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'r ddeddf wedi'i thanategu gan y pum egwyddor canlynol:

- Adlewyrchu'r newidiadau a ddaw yn sgil Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Rhoi pobl yn ganolog i'w gofal a chefnogaeth
- Datblygu dull Cymreig cydlynol a chyson
- Ymdrin â methiannau'r darparwr
- Ymateb yn sydyn ac yn effeithiol i fodelau newydd o wasanaethau ac unrhyw bryderon am ansawdd gofal a chefnogaeth.

Mae amcanion Gofal Cartref Penrhos yn cyd-fynd â'r egwyddorion uchod, ac yn darparu fframwaith cryf i sicrhau bod y gofal cartref yn darparu gofal o ansawdd uchel, sy'n ddiogel ac yn rhoi'r person yn ganolog, sydd o fudd preswylwyr a theuluoedd.

Strategaeth Hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru (2023-2035)

Mae Strategaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru¹⁵ yn amlinellu'r weledigaeth i gyflawni dyfodol iachach ar gyfer pobl yng Nghymru erbyn 2035. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar gynyddu disgwyliad oes iach, gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae'n gosod y gweithrediadau i'w cymryd i gyflawni gwlad lle mae pobl yn byw bywydau iachach a hirach, ac yn adnabod y problemau gydag anghydraddoldebau sy'n ymwneud â'r argyfwng costau byw cyffredinol, cyflogau sy'n cael eu gwasgu a'r effaith iechyd cyhoeddus ar ôl y pandemig.

Y blaenoriaethau strategol yw:

- Hyrwyddo lles cymdeithasol a meddyliol
- Hyrwyddo ymddygiadau iach a gwella ecwiti iechyd
- Cefnogi datblygiad system gofal iechyd gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar
- Ymdrin ag effeithiau iechyd cyhoeddus newid hinsawdd

¹³ [200909-National-review-of-care-homes-for-people-living-with-dementia-en.pdf \(careinspectorate.wales\)](#)

¹⁴ [Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016 | Law Wales \(gov.wales\)](#)

¹⁵ [phw.nhs.wales/about-us/working-together-for-a-healthier-wales/phw-long-term-strategy-pdf/](#)

Fframwaith Cynllunio GIG Cymru (2022-2025)

Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru¹⁶ yn darparu cyfeiriad cynllunio yn y dyfodol ac arweiniad i sefydliadau iechyd yng Nghymru. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cynaliadwy tra'n addasu i'r heriau a'r newidiadau parhaus a ddaw yn sgil COVID. Wrth adeiladu ar 'Ffyniant i Bawb', y strategaeth genedlaethol traws-lywodraethol, mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru yn atgyfnerthu'r angen i sefydliadau iechyd ganolbwyntio ar y poblogaethau maent yn gyfrifol amdanynt, gyda phwyslais ar atal ac ymyraethau cynnar, gan leihau anghydraddoldebau iechyd a gweithio gyda phartneriaid ehangach i ddarparu'r gwasanaethau posib ar gyfer dinasyddion Cymru. Cynllunio integredig gyda phartneriaid sy'n darparu gofal yn agosach at gymunedau pobl ac yn osgoi cael ei derbyn i'r ysbty pan fo'n bosib, ddylai fod y norm.

Model Gofal Sylfaenol i Gymru (PCMW) (2021)

Mae'r PCMW¹⁷ yn ddull cynhwysfawr wedi'i ddylunio i drawsffurfio gofal sylfaenol a chymunedol yng Nghymru. Mae'n ddull at ofal iechyd a lles lleol hygyrch a chynaliadwy. Mae'r dull yn dod â gwasanaethau yn agosach i'r cartref ac yn hyrwyddo cydweithio aml-broffesiynol. Mae pedair blaenoriaeth strategol allweddol wedi'u hadnabod i siapio'r rhaglen waith:

- Clwstwr datblygu cyflym
- Gofal sylfaenol brys
- Seilwaith cymunedol
- Lles meddyliol

2023/24 a thu hwnt

Mae'r deilliannau'n aros heb eu newid gyda phum rhaglen waith yn cael eu cyflawni drwy weithgareddau ar y cyd ar draws y chwe llif gwaith rhaglen strategol. Y pum rhaglen yw:

- **Lles Meddyliol:** adeiladu model gofal sylfaenol o asesiad iechyd meddwl a chefnogaeth sy'n cael gwared ar y gwahanu artiffisial rhwng iechyd corfforol a meddyliol a lleihau gor-feddygoli.
- **Seilwaith Cymunedol:** datblygu timau cymdogaeth wedi'u cydlynyn'n llawn gyda'r capasiti i hyrwyddo iechyd a lles a chynnal gofal allan o'r ysbty mewn lleoliadau 'cartref'.
- **Gofal Sylfaenol Brys:** bwrw ymlaen â datblygu modelau ymateb ar yr un diwrnod syml, sydd wedi'u integreiddio'n llawn ar gyfer pob cymuned.
- **Clwstwr Datblygu Cyflym:** adeiladu ar ddealltwriaeth lleol anghenion poblogaeth, gan gryfhau'r defnydd cydlynus o'r holl adnoddau sydd ar gael a darparu dadansoddiad clir o fylchau gwasanaeth.
- **Strategaeth Gweithlu Gofal Sylfaenol:** trosi'r weledigaeth a rennir i fap clir er mwyn gyrru dyraniad adnoddau, gweithrediadau recriwtio a chadw, gan gynnwys mwy o ganolbwyntio ar les y gweithlu a hyblygrwydd gyrfa.

Mae datblygu gofal cartref Penrhos yn cyd-fynd yn uniongyrchol â gweledigaeth iechyd cyhoeddus cenedlaethol a Fframwaith Cynllunio'r GIG yn benodol o ran mwy o fynediad at ofal iechyd, mwy o gydweithio a chyfrannu at osgoi derbyniadau. Mae datblygiad cartref gofal Penrhos hefyd yn disgyn o fewn Lles Meddyliol, Seilwaith Cymunedol a Chlwstwr Datblygu Cyflym y PCMW.

Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol i Gymru (2017)

Cafodd y strategaeth genedlaethol¹⁸ "Ffyniant i Bawb" ei lansio i gychwyn yn 2017 er mwyn tywys blaenoriaethau LIC tan etholiad 2021. Er bod y strategaeth ei hun wedi'i dylunio ar gyfer y cyfnod penodol hwnnw, mae ei hegwyddorion ac amcanion yn parhau i ddylanwadu ar bolisiau a mentrau presennol, yn

¹⁶[Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2022-2025 \(gov.wales\)](#)

¹⁷[Model Gofal Sylfaenol i Gymru - Gofal Sylfaenol Un \(nhw.wales\)](#)

¹⁸[Datganiad Ysgrifenedig - Ffyniant i bawb - y strategaeth genedlaethol: Amcanion llesiant llywodraeth Cymru \(2017\) \(19 Medi 2017\) | GOV.WALES](#)

benodol mewn ardaloedd fel addasiadau hinsawdd. Mae'r strategaeth yn amlinellu dull LIC i wella lles a ffyniant pobl Cymru. Un o'r pethau maent yn canolbwyntio arno yw'r weledigaeth i gael gofal cymdeithasol cynaliadwy ac o ansawdd uchel. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, rhagwelir y bydd y cost a'r galw am ofal yn cynyddu. Mewn sector sy'n cael trafferth recriwtio a chadw gweithwyr, mae'r strategaeth yn anelu at sicrhau eu bod yn cwrdd â'r galw, a bod gofal yn fforddiadwy, tra'n gwella ansawdd drwy'r canlynol:

- Buddsoddiadau mewn model darparu gofal arloesol yn y gymuned
- Sefydlu canolfannau i gyd-leoli gwasanaethau cefnogaeth, cyngor a thriniaeth
- Mwy o ddatblygiadau tai pwrpasol
- Codi proffil a statws gweithwyr gofal cymdeithasol.

Mae'r rhain i gyd yn fecanweithiau sy'n cyd-fynd ag amcanion a gweithrediadau bwriedig cartref gofal Penrhos.

Gweledigaeth Gwyddorau Bywyd y DU (2021)

Mae Gweledigaeth Gwyddorau Bywyd y DU¹⁹ yn sefydlu strategaeth 10-mllynedd ar gyfer y sector gwyddorau bywyd er mwyn adeiladu ar lwyddiant ymateb COVID-19 a chyflymu'r ddarpariaeth o waith arloesol i gleifion. Mae'r Weledigaeth yn anelu at ddatrys rhai o broblemau gofal iechyd mwyaf ein cenhedlaeth, fel a fynegwyd yn 7 cenhadaeth gofal iechyd hanfodol y Weledigaeth y bydd y llywodraeth, diwydiant, GIG, elusennau ymchwil feddygol ac academaidd yn gweithio gyda'i gilydd i'w datrys. Y rhain yw:

1. Cynyddu cyflymder yr astudiaethau i driniaeth dementia newydd
2. Galluogi diagnosis cynnar a thriniaethau, gan gynnwys therapiau imiwn megis brechiadau canser
3. Cynnal safle'r DU wrth ddarganfod, datblygu a gweithgynhyrchu brechiadau
4. Triniaeth ac atal afiechydon cardiofasgwlaidd a'u tri ffactor risg pwysig, gan gynnwys gordewdra
5. Lleihau marwolaethau a marwoldeb o afiechyd clefyd anadlol yn y DU ac yn rhyngwladol
6. Ymdrin â'r bioleg sylfaenol o heneiddio
7. Cynyddu dealltwriaeth cyflyrau iechyd meddwl, gan gynnwys gwaith i ail-ddiffinio afiechydon a datblygu teclynau i ymdrin â nhw

Bydd y cenadaethau hyn yn canolbwyntio ar atal, rhoi diagnosis, monitro a thrin afiechyd yn gynnar, gan ddefnyddio treialon clinigol i ddatblygu cynnyrch a thriniaethau llwyddiannus yn sydyn er mwyn helpu i arbed bywydau, a chyflymu datblygu a mabwysiadu cyffuriau, diagnosteg, technoleg meddygol a theclynnau digidol newydd. Disgwylir y bydd cartref gofal Penrhos yn medru cefnogi gweledigaeth Gwyddorau Bywyd y DU, gan ddarparu gwely prawf a lleoliad ar gyfer treialon clinigol ar yr amod bod y llywodraethu a'r cymeradwyaethau priodol yn eu lle.

Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru (2021 - 2030)

Mae'r Cynllun Cyflawni Datgarboneiddio Cymru hwn²⁰ yn cynnwys y cyfnod 2021 i 2030 ac yn disgrifio sut bydd y GIG yn cwrdd â thargedau Sero Net 2050 yng Nghymru. Bydd amcanion strategol y strategaeth gynaliadwyedd yn cael eu sefydlu yng ngham nesaf y datblygiad ac yn cynnwys:

- Dull Oes Gyfan.
- Datgarboneiddio.
- Lleihau'r Teithio rhwng Safleoedd.
- Caffael Cynaliadwy.
- Integreiddio Digidol.
- Optimeiddio Llif Gwaith.
- Gweithio'n Chwim.

¹⁹ assets.publishing.service.gov.uk/media/612763b4e90e0705437230c3/life-sciences-vision-2021.pdf

²⁰ [Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru \(gov.wales\)](https://gov.wales/cynllun-cyflawni-strategol-datgarboneiddio-gig-cymru)

Mae'r prosiect hwn yn cynnig cyfle i gyfrannu at y strategaeth datgarboneiddio cenedlaethol. Mae'r datrysiad dylunio bwriedig yn ceisio darparu'r cydbwysedd gorau rhwng y buddion o leihau allyriadau carbon a'r cost cyfalaf cysylltiedig i sicrhau gwerth ar gyfer yr arian cyhoeddus a fuddsoddwyd.

Cynllun Gweithlu Nyrsio Strategol GIG CYMRU (2023)

Mae GIG Cymru yn datblygu cynllun gweithlu strategol²¹ er mwyn recriwtio, ail-hyfforddi, hyfforddi a trawsffurfio'r gweithlu nyrsio yng Nghymru ar lefel genedlaethol. Cynhaliwyd arolwg gan y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) (2022) oedd yn galluogi nyrsio i fynegi ystod o anghenion a disgwyliadau y maent wedi cydnabod yn bwysig yn y gweithle. Mae eu prif ddisgwyliadau yn cynnwys:

- Dilyniant a datblygiad gyrfa strwythuredig, clir
- Gofal a chefnogaeth gan arweinwyr a thimau
- Cael eu gwerthfawrogi
- Hyblygrwydd i wella cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd

Gyda'r canlyniadau hyn, mae GIG CYMRU wedi gosod gweithrediadau a strategaethau i'w cyflawni ar ddisgwyliadau erbyn diwedd 2024. Bydd gwella boddhad yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd gofal cleifion a ddarparwyd gan staff nyrsio mewn sefydliadau megis cartref gofal Penrhos. Fel y trafodir yn nes ymlaen yn yr Achos Strategol hwn, mae'r problemau gweithlu wedi bod yn nodwedd o heriau cyflawni gofal iechyd yng Ngwynedd ac felly mae disgwyl i'r cynllun gweithlu nyrsio fod o fudd i drefniadau staffio cartref gofal Penrhos.

Cynllun 10-mllynedd Llafur ar gyfer Iechyd a Gofal (2024)

Mae cynllun 10-mllynedd Llafur ar gyfer Iechyd a gofal cymdeithasol yn anelu at drawsffurfio'r system drwy ymdrin â materion hanfodol, gan addasu i ddemograffeg newidiol a chreu fframwaith cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae'r strategaeth yn pwysleisio llawer ar y canlynol:

1. Integreiddio Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol:

- Mae strategaeth Llafur yn rhoi pwyslais gref ar integreiddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl i system gydlynol. Y nod yw darparu profiad esmwyth i gleifion, yn enwedig y rheini sydd ag anghenion cymhleth, drwy leihau darnio a gwella'r cydlynw ar draws lleoliadau gofal.
- Wrth hyrwyddo dull 'person cyfan', mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau bod gofal wedi'i deilwra i'r unigolyn yn hytrach na chanolbwyntio ar faterion meddygol ynysig. Mae'r model holistaidd hwn o ofal wedi'i ddylunio i gau'r bwlch rhwng y cartref, gofal cymunedol a gwasanaethau'r ysbyty, sy'n benodol fuddiol i gleifion hŷn a'r rheini sydd â sawl cyflwr cronig.

2. Buddsoddi mewn Datblygu'r Gweithlu:

- Piler greiddiol o'r strategaeth yw buddsoddiad sylweddol i gynyddu'r gweithlu gofal iechyd. Mae Llafur wedi ymrwymo i recriwtio miloedd o nyrsys, meddygon teulu, gweithwyr gofal ychwanegol a staff hanfodol eraill i ymdrin â'r prinder cyfredol a chwrdd â'r galw cynyddol.
- Mae'r pwyslais nid yn unig ar gynyddu niferoedd staff, ond hefyd ar ddarparu gwell hyfforddiant a chyfleoedd datblygu gyrfa. Mae'r dull hwn yn anelu at wella boddhad swyddi, lleihau trosiant a sicrhau bod gan y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol y sgiliau angenrheidiol i gyflawni gofal tosturiol o ansawdd uchel.
- Mae gwella capasiti'r gweithlu yn cyd-fyd â'r nod ehangach o leihau pwysau ar ysbytai drwy alluogi gofal sylfaenol a gofal yn y gymuned sy'n fwy effeithiol, sy'n medru helpu i reoli cleifion yn agosach at adref a lleihau derbyniadau di-angen i'r ysbyty.

²¹[Cynllun gweithlu nyrsio strategol - HEIW \(nhs.wales\)](https://nhs.uk/healthcare-workforce-strategy)

3. Canolbwyntio ar Ofal Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar:

- Mae'r strategaeth yn blaenoriaethu gofal ataliol ac ymyrraeth gynnar, gan gydnabod bod ymdrin â materion iechyd cyn iddynt waethygu yn medru lleihau'r baich ar y system iechyd gofal yn sylweddol. Drwy ganolbwyntio ar atal, y nod yw cadw pobl yn iachach yn hirach a lleihau'r angen am ofal ysbyty aciwt.
- Mae hyn yn cynnwys cynyddu mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol, gan gefnogi mentrau iechyd meddwl a hyrwyddo mesurau iechyd cyhoeddus. Mae'r strategaeth hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd diagnosis cynnar a thriniaeth amserol ar gyfer afiechydon cronig, sy'n medru gwella deilliannau cleifion a lleihau costau gofal iechyd hirdymor.

4. Sicrhau Dyfodol y System Gofal Iechyd:

- Mae cynllun Llafur yn defnyddio dull sy'n edrych i'r dyfodol, gan gydnabod y newidiadau demograffig a'r cynnydd disgwylidiedig yn y boblogaeth hŷn. Mae'r strategaeth yn anelu at adeiladu seilwaith gofal iechyd gwydn sy'n medru addasu i'r newidiadau hyn a chwrdd ag anghenion cymhleth oedolion hŷn.
- Mae hyn yn cynnwys cynllunio ar gyfer galw cynyddol mewn gofal nyrsio a phreswyl, yn benodol wrth i'r nifer o bobl gyda chyflyrau iechyd sy'n ymwneud ag oedran, megis dementia, barhau i gynyddu. Mae'r pwyslais ar greu system ofal ymatebol a hyblyg sy'n medru ehangu gwasanaethau fel bo'r angen a darparu datrysiadau hirdymor, cynaliadwy.

Perthynas â Phenrhos:

Mae Penrhos yn cyd-fynd yn agos â strategaeth 10-mllynedd Llafur, yn enwedig yn ei ffocws ar ofal integredig ac ymdrin ag anghenion poblogaeth sy'n heneiddio. Mae Penrhos yn cefnogi strategaeth 10-mllynedd y llywodraeth Llafur newydd drwy:

1. Hyrwyddo Gofal Integredig:

- Mae Penrhos yn cynnig ystod gynhwysfawr o wasanaethau, o opsiynau byw'n annibynnol i ofal nyrsio a phreswyl. Mae'r model hwn yn ymgorffori gweledigaeth Llafur o ofal integredig, gan sicrhau bod preswylwyr yn derbyn cefnogaeth briodol wrth i'w hanghenion ddatblygu, heb fod angen trosglwyddo aflonyddgar rhwng lleoliadau gofal gwahanol.
- Mae'r prosiect yn pwysleisio ar ddull 'Step-up/step-down', gan ddarparu opsiynau gofal hyblyg sy'n medru cael eu haddasu yn seiliedig ar gyflwr yr unigolyn. Mae hyn yn cyd-fynd â nod y strategaeth o leihau derbyniadau ysbyty a hwyluso trosglwyddo mwy esmwyth yn ôl i'r gymuned.

2. Ehangu Capasiti Gweithlu yn Lleol:

- Mae datblygiad Penrhos hefyd yn helpu i ymdrin â heriau gweithlu lleol drwy greu swyddi newydd mewn gofal nyrsio a phreswyl. Mae'n cyd-fynd ag ymrwymiad Llafur i ehangu'r gweithlu gofal iechyd a darparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a dilyniant gyrfa yn y gymuned leol.
- Drwy ehangu lefelau staffio a darparu amgylchedd waith sefydlog, mae Penrhos yn anelu at ddarparu gofal o ansawdd uchel tra'n cefnogi'r strategaeth ehangach o leihau pwysau ar ysbytai drwy ofal cymunedol effeithiol.

3. Cwrdd ag Anghenion Demograffeg y Dyfodol:

- Mae dyluniad a gwasanaethau Penrhos yn ystyried y cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth hŷn, yn benodol y rheini sydd â chyflyrau iechyd hirdymor a chymhleth. Mae'r cyfleuster wedi'i arfogi i ymdrin â'r galw cynyddol am ofal arbenigol, gan gynnwys gwasanaethau dementia a chymorth a diwedd oes.
- Mae ffocws y datblygiad ar ddarparu continwwm o ofal mewn un safle yn cyd-fynd â nod Llafur o sicrhau dyfodol y system gofal iechyd. Drwy gynnig model gofal hyblyg, cynhwysol, mae Penrhos

mewn safle da i addasu i anghenion newidiol y boblogaeth leol a chyfrannu at gynaliadwyedd yr ystâd gofal iechyd ehangach.

Swyddfa Gwerth am Arian²²

Sefydlwyd y Swyddfa Gwerth am Arian ym mis Hydref 2024 dan arweiniad y Cadeirydd David Goldstone ac mae'n anelu at sicrhau bod gwariant y llywodraeth yn cyflawni'r budd mwyaf, gyda phwyslais gref ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd costau. Mae ganddo ddwy brif rôl:

- Yn gyntaf, bydd yn cefnogi'r Arolwg Gwariant aml-flwyddyn drwy gydlynu gydag adrannau'r llywodraeth i ddarparu ymyraethau gyda ffocws. Mae hyn yn cynnwys adnabod cyfleoedd i leihau gwastraff ac aneffeithlonrwydd, gan gynnal gwerthusiadau gwerth am arian mewn ardaloedd risg uchel sy'n cynnwys sawl adran, ac adolygu cynigion buddsoddi yn drylwyr i sicrhau eu bod yn darparu'r gwerth gorau posib.
- Yn ogystal, bydd y Swyddfa Gwerth am Arian yn cynnig diwygiadau systemig, dan dynnu oddi ar fewnwelediadau'r gorffennol, arferion gorau rhyngwladol a mewnbwn gan sefydliadau allanol. Nod yr argymhellion hyn yw ennyn ffocws miniog ar draws y llywodraeth ar wneud y gorau o'r effaith o bob punt sy'n cael ei gwario.

Gall dull gyrru gwerth y Swyddfa Gwerth am Arian arwain at fwy o graffu ar draws y rhaglenni neu brosiectau sy'n cael eu cyllido'n gyhoeddus, gan gynnwys Penrhos mewn meysydd megis y deilliannau a ragfynegwyd, nodau creu swyddi a'r effaith gymunedol a ragfynegwyd, gan sicrhau eu bod yn cael eu cwrdd yn effeithlon ac yn gynaliadwy. Mae'n debygol y bydd pwyslais ar ddangos gwelliannau iechyd cymunedol mesuradwy a buddion economaidd dros amser.

Cyllideb y GIG²³

Yng Nghyllideb yr Hydref 2024, cyhoeddodd Canghellor y DU, Rachel Reeves, gynnydd ariannol sylweddol ar gyfer y GIG, sef cyfanswm o £22.6 biliwn mewn gwariant dydd i ddydd dros y ddwy flynedd nesaf. Mae'r cyllid yn anelu at ehangu gwasanaethau gofal iechyd, gan alluogi 40,000 apwyntiadau dewisol ychwanegol bob wythnos, gan wella gwasanaethau meddygon teulu ac ychwanegu hybiau meddygol newydd ac offer diagnostig. Hefyd, dyrannodd Reeves £3.1 biliwn o hwb gwario cyfalaf, gan gefnogi uwchraddiadau seilwaith i wella darpariaeth ac ymdrin â'r galw cynyddol yn y GIG. Mae'r buddsoddiad hwn yn cynrychioli un o'r cynnydd ariannol mwyaf sylweddol yn y GIG yn y blynnyddoedd diweddar.

Gall y cynnydd yng nghyllid y GIG gael effaith gadarnhaol ar gyfleusterau megis cartref gofal Penrhos, gan ddibynnu ar sut mae cronfeydd yn cael eu dyrannu'n gyffredinol mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd lleol.

Effaith Cyllideb yr Hydref 2024 ar Gartrefi Gofal Awdurdod Lleol:

Cyflwynodd Cyllideb yr Hydref 2024 ychydig o fesurau pwysig fydd yn effeithio ar awdurdodau lleol, yn enwedig yng nghyd-destun adeiladu a gweithredu cartrefi gofal gyda nyrsio.

1. Mwy o Gyllid Gofal Cymdeithasol:

- Mae'r gyllideb yn cynnwys £600 miliwn mewn cyllid grant newydd sydd wedi'i ddyrannu'n benodol ar gyfer gofal cymdeithasol. Nod y cynnydd yw helpu awdurdodau lleol i reoli'r costau cynyddol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynnwys adeiladu a gweithredu cartrefi gofal.
- Bwriad yr hwb ariannol yw ymdrin â rhai o'r heriau ariannol sy'n wynebu cynghorwyr lleol, yn enwedig wrth iddynt addasu i'r galw cynyddol am wasanaethau gofal i'r henoed. Gallai ddarparu

²²[Swyddfa Gwerth am Arian - GOV.UK](#)

²³[Yr hyn y mae angen i chi ei wybod am Gyllideb yr Hydref 2024 - GOV.UK](#)

cronfa ariannol hanfodol i gefnogi buddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau cartref gofal newydd neu uwchraddio seilwaith cyfredol.

Gall y cyllid grant ychwanegol gefnogi datblygiad gofal cartref Penrhos yn uniongyrchol drwy ddarparu adnoddau ariannol ychwanegol ar gyfer costau adeiladu cychwynnol, ynghyd â chefnogaeth weithredol barhaus, gan leddfu'r pwysau cyllidebol ar awdurdodau lleol.

2. Costau Gweithredol Cynyddol oherwydd Newidiadau Yswiriant a Chyflog:

- Cyhoeddodd y gyllideb hefyd gynnydd i'r Cyflog Byw Cenedlaethol a Chyfraniadau Cyflogwr Yswiriant Gwladol. Bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol yn codi i £11.44 yr awr gan ddechrau ym mis Ebrill 2025, ac mae disgwyl i gyfraniadau cyflogwr godi, gan effeithio'n sylweddol ar gostau staffio.
- Ar gyfer cartrefi gofal, bydd y newidiadau hyn yn debygol o arwain at gostau gweithredu uwch gan fod angen iddynt gydymffurfio gyda'r rheoliadau cyflog newydd a chynnwys trethi cyflogres uwch. Tra bo' hwn yn gam cadarnhaol ar gyfer incwm gweithwyr gofal, gallai roi straen ar gyllidebau cartrefi gofal a weithredir gan awdurdodau lleol, yn benodol y rheini sy'n dibynnu ar arian cyhoeddus.

Goblygiadau ar gyfer Penrhos: Bydd angen i gartref gofal Penrhos gyfrif am y costau cynyddol hyn yn ei gynllunio ariannol, ac o bosib bydd angen addasiadau mewn cyllidebau staffio neu archwilio ffynonellau cyllido ychwanegol i dalu'r costau cyflog uwch heb beryglu ansawdd y gwasanaeth.

3. Buddsoddiad Cyfalaf ar gyfer Isadeiledd Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

- Mae'r gyllideb yn cynnwys cynnydd sylweddol mewn buddsoddiad cyfalaf ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, gyda dyraniadau ar gyfer adeiladau newydd, uwchraddio cyfleusterau ac offer modern. Gallai'r cyllid hwn fod yn gyfle allweddol i awdurdodau lleol gynllunio prosiectau gofal cartref newydd.
- Mae'r ffocws ar wariant cyfalaf yn anelu at gefnogi ehangu'r isadeiledd gofal iechyd, sy'n cynnwys cartrefi gofal preswyl a chyfleusterau nyrsio, gan ymdrin â'r angen cynyddol ar gyfer gwasanaethau gofal i'r henoed.

Goblygiadau ar gyfer Penrhos: Mae'r hwb buddsoddi cyfalaf yn rhoi cyfle i gartref gofal Penrhos gael mynediad at gyllid ar gyfer y cam adeiladu, gan gynnwys uwchraddio adeiladau, prynu gwell offer meddygol a sicrhau bod y cyfleuster yn cwrdd â safonau modern ar gyfer darparu gofal.

4. Rhyddhad Trethi Busnes a Mesurau Cefnogi Economaidd:

- Cyhoeddodd y gyllideb hefyd ryddhad trethi busnes, sy'n cynnwys rhewi'r lluosydd busnesau bach a chynnig rhyddhad ychwanegol ar gyfer eiddo manwerthu, lletygarwch a hamdden. Tra bo'r mesur hwn o fudd i fusnesau sector preifat yn bennaf, gall gefnogi awdurdodau lleol yn anuniongyrchol drwy gyfrannu at economi leol mwy sefydlog.
- Gall economi leol iachach arwain at fwy o refeniw trethi lleol, sy'n medru cael ei ail-fuddsoddi i brosiectau gofal cymdeithasol, gan gynnwys adeiladu a gweithredu cartrefi gofal.

Goblygiadau ar gyfer Penrhos: Tra bod modd i'r effaith uniongyrchol o ryddhad trethi busnes ar gartref gofal Penrhos fod yn gyfyngedig, gall y sefydlogrwydd economaidd ehangach fod o fudd i awdurdodau lleol, gyda'r posibilrwydd o ryddhau adnoddau ychwanegol i gefnogi mentrau gofal cymdeithasol.

Crynodeb ac Ystyriaethau Strategol:

Ar y cyfan, mae Cyllideb yr Hydref 2024 yn darparu cymysgedd o gyfleoedd a heriau ar gyfer cynllunio awdurdodau lleol er mwyn datblygu a gweithredu cartrefi gofal fel Penrhos. Mae'r cynnydd mewn cyllid a buddsoddiad cyfalaf yn cynnig cefnogaeth addawol ar gyfer datblygu seilwaith ond bydd angen cynllunio ariannol gofalus yn sgîl y costau gweithredu cynyddol oherwydd newidiadau yswiriant a chyflog. Bydd angen

i awdurdodau lleol drosoli pob ffrwd ariannu sydd ar gael, gan gynnwys grantiau newydd, refeniw treth cyngor a chyllid cyfalaf posib, i sicrhau darpariaeth llwyddiannus a gweithrediad cynaliadwy o brosiectau gofal cartref. Bydd y dull hollataidd hwn, sy'n cyfuno cefnogaeth gyllidebol gyda rheolaeth ariannol strategol, yn hanfodol wrth lywio tirwedd esblygol gofal cymdeithasol a chwrdd â'r galw cynyddol ar gyfer gwasanaethau gofal i'r henoed o ansawdd uchel.

1.4 Y Cyd-destun Lleol

Cynllun Cyfalaf 10-mllynedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Yn 2022, rhoddodd Llywodraeth Cymru dasg i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRh), ynghyd â'r chwe Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol arall yng Nghymru, i ddatblygu a gweithredu Cynllun Cyfalaf Strategol ar gyfer gogledd Cymru.

Mae'r Cynllun Cyfalaf Strategol yn adlewyrchu darlun 10-mllynedd o anghenion buddsoddi cyfalaf gogledd Cymru er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac mae wedi blaenoriaethu Cartref Gofal Penrhos fel un o'r Cynlluniau Cyfalaf.

Gallwch ddarllen Cynllun Cyfalaf Strategol 10-mllynedd Gogledd Cymru yma: [Final-North-Wales-Regional-Partnership-Board 10-Year-Strategic-Capital-Plan v-7.5-31-Oct-2023-SW cy.pdf](#)

Byw'n iach, Aros yn iach: Gweithio mewn Partneriaeth i Wella Iechyd a Darparu Gofal Ardderchog ar draws gogledd Cymru

Mae BIPBC yn gosod ei strategaeth²⁴ ar gyfer gogledd Cymru mewn dwy ddogfen allweddol. Y rhain yw; (1) Strategaeth 10-mllynedd ar gyfer Gofal Iechyd, Lles ac Iechyd y Dyfodol sydd â'r teitl 'Byw'n iach, Aros yn iach', a (2) Cynllun treigl tair-blynedd, ac mae amlinelliad ohonynt i'w weld isod.

Byw'n iach, Aros yn iach BIPBC (2018)

Mae'r strategaeth Byw'n iach, Aros yn iach hon wedi'i strwythuro o amgylch tair prif raglen i'w cyflawni drwy weithio mewn partneriaeth gyda phobl a sefydliadau ar draws gogledd Cymru. Y rhaglenni hyn yw:

- **Gwella Iechyd ac Anghydraddoldebau Iechyd** - canolbwyntio ar agweddau ehangach gwella iechyd ac atal a chefnogaeth ar gyfer y rheini gyda'r anghenion iechyd mwyaf yn gyntaf.
- **Gofal yn Agos i Adref** - pan fo angen cymorth neu ofal iechyd ar bobl i aros yn iach, bod cymaint â phosib ohono'n cael ei ddarparu yn agos i gartrefi'r bobl, pan fo'n ddiogel ac yn effeithiol gwneud hynny. Bydd gofal yn cael ei ddatblygu o amgylch ardaloedd lleol, fydd yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer cynllunio yn y dyfodol. Bydd ystod deg o wasanaethau yn cael eu darparu i bawb, er bod y ffordd y byddant yn cael eu darparu yn cael ei deilwra i gwrdd ag amgylchiadau neu ddaearyddiaeth lleol. Bydd rhai gwasanaethau yn cynnwys mwy nag un ardal.
- **Gofal ar gyfer Anghenion Iechyd mwy Difrifol** - pan fo anghenion iechyd yn fwy difrifol a bod pobl angen gofal mewn ysbyty, neu ofal gan dimau mwy arbenigol sy'n gweithio yn y gymuned. Mae pobl eisiau'r gofal o'r ansawdd uchaf a'r mwyaf diogel bosib, a phrofiad da. Byddant yn cael eu trin gan y person cywir, yn y lle cywir, ar yr amser cywir a chyda'r cyfleusterau cywir.

²⁴bcuhb.nhs.wales/about-us/our-plans/our-plans/bcu-hb-plan/

Cynllun Tymor Canolig Integredig BIPBC (2025-28)²⁵

Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) yn gosod ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i wella iechyd a lles pobl gogledd Cymru a darparu neu sicrhau gwasanaethau gofal iechyd effeithiol ac effeithlon ac o ansawdd uchel.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd gyda gwelliannau wedi'u nodi'n benodol mewn arweinyddiaeth, llywodraethu, diwylliant, ansawdd a diogelwch a llywodraethu ariannol a pherfformiad fel a amlinellwyd yn Adroddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru ar Lefel 5 (Mesurau Arbennig) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025.

Mae'r Bwrdd wedi gosod pum Amcan Strategol i arwain gwelliannau:

1. Adeiladu Corff Effeithiol
2. Datblygu Strategaeth a Newid Parhaol
3. Creu Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu Tosturiol
4. Gwella Ansawdd, Deilliannau a Phrofiad
5. Sefydlu Amgylchedd Effeithiol ar gyfer Dysgu

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei flaenoriaethau ar gyfer byrddau iechyd ar 20 Rhagfyr 2024. Gosododd yr uchelgais lefel-uchel ar gyfer y system iechyd a gofal, gyda phwyslais ar ansawdd, diogelwch a gwella deilliannau.

Mae pum blaenoriaeth strategol y mae'n rhaid eu darparu gan bob bwrdd iechyd a sefydliadau GIG eraill dros y tair blynedd nesaf. Maent mewn meysydd sydd wedi'u codi'n gyson drwy drafodaethau gweinidogol ac ymgysylltu â'r cyhoedd a staff:

1. Mynediad Amserol at Ofal
2. Poblogaeth Iechyd ac Atal
3. Adeiladu Capasiti Cymunedol
4. Mynediad Iechyd Meddwl
5. Iechyd Merched

Mae Blaenoriaethau'r Ysgrifennydd Cabinet, y Disgwyliadau Darparu a'r Camau Gweithredu Galluogi i gyd wedi cael eu hymgorffori yng nghynllun y Bwrdd Iechyd.

Cynllun Gweithredu a Strategaeth Datgarboneiddio (DAP) BIPBC 2022-2026

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Carbon a grŵp rhanddeiliaid ar draws y Bwrdd Iechyd i ddatblygu Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio pum-mllynedd sy'n cynnig rhestr o weithrediadau a rhaglenni gwaith er mwyn sicrhau bod cynllun gweithredu cryf a chyflawnadwy yn ei le i leihau allyriadau carbon yn unol â thargedau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru. Mae'r DAP yn ymateb i uchelgais LIC i'r sector cyhoeddus fod yn sero net o ran allyriadau carbon erbyn 2030. Cyfraniad GIG Cymru i'r targed carbon sero net yw lleihau carbon o 16% erbyn 2025 a 34% erbyn 2030.

Bydd bwrdd rhaglen datgarboneiddio yn arwain ar roi'r cynllun gweithredu ar waith a bydd yn ymgysylltu ar draws BIPBC, gan gynnwys ystadau a chyfleusterau, cynllunio, trafnidiaeth, caffael, clinigol/nyrsio a grwpiau rhanddeiliaid ehangach eraill. Bydd hyn yn sicrhau bod y gweithrediadau a'r ymrwymadau sy'n cael eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio hwn yn cael eu symud ymlaen a'u gweithredu.

²⁵[Cynllun Tair Blynedd, 2024-27 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr](#)

Strategaeth Datgarboneiddio Cyngor Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn gweithio ar eu Cynllun Datgarboneiddio fydd yn ymdrin â datgarboneiddio yn y sector gofal cymdeithasol. Bydd datblygiadau newydd a gwaith adnewyddu ar adeiladau gofal cymdeithasol yn cael eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â safonau Adeiladu Sero Net.

Cynllun Rheoli Carbon Cyngor Gwynedd 2023-2028

Cafodd y Cynllun Rheoli Carbon²⁶ ei gynhyrchu gyda chymorth yr Ymddiriedolaeth Carbon mewn ymateb i heriau newid hinsawdd. Mae gan y Cyngor rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod ein cymunedau wedi paratoi ar gyfer y dyfodol.

Mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd, mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i ddod yn garbon niwtral erbyn 2030. Cwblhawyd cam cyntaf y Cynllun Rheoli Carbon yn 2014/15 gyda gostyngiad o 26.1% mewn allyriadau. Roedd gan yr ail gam darged cadarn o leihau allyriadau o 40% erbyn 2021. Hyd yn hyn, mae Cyngor Gwynedd wedi buddsoddi bron i £8miliwn ar brosiectau rheoli carbon, gan arwain at arbediad o £4,063,000 sy'n parhau i gronni.

Fel Cynllun Cyflawni Datgarboneiddio Cymru, mae'r prosiect hwn yn cyfrannu at y strategaeth datgarboneiddio cenedlaethol.

Llechen Lân: Gwasanaethau Cymdeithasol Pobl Hŷn i'r Dyfodol²⁷

Mae'r adroddiad Llechen Lân yn amlinellu'r heriau brys system gofal cymdeithasol Gwynedd dros y ddwy ddegawd nesaf.

Mae Gwynedd yn wynebu cynnydd cyflym yn y boblogaeth sy'n heneiddio, gyda disgwyl i'r nifer o bobl dros 85 godi'n sylweddol erbyn 2043, gan yrru'r galw am ofal gymaint â 56%. Ar yr un pryd, mae'r boblogaeth oedran gweithio yn lleihau, sy'n golygu y bydd angen i fwy na 5% o bob gweithiwr lleol fod yn gweithio yn y maes gofal cymdeithasol i gwrdd ag anghenion y dyfodol. Mae gofal cymdeithasol oedolion eisoes yn cymryd chwarter cyllideb y cyngor ac yn wynebu gorwario cynyddol, gydag anghenion nad ydynt yn cael eu cwrdd yn costio miliynau bob blwyddyn. Heb fuddsoddi mewn darpariaeth cartref gofal modern, ynghyd â diwygiadau ehangach mewn technoleg, tai, a chefnogaeth sy'n seiliedig ar y gymuned, bydd y system yn dod yn anghynladwy.

1.5 Yr Achos dros Newid

Mwy o bobl yn byw yn hwy - Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwynedd (2022-2027)²⁸

Yn ôl Cyfrifiad 2021 roedd 59,597,300 o bobl yn byw yng Nghymru a Lloegr ar 21 Mawrth 2021, ar ddiwrnod y cyfrifiad diweddaraf, sef dros 3.5m yn fwy nag yn 2011 a dyma'r boblogaeth fwyaf a gofnodwyd yn y cyfrifiad. Mae cynnydd o 3.5m yn cynrychioli cynnydd o 6.3%. Yng Nghymru mae Cyfrifiad 2021 yn adrodd bod cynnydd yn y boblogaeth o 1.4% neu 44,000 o bobl i gyrraedd 3,107,500. Rhagwelir y bydd cyfran y bobl dros 75 oed yng Nghymru yn cynyddu mwy na 53% erbyn 2040. Bydd poblogaeth pobl dros 65 oed yn codi i 1 o bob 4 o bobl cyn 2050.

Cymru sydd uchaf o ran oedran canolrif, canrannau pobl 65 oed a hŷn, ac 85 oed a hŷn, a Chymhareb Dibyniaeth Henaint (OADR). Mae gan Gymru gyfran arbennig o uchel o bobl hŷn, a allai fod yn gysylltiedig â

²⁶[Microsoft Word - PO 6040286 Cyngor Gwynedd Council CMP2 Strategy Report February 2015 v2.0 Saesneg.doc \(llyw.cymru\)](#)

²⁷[Llechen Lân: gwasanaethau cymdeithasol pobol hŷn i'r dyfodol](#)

²⁸[Atodiad 1 Asesiad Anghenion Poblogaeth Oedolion Gwynedd 2022-2027.pdf](#)

natur wledig llawer o'r wlad a'r polisïau a roddwyd ar waith i gefnogi poblogaeth sy'n heneiddio. Yn 2019, profodd Cymru fewnlifiad mewnol net o 782 o bobl 65 oed a throsodd o awdurdodau lleol yn Lloegr.


Indicator	England	Wales	Scotland	Northern Ireland
Median age	40	42.5	42	38.9
% aged 65 years and over	18.4	21	19.1	16.6
% aged 85 years and over	2.5	2.7	2.3	2
OADR	286	334	289	258
Projected change in % 65 and over (2018 to 2043) (ppt)	5.7	5.4	6	7.8

Source: Office for National Statistics

Tabl 3: Tabl i ddangos y gymhariaeth rhwng mesur heneiddio ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (data yn seiliedig ar 2019)


Er bod cynnydd yn y boblogaeth wedi digwydd mewn ardaloedd cyfagos fel Sir Ddinbych a Phowys, mae Gwynedd, Ceredigion a Chonwy wedi gweld gostyngiad. Yng Ngwynedd, mae maint y boblogaeth wedi gostwng 3.7%, o oddeutu 121,900 yn 2011 i 117,400 yn 2021, gan roi Gwynedd yn 14eg allan o 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru o ran cyfanswm y boblogaeth.

Ers Cyfrifiad 1981, mae poblogaeth Gwynedd wedi bod yn heneiddio gyda'r boblogaeth o 65+ ac 85+ wedi cynyddu 156%. Er gwaethaf y gostyngiad cyffredinol diweddar ym mhoblogaeth Gwynedd, bu cynnydd o 8.6% mewn pobl 65 oed a hŷn. Yn wir, bu cynnydd o oddeutu 31% o bobl 85 oed a throsodd fel y dangosir isod.



Ffigur 3: Graff i ddangos y newid yn y boblogaeth (%) yn ôl grŵp oedran yng Ngwynedd rhwng 2011 a 2021

Yn nodedig, mae Cyfrifiad 2021 hefyd yn adrodd mai'r grŵp oedran mwyaf yng Nghymru oedd y rhai rhwng 55 a 59 oed, gweler isod.



Ffigur 4: Graff i ddangos Newidiadau yn y Boblogaeth yng Ngwynedd (2011-2021)

Bu cynnydd dramatig yn y boblogaeth oedran 65 a hŷn, gyda'r rhagolygon cenedlaethol yn dangos y bydd cynnydd fydd hyd yn oed yn fwy sylweddol yn y dyfodol.

Dosbarthiad y Boblogaeth Hŷn:

- Yn y DU, Cymru sydd â'r boblogaeth hynaf, ac yna'r Alban a Lloegr, tra bod Gogledd Iwerddon â'r boblogaeth ieuengaf.
- Mae'n rhesymol tybio mai pobl 65 oed a throsodd yw'r grŵp oedran mwyaf tebygol o fod angen gwasanaethau iechyd a gofal.

Effaith ar Awdurdodau Lleol:

- Gall poblogaeth sy'n heneiddio arwain at fwy o alw am wasanaethau gofal iechyd a chymorth cymunedol.
- Mewn cyferbyniad, mae poblogaeth iau yn debygol o greu galw uwch am ysgolion a gwasanaethau addysgol.

Wrth i boblogaethau Cymru a Gwynedd dyfu a heneiddio, mae galw cynyddol am wasanaethau triniaeth, gofal a chymorth. Mae hyn, ynghyd ag anghenion cynyddol gymhleth, yn rhoi pwysau ychwanegol ar y system iechyd a gofal cymdeithasol.

Wrth i bobl fyw'n hwy, disgwylir i gostau gofal iechyd yn y dyfodol godi'n sylweddol.

- **Disgwyliad Oes Cynyddol:** Mae mwy o bobl yn byw yn hwy yn golygu cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n byw gyda salwch difrifol. Erbyn 2040, disgwylir i tua 9.1m o bobl yn Lloegr yn unig fod yn byw gyda salwch difrifol. Yn ôl Llywodraeth Cymru a'r Sefydliad Iechyd, rhagwelir y bydd nifer yr oedolion yng Nghymru sy'n byw gyda salwch difrifol yn cynyddu o 419,000 yn 2019 i 556,000 erbyn 2040²⁹. Mae hynny'n gynydd o 137,000, neu fwy na thraean. Yn wir, mae Comisiwn Bevan yn awgrymu y gallai hyd at 1.2 miliwn o bobl yng Nghymru gael eu heffeithio gan salwch difrifol erbyn 2040, er bod

²⁹ [Amcangyfrifon o faich clefydau yn 2040](#)

y ffigur hwn yn debygol o gynnwys diffiniadau ehangach neu amlafiachedd³⁰. Felly, os bydd gogledd Cymru yn cadw ei chyfran bresennol o boblogaeth Cymru (tua 22–25%), yna erbyn 2040, gallai tua 120,000 i 140,000 o bobl yng ngogledd Cymru fod yn byw gyda salwch mawr, gan dybio cyfraddau achosion tebyg.

- **Costau Gofal Iechyd Cynyddol:** Rhagwelir y bydd cost gofal iechyd yn fyd-eang yn codi o 8.6% o GDP heddiw i 9.4% erbyn 2050. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei yrru gan yr angen am lefelau uwch o ofal oherwydd disgwyliad oes uwch ac achosion clefydau sy'n gysylltiedig ag oedran fel dementia a diabetes.
- **Effaith Economaidd:** Mae effaith economaidd poblogaeth sy'n heneiddio yn cynnwys nid yn unig costau uniongyrchol gofal iechyd ond hefyd ostyngiadau posibl mewn GDP byd-eang oherwydd blynyddoedd a gollwyd i anabledd a marwolaeth gynamserol o glefydau sy'n gysylltiedig ag oedran.
- **Straen ar Ofalwyr:** Bydd gofalwyr anffurfiol a ffurfiol yn wynebu straen cynyddol, sy'n gwaethygu'r prinder critigol o gynorthwyyr iechyd cartref a gofalwyr personol. Mae hyn yn creu'r her o recriwtio gofalwyr o ansawdd uchel sy'n arwain at fylchau yn narpariaeth gwasanaethau. Mae hon yn broblem sylweddol yng Ngwynedd ac yn enwedig yn ardal Llŷn.
- **Tai:** Mae yna oblygiad pellach i argaeledd tai a dylunio tai sy'n helpu pobl i fyw'n annibynnol am gyfnod hwy. Mae newidiadau cymdeithasol wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf sy'n golygu bod nifer y bobl a amcangyfrifir sy'n byw ar eu pennau eu hunain wedi cynyddu'n barhaus dros y degawd ddiwethaf. Heddiw, mae pobl 65 oed a hŷn yn cyfrif am 45% o'r aelwydydd unigol. Rhwng 2018 a 2043, y rhagolygon yw y bydd ardaloedd gwledig yn profi peth o'r cynnydd mwyaf yng nghyfran aelwydydd un person sy'n cynnwys person hŷn.

Negeseuon allweddol o Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gwynedd (2022-2027)

Disgwylir i nifer y bobl 65 oed a hŷn yng Ngwynedd sy'n derbyn gwasanaethau preswyl gynyddu 63% erbyn 2035.

Mae deall poblogaethau lleol a sut maen nhw'n newid yn bwysig ar gyfer cynllunio lleol, megis ym maes tai, ysgolion, trafnidiaeth, iechyd a gwasanaethau cymunedol eraill. Mae'n parhau i fod yn her gynyddol i sicrhau bod digon o ddarpariaeth a chefnogaeth ar gael i bobl barhau i fyw'n annibynnol gartref wrth i'r boblogaeth heneiddio.

Mwy o bobl â salwch Dementia ac Iechyd Meddwl

Wrth i bobl heneiddio, maent mewn perygl cynyddol o ddatblygu ystod o glefydau cronig ac anabledd, ac mae rhai organau'n dechrau gweithredu'n llai effeithiol. Felly, mae rhestr hir o gyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig fel arfer ag oedolion hŷn. Oherwydd y cynnydd a ragwelir yn nifer yr oedolion hŷn dros y degawdau nesaf, disgwylir cynnydd sylweddol hefyd yn nifer yr achosion o gyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig ag oedran fel dementia. Dementia a chlefyd Alzheimer yw prif achosion marwolaeth yng Nghymru ar hyn o bryd, sy'n duedd sy'n gyson ledled Cymru a Lloegr.

Oedran yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol, ac mae'r risg o ddatblygu dementia yn cynyddu gydag oedran. Fodd bynnag, gall fod yn anodd cael diagnosis o ddementia, yn enwedig os oes gan unigolyn symptomau ysgafn ac ar hyn o bryd mae'r diagnosis yn dibynnu ar asesiad cychwynnol ac yna cyfeirio at arbenigwr cof. Oherwydd natur y cyflwr (a'r ffaith bod symptomau'n amlwg dros amser wrth i'r cyflwr waethygu, a chyfradd diagnosis isel) mae'n anodd cyfrif yn gywir faint o bobl sy'n byw gyda'r cyflwr.


Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a Llywodraeth Cymru, dementia a chlefyd Alzheimer oedd yr ail brif achos marwolaeth yng Nghymru yn 2022, ychydig y tu ôl i glefyd isgemig y galon. Fodd bynnag, erbyn 2023, dementia a chlefyd Alzheimer oedd prif achos marwolaeth, gan gyfrif am 3,833 o farwolaethau yng Nghymru³¹. Unwaith eto, mae hyn yn cyd-fynd â'r data ledled y DU, lle roedd dementia a chlefyd Alzheimer

³⁰[Y-Sylfeini-ar-Gyfer-Model-Iechyd-a-Gofal-y-Dyfodol-yng-Nghymru-2.pdf](#)

³¹[Llesiant Cymru, 2024: Cymru iachach \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

yn cyfrif am 66,876 o farwolaethau yng Nghymru a Lloegr yn 2023 - 11.6% o'r holl farwolaethau a gofrestrwyd³².


Mae'r graff isod yn tybio y twf yn y boblogaeth sy'n byw gyda dementia yn y DU erbyn 2050.



Ffigwr 5: Graff i ddangos y Cynnydd a Amcangyfrifir mewn Achosion o Dementia yn y DU (2020-2050)

Mae'r graff uchod yn dadansoddi'r amcangyfrifon a ragwelir yn ôl grwpiau oedran. At ei gilydd, er enghraifft, mae dementia UK wedi amcangyfrif y bydd y nifer presennol â dementia ym Mhrydain yn codi o 850,000 i 1,683,000 erbyn 2039.

Gan ddefnyddio amcanestyniad tebyg neu gysylltiedig, gellir amcangyfrif bod 2,049 o unigolion â dementia yng Ngwynedd, sy'n cynrychioli 1.67% o'r boblogaeth (122,864). Mae gwaith ymchwil Daffodil Cymru yn rhagweld y bydd nifer y bobl dros 65 oed sydd â dementia yng Ngwynedd yn cynyddu o 2,018 yn 2020 i 3,085 yn 2040; cynnydd o 35% mewn ugain mlynedd³³.



Ffigwr 6: Graff sy'n dangos nifer y bobl a amcangyfrifir â dementia rhwng 2020 a 2040

³²[Marwolaethau a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

³³[CEFNOGAETH I UNIGOLION SYDD DEMENTIA YNG NGWYNEDD.pdf](#)

Cynrychiolir hyn yn y graff uchod. Gan dybio bod cyfraddau dementia (yn ôl grŵp oedran) yn aros yr un fath, yr amcanestyniad yw y bydd nifer y bobl â dementia yng Ngwynedd yn codi o 2,049 i 3,494 erbyn 2039 - cynnydd o dros 70%. Mae'r amcanestyniad hwn yn cael ei yrru gan gyfradd uniongyrchol heneiddio demograffig. Bydd y cynnydd yn nifer y bobl â dementia nid yn unig yn effeithio ar ansawdd bywyd y rhai sy'n dioddef o ddementia ond bydd hefyd yn effeithio ar ofalwyr, iechyd a gwasanaethau gofal cymunedol. Felly, mae'r Cyngor yn adolygu'r ddarpariaeth cartrefi gofal ar draws Gwynedd yn barhaus. Ar hyn o bryd, mae yna gartrefi annibynnol yng Ngwynedd sy'n darparu gofal preswyl a nyrsio arbenigol ar gyfer dementia. Yn anffodus, nid oes darpariaeth nyrsio arbenigol ar gael i unigolion sy'n byw yn ardal Llŷn sy'n golygu bod yn rhaid i unigolion symud o'u cymunedau i dderbyn gofal addas. Mae'r galw am ofal nyrsio dementia yn fwy na'r ddarpariaeth sydd ar gael yn lleol.

Ochr yn ochr â'r cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl â dementia, mae pryder cynyddol ynghylch y cynnydd mewn cyflyrau iechyd meddwl mewn oedran hŷn. Yn wir, mae dementia yn gyflwr iechyd meddwl cyffredin mewn henaint, gan ei fod yn achos sylweddol o forbidrwydd, marwolaethau a defnydd gofal iechyd. Wrth i bobl fyw'n hwy, mae nifer yr achosion o ddementia yn debygol o gynyddu. Mae'r gyfran o bobl dros 70 oed sy'n profi iselder wedi dyblu ers dechrau pandemig Covid, Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Gall oedolion hŷn gael problemau iechyd meddwl fel iselder a gorbryder, er bod y rhain yn aml yn ymddangos yn wahanol mewn oedran hŷn. Mae ffocws o'r newydd ar ymyriadau a gwasanaethau gwella iechyd meddwl i oedolion hŷn yn allweddol i wella ansawdd bywyd cyffredinol ym mlynnyddoedd olaf pobl.

Mae unigrwydd yn ffactor cynyddol sy'n effeithio ar iechyd meddwl pobl hŷn. Gall unigrwydd a theimlo'n ynysig fod yn niweidiol iawn i bobl hŷn ac mae hyn wedi gwaethygu oherwydd pandemig Covid. Yn ôl Tiwari (2013)³⁴ mae effaith unigrwydd ac ynysu cymdeithasol:

- yn gallu bod mor niweidiol ag ysmegu 15 sigarét y dydd a bod yn fwy niweidiol na gordewdra
- yn rhoi unigolion mewn perygl o ddatblygu anabledd
- yn rhoi unigolion mewn perygl o gael nam gwybyddol
- yn creu siawns uwch (64%) o ddatblygu dementia clinigol.

Awgrymodd gwaith ymchwil blaenorol gan Age Cymru yn 2017:

- bod 75,000 o bobl hŷn yng Nghymru yn teimlo'n unig, gyda bron i hanner y rhai a holwyd yn dweud mai eu teledu neu anifail anwes oedd eu prif gydymaith
- mae mwy na 75% o ferched a thraean o ddynion dros 65 oed yn byw ar eu pennau eu hunain
- Mae pobl 80 oed a throsodd yn fwy tebygol o adrodd am lefelau uchel o unigrwydd.

Dangosodd gwaith ymchwil gan Age UK yn 2019 bod:

- mwy nag 20,000 o bobl hŷn yng Nghymru yn honni eu bod wedi teimlo'n unig yn ddiweddarach yn eu bywydau
- 100,000 o bobl 65 oed a throsodd yng Nghymru yn siarad â thri neu lai o bobl maen nhw'n eu hadnabod bob wythnos
- 330,000 o bobl hŷn yng Nghymru yn honni y byddai ychydig funudau o sgwrs yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'w hwythnos.

Yn fwy diweddar, yn ôl data mewnol y Cyngor o'r Asesiad o Anghenion Lles (2021-22) mae 16% o bobl yng Ngwynedd yn teimlo'n unig sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 15% tra bod 16.6% o bobl 65+ oed yn byw ar eu pennau eu hunain yng Ngwynedd, sy'n uwch na gweddill Cymru (13.7%). Gall unigrwydd hefyd ddeillio o deimlad isel o berthyn. Ar draws gogledd Cymru, mae'r ymdeimlad isaf o berthyn i'w adrodd yng Ngwynedd (53%). Conwy sydd â'r gyfran uchaf o drigolion sy'n teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal (61%) sy'n uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (52%).

³⁴Tiwari SC. Loneliness: A disease? Indian J Psychiatry. 2013 Hydref; 55(4):320-2. doi: 10.4103/0019-5545.120536. PMID: 24459300; PMCID: PMC3890922

Cydnabyddir na fydd bob amser yn bosibl i bobl barhau i aros yn eu cartref eu hunain oherwydd yr angen am ofal mwy arbenigol. Rydym yn awyddus i sicrhau bod pobl â dementia yn derbyn gofal lleol addas i gynnal cysylltiadau â theulu a ffrindiau ac i gael gofal mewn awyrgylch a diwylliant cyfarwydd a thrwy gyfrwng iaith gyfarwydd. Law yn llaw â'r angen i gynyddu ymhellach ein cyflenwad o welyau dementia arbenigol, rhaid rhoi ystyriaeth i beth y gallwn ei wneud yn wahanol neu yn ychwanegol i alluogi pobl i barhau i fyw yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain a darparu'r ansawdd bywyd gorau posibl. Dyma lle bydd datblygiad tai arfaethedig Penrhos hefyd yn darparu gwerth drwy greu tai fforddiadwy i unigolion, gofalwyr a hyd yn oed staff gan greu ysbryd cymunedol ac o gymuned sy'n cynnig cefnogaeth, cysur a sicrwydd i breswylwyr cartref gofal Penrhos.

Negeseuon allweddol o Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gwynedd (2022-2027)

Mae diffyg cartrefi gofal gyda darpariaeth nyrsio mewn rhai ardaloedd – ac yn enwedig yn Llŷn.

Mwy o bobl ag anghenion iechyd cymhleth

Yn ôl arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2019-20:

- Dywedodd 13% o bobl 65 oed a hŷn yng Nghymru bod eu hiechyd yn ddrwg neu'n wael iawn.
- Roedd gan 71% o bobl hŷn 65 oed a throsodd salwch hirdymor.
- Mae gan 31% o bobl 65 oed a hŷn gwynion am y galon a chwynion am gylchrediad y gwaed.

Yn ôl Age Cymru (2021) amcangyfrifir bod gan 4 miliwn o oedolion hŷn yn y DU (36% o bobl 65-74 oed, a 47% o'r rhai 75+ oed) salwch hirdymor cyfyngol. Mae hyn yn cyfateb i 40% o'r holl bobl 65+ oed. Cyfran y bobl yn y DU sydd ag aml-afiachusrwydd ymhlith y rhai 65-74 oed yw 46% ac mae'r gyfran yn cynyddu i 69% ymhlith y rhai 85+ oed.

Hefyd, yn ôl Age Cymru, mae pobl hŷn yn cael eu cynrychioli'n anghymesur mewn grwpiau diffyg maeth gyda 43% o achosion o ddiffyg maeth yn y DU yn perthyn i bobl 65+ oed, sy'n cyfateb i tua 1.3 miliwn o bobl. Felly, mae oedolion hŷn sydd â diffyg maeth ddwywaith yn fwy tebygol o ymweld â'u meddyg teulu, maent yn fwy tebygol o orfod mynd i'r ysbyty, yn aros yn hwy mewn ysbytai ac yn gyffredinol mae ganddynt fwy o salwch.

Mae dementia a nam gwybyddol ysgafn yn dyblu'r risg o gwmpo ac anafiadau sy'n gysylltiedig â chwmpo gan gynnwys toriadau cluniau, toriadau'r fraich ac anafiadau i'r pen gan greu mwy o bosibilrwydd o gael eu derbyn i'r ysbyty ymhlith pobl hŷn 75 oed a hŷn. Mae cwmpadau, a'r tor-esgyrn o ganlyniad, yn broblem iechyd gyffredin a difrifol sy'n wynebu pobl hŷn. Pobl 65 oed a hŷn sydd â'r risg uchaf o gwmpo, gyda thua traean o bobl 65 oed a hŷn, a thua hanner y bobl 80 oed a hŷn, yn cwmpo o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae cwmpo yn achosi trallod, poen, anaf, colli hyder, colli annibyniaeth a marwolaeth. Mae cwmpadau ac anafiadau cysylltiedig yn fwyfwy cyffredin. Mae derbyniadau brys ar gyfer cwmpadau pobl 65 oed wedi cynyddu dros y 10 mlynedd diwethaf. Bob blwyddyn yng Nghymru mae rhwng 230,000 a 460,000 o bobl hŷn yn cwmpo. Yn ôl rhagolygon Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn 2021 bydd mwy na 700 o bobl hŷn yng Nghymru yn marw o gwmpo, gyda 7,750 pellach angen triniaeth yn yr ysbyty. Mae hefyd yn rhagweld y bydd mwy na 132,000 o bobl hŷn yng Nghymru yn cwmpo fwy nag unwaith yn eu cartrefi. Cwmpadau yw'r achos mwyaf cyffredin o farwolaethau sy'n gysylltiedig ag anafiadau mewn pobl dros 75 oed. Os nad yw'n achosi marwolaeth mae cwmpo yn achosi trallod sylweddol, poen, anaf, colli hyder a cholli annibyniaeth.

Mae darpariaeth gofal preswyl a nyrsio cartref gofal Penrhos yn cynnig cyfle gofal iechyd a monitro yn ogystal â chymorth gofal cymdeithasol sy'n lleihau'r risgiau o ddiffyg maeth, salwch a chwmpadau sydd yn ei dro er enghraifft yn lleihau'r achosion fydd yn gorfod mynd i'r ysbyty.

Negeseuon allweddol o Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gwynedd (2022-2027)

- Mae diffyg cartrefi gofal gyda darpariaeth nyrsio mewn rhai ardaloedd – ac yn enwedig yn Llŷn.
- Y rhaniad cyfartalog o Ofal Iechyd Parhaus (CHC) i Ofal Nyrsio a Ariennir (FNC) a Llwybr Cyflym/Diwedd Oes yw: 50% CHC i 40% FNC i 10% Llwybr Cyflym.

- Nid oes unrhyw leoliadau seibiant dementia ac iechyd meddwl arbenigol ar gael yng Ngwynedd, nac unrhyw unedau asesu arbenigol.
- Mae bwlch yn y gofalwyr gwrywaidd sydd ar gael i ddiwallu anghenion penodol fel yr ymddygiad heriol sy'n gysylltiedig â dementia ac iechyd meddwl.

Mynediad at Ofal

Wrth i anghenion gofal y sir newid, mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i sicrhau mynediad syml ac uniongyrchol at wasanaethau sy'n cefnogi'r hyn sy'n bwysig i bobl hŷn yng Ngwynedd. Mae dull sy'n rhoi mwy o bwyslais ar iechyd a llesiant a gwaith ataliol yn sicrhau canlyniadau gwell i unigolion, yn eu galluogi i fyw'n annibynnol cyn hired â phosib ac yn lleihau'r angen am ofal cymhleth.

Mae prinder cynyddol o welyau nyrsio ar gyfer anghenion y boblogaeth. Yn anffodus, mae prinder enbyd o leoedd mewn cartrefi nyrsio ar draws y sir, sy'n fwy aciwt yn ardal Llŷn sydd heb ddarpariaeth nyrsio o gwbl. Mae'r sector annibynnol yn darparu holl ddarpariaeth nyrsio y sir oherwydd nad yw wedi bod yn gyfreithiol bosib i Awdurdodau Lleol ddarparu gofal nyrsio. Felly, mae dibyniaeth lawn ar y farchnad allanol i ddarparu darpariaeth gofal nyrsio i'r boblogaeth. O ganlyniad, mae oedi wedi bodoli i unigolion dderbyn y gofal sydd ei angen arnynt, neu efallai y bydd unigolion yn cael eu gorfodi i fynd i leoliad arall a allai fod ymhellach i ffwrdd o'u cymuned o ddewis, gan achosi anghyfleustra enfawr yn eu bywydau. Mae'n golygu bod yn rhaid i bobl deithio i ddod o hyd i ddarpariaeth addas a chymwys, gan gynyddu'r pwysau ar dai yn yr ardaloedd y byddent yn symud iddynt. Rydym hefyd yn gwybod bod yn rhaid i rai unigolion chwilio am leoliadau y tu allan i'r sir sy'n creu anhawster o ran ymweld a chynnal cysylltiad â theuluoedd a gall fod yn anos derbyn gwasanaeth yn y Gymraeg.

Negeseuon allweddol o Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gwynedd (2022-2027)

- Mae diffyg cartrefi gofal gyda darpariaeth nyrsio mewn rhai ardaloedd – ac yn enwedig yn Llŷn.
- Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bobl symud i ardaloedd eraill, gan gynyddu'r pwysau a lleihau'r ddarpariaeth yn yr ardaloedd hynny.

Oedi cyn rhyddhau

Ar 22 Medi 2025, roedd 12 unigolyn ar y rhestr aros am welyau preswyl a nyrsio yng Ngwynedd. Mae dadansoddiad o'r 12 fel a ganlyn:

Nifer ar y rhestr aros	Math o wely
2	Nyrsio Dementia
10	Nyrsio

Tabl 4: Tabl i ddangos y Nifer ar y rhestr aros ar gyfer gwelyau preswyl a nyrsio 22/09/2025.

Mae'n ddefnyddiol nodi ar y pwynt hwn bod y data ar gyfer gwelyau nyrsio preifat yn anghyflawn.

Ar y cyfan, yr hyn sydd wedi dod i'r amlwg yw bod anhawster sylweddol i ddod o hyd i leoliadau addas ar gyfer unigolion yn y gymuned ar ôl treulio amser yn yr ysbyty. Y prif resymau dros oedi yw:

- cleifion sy'n aros am welyau preswyl neu nyrsio
- ysbyty yn methu rhyddhau cleifion i amgylchedd diogel
- dim pecyn gofal cartref addas ar waith.

Mae oedi wrth ryddhau pobl dros 65 oed ac fe all eu hannibyniaeth wedyn ddirywio neu gael ei chyfyngu gan arwain at gost sylweddol i wasanaethau cyhoeddus. Os hwylusir rhyddhau yn gynharach a darparu gofal (tymor byr) mewn cartref gofal, byddai hyn yn fuddiol iawn. Mater critigol yw nad oes cartref gofal gyda darpariaeth nyrsio yn Llŷn. Mae hyn yn creu pwysau ar gartrefi gofal sydd â nyrsio yn yr ardal neu'r ardaloedd agosaf gan fod pawb eisiau aros mor agos at eu teulu a'u cymuned â phosibl.

Mae bregusrwydd y sector cartrefi gofal yn cael ei gydnabod yn dda ledled gogledd Cymru, gyda cholli dros 150 o welyau ers mis Ionawr 2022. Er nad ydym wedi gweld cartrefi yn cau yn y gorllewin, mae'r Bwrdd Iechyd

a Chyngor Gwynedd yn cael eu herio'n gyson mewn perthynas â ffioedd cartrefi gofal i bob lefel o ofal. Gwelwyd bod nifer uchel o gleifion mewnol sydd wedi'u optimeiddio yn glinigol yn gorfod oedi yn yr ysbyty oherwydd eu bod yn aros am leoliadau cartrefi gofal. Mae hyn oherwydd bod oedi yn y gorllewin yn cyfrif am 37% o'r oedi sy'n gysylltiedig â chartrefi gofal gogledd Cymru (ciplun Awst 2025).

	Nifer y cleifion lle bu oedi	% o oedi mewn cartrefi gofal	Nifer y diwrnodau gwely a gollwyd
Ynys Môn	10	17%	451
Gwynedd	12	20%	524
Conwy	6	10%	136
Sir Ddinbych	4	7%	101
Sir y Fflint	16	27%	673
Wrecsam	11	19%	396
Cyfanswm Gogledd Cymru a %	59		2281

Tabl 5: Tabl sy'n dangos llwybrau oedi gofal yng ngogledd Cymru gan gleifion ALL yn eu man preswyllo:

Negeseuon allweddol o Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gwynedd (2022-2027)

Negeseuon allweddol o Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gwynedd (2022-2027)

- Mae oedi wrth ryddhau pobl dros 65 oed o'r ysbyty yn arwain at golli annibyniaeth ac yn costio symiau sylweddol i'r GIG.
- Os yw pobl yn cael eu rhyddhau ac yn cael gofal (tymor byr) mewn cartref preswyl neu nyrsio, yna byddai hyn yn fuddiol.

Cipolygon newydd i broblemau ac atebion Gofal Cymdeithasol:

Yn seiliedig ar Gynllun 10 mlynedd y Blaid Lafur ar gyfer lechyd a Gofal, mae cipluniau newydd i broblemau gofal cymdeithasol a'r atebion arfaethedig:

Problemau Allweddol mewn Gofal Cymdeithasol:

- Problemau Gweithlu:** Mae tua 307,000 o weithwyr gofal, sy'n ffurfio un rhan o bump o gyfanswm y gweithlu, yn cael eu cyflogi ar contractau oriau sero gyda dibyniaeth fawr ar y rhain. Mae'r gyflogaeth ansicr hon yn tanseilio sefydlogrwydd swyddi ac yn cyfrannu at gyfraddau trosiant uchel, gan effeithio'n negyddol ar ansawdd y gofal a ddarperir.
- Diffyg Hyfforddiant a Datblygiad Gyrfa:** Mae'r sector gofal cymdeithasol yn dioddef o lefel isel o hyfforddiant a mynediad cyfyngedig at brentisiaethau o ansawdd uchel. Mae hyn wedi creu gweithlu sy'n aml wedi'i danbaratoi ar gyfer cymhlethdodau gofal henoed, gan arwain at ganlyniadau is-optimaidd i ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Cyflwyno Gofal Tameidiog:** Mae'r system bresennol yn dameidiog iawn, gan fynd i'r afael â phob angen ar wahân heb fod yna ddull holistaidd. Mae hyn yn arwain at ofal anghymesur lle mae cleifion a'u teuluoedd yn aml yn gorfod ailadrodd eu hanes meddygol i sawl ddarparwr, gan achosi aneffeithlonrwydd a cholli cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar.
- Cymorth Annigonol ac Ymweliadau Byr:** Mae'r cynnydd mewn ymweliadau gofal 15 munud, wedi'i yrru gan danariannu ac arferion comisiynu gwael, wedi arwain at ofal annigonol. Mae'r ymweliadau byr hyn yn cyfyngu ar allu gweithwyr gofal i ddarparu cymorth ystyrlon, megis helpu gyda phrydau bwyd, ymolchi, neu reoli meddyginiaethau, sy'n hanfodol i gadw urddas ac ansawdd bywyd.
- Esgeuluso Mesurau Ataliol:** Mae ffocws y system ar ofal aciwt ac ysbyty wedi taflu cysgod dros yr angen am wasanaethau ataliol yn y gymuned. Mae'r esgeulustod hwn wedi cynyddu derbyniadau i'r ysbyty, yn enwedig ymhlith yr henoed, a allai fod wedi cael eu cefnogi'n effeithiol trwy ofal cymdeithasol cymunedol.

Atebion Arfaethedig:

1. **Gwahardd Contractau Oriau Sero:** Mae'r Blaid Lafur yn bwriadu dileu contractau oriau sero yn y sector gofal, gan hyrwyddo cyflogaeth sefydlog a theg. Nod y newid hwn yw gwella'r gallu i gadw staff a sicrhau ansawdd gofal mwy cyson, fydd o fudd i'r gweithlu a'r defnyddwyr gwasanaeth.
2. **Cyfleoedd Hyfforddiant a Gyrfa Gwell:** Mae'r strategaeth yn cynnwys creu prentisiaethau newydd a llwybrau datblygu gyrfa ar gyfer gweithwyr gofal. Menter allweddol yw'r ymrwymiad i hyfforddi 5,000 o weithwyr cartref newydd, gan ddarparu hyfforddiant cadarn iddynt i wella eu sgiliau a chefnogi'r galw cynyddol am ofal yn y cartref.
3. **Dull Gofal Integredig:** Mae cynllun y Blaid Lafur yn pwysleisio integreiddio gwasanaethau gofal corfforol, meddyliol a chymdeithasol mewn un system gydlynol. Nod y model gofal person cyfan hwn yw rhoi terfyn ar ddarnio gwasanaethau, lleihau aneffeithlonrwydd, a gwella canlyniadau cleifion trwy gynnig continwwm gofal di-dor.
4. **Gweithredu Gwiriadau Diogelwch a Gofal Ataliol:** Mae cyflwyno gwiriadau diogelwch ar gyfer oedolion hŷn sy'n agored i niwed yn flaenoriaeth. Bwriad y gwiriadau hyn yw nodi risgiau iechyd yn gynnar gan atal gorfod mynd i'r ysbyty heb fod angen, gan alinio â'r ffocws ehangach ar ofal ataliol a chadw pobl yn iach gartref am gyfnod hwy.
5. **Cymorth i Ofalwyr:** Mae cynllun y Blaid Lafur yn cynnwys mesurau i wella cymorth i ofalwyr teuluol di-dâl. Mae hyn yn cynnwys sicrhau mynediad at wiriadau iechyd rheolaidd, darparu un pwynt cyswllt o fewn y system ofal, a neilltuo cyllid ar gyfer seibiannau gofalwyr. Nod y camau hyn yw lliniaru'r pwysau sy'n wynebu gofalwyr teulu a gwella eu gallu i gefnogi anwyliad yn effeithiol.

Nod cynllun 10 mlynedd Llafur yw mynd i'r afael â materion systemig mewn gofal cymdeithasol trwy fuddsoddi yn y gweithlu, integreiddio gwasanaethau gofal, a blaenoriaethu mesurau ataliol. Trwy fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol hyn, mae'r strategaeth yn ceisio creu system gofal cymdeithasol fwy cynaliadwy, teg ac effeithiol sy'n diwallu anghenion y boblogaeth sy'n heneiddio tra'n lleihau'r baich ar ysbytai a chyfleusterau gofal aciwt. Mae'r dull hwn yn darparu fframwaith gynhwysfawr ar gyfer diwygio a allai wella ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau gofal cymdeithasol ledled y DU yn sylweddol.

Perchnogaeth gyhoeddus o ofal

Gyda heriau cydymffurfio gweithredol, ariannol a rheoleiddiol cynyddol, mae'r 'farchnad' cartrefi gofal lle mae darparwyr a gefnogir gan ecwiti preifat yn 'gamblo' ar gartrefi gofal yn anghynadwy. Dyma farn Canolfan Iechyd a Budd y Cyhoedd, 2019 a'r ymgyrch peidio â phreifateiddio 'We Own It - Public services for people, not profit'. Caiff y cyntaf ei ddyfynnu yn aml, mae'r olaf yn mynegi dadl gymhellol a nodir isod bod 'gofal yn perthyn i berchnogaeth gyhoeddus'.

'We Own It – Care Belongs in Public Ownership'

Yn wreiddiol, Awdurdodau Lleol oedd yn gyfrifol am ddarparu llety preswyl a gwasanaethau gofal i bobl hŷn mewn angen. Yn ystod yr 1980au a'r 1990au, trosglwyddwyd cartrefi gofal awdurdodau lleol i'r sector preifat. Fe wnaeth awdurdodau lleol gymryd y ddyletswydd o brynu gofal, yn bennaf gan fusnesau preifat oedd yn gwneud elw. Ym 1980 roedd 37,400 o leoedd mewn cartrefi gofal preswyl preifat (cyfran fach o'r cyfanswm) ond erbyn 1990 roedd nifer y lleoedd preifat wedi cynyddu i 155,600 – cynnydd o 316%. Fe wnaeth deddfwriaeth ddiweddarach (Deddf Safonau Gofal 2000 a'r Comisiwn Ansawdd Gofal a Deddf Gofal 2014) roi awdurdodau lleol yn gyfrifol am lunio'r farchnad ofal. 'Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am les trigolion, ac mae'r GIG yn codi'r darnau pan fydd pethau'n mynd o'i le - tra bod y darparwyr preifat yn blaenoriaethu eu cyfranddalwyr.'

Ym 1960, darparodd y sector preifat 10.5% o ofal preswyl, tra bod y sector cyhoeddus yn darparu 66% (a'r sector gwirfoddol 23%). Heddiw, mae'r ddarpariaeth breifat yn 83%, y sector gwirfoddol yn 13% a'r sector cyhoeddus yn 4% yn unig.

Yn ôl Canolfan Iechyd a Budd y Cyhoedd (2019) rhannodd 18 o'r 26 darparwr elw mwyaf eu busnes yn gwmni gweithredu a chwmni eiddo oedd yn galluogi i daliadau rhent gael eu gwneud gan un cwmni i brydlesu adeilad y cartref gofal gan y llall, gyda'r ddau mewn cyd-berchnogaeth. Y ddadl a wneir yma yw y gall taliadau rhent gynnwys elw cudd trwy ffioedd rhent artiffisial o uchel. Mae rhannu'r cwmni gweithredu hefyd yn helpu i gyfyngu ar atebolrwydd lle mae niwed yn digwydd a gall hyn ei gwneud hi'n haws osgoi treth. Ers 2011, mae dau brif ddarparwr cartrefi gofal,

Southern Cross a Four Seasons, a ddarparodd ofal i 45,000 o breswylwyr rhyngddynt, un ai wedi gadael y diwydiant neu wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr.

Mae adroddiadau newyddion wedi adrodd bod symiau mawr o elw yn cael eu tynnu o'r diwydiant cartrefi gofal, naill ai ar ffurf difidendau neu fel ad-daliadau benthyciadau i fuddsoddwyr. O ran pwy sy'n ennill i raddau helaeth, mae rhaglen Panorama y BBC 'Crisis in Care: Follow the Money' yn awgrymu "Dim ond un enillydd sydd yna, a'r rhain yw'r cwmnïau buddsoddi." Adroddodd ymchwiliad Panorama fod bron i draean o welyau cartrefi gofal yn eiddo i'r cwmnïau mwyaf, y mae eu buddsoddwyr yn eu gweld fel ffynhonnell incwm ac elw. Mae tri o'r grwpiau mwyaf – Four Seasons, Care UK ac HC-One – yn neu wedi bod yn eiddo i gwmnïau ecwiti preifat ac mae ganddynt 39,000 o welyau rhyngddynt. Canfu'r ymchwiliad hefyd bod 20% o'r ffioedd a dalwyd i HC-One yn mynd tuag at daliadau elw a dyled. 'Yn y cyfamser, mae preswylwyr yn ei gartrefi gofal yn derbyn gofal ofnadwy, ac mae eu teuluoedd yn dioddef'.

Gydag unigolion a theuluoedd bellach yn talu 51% (£7.7bn) o gyfanswm yr incwm blynyddol (£15.2bn) ar gyfer cartrefi gofal annibynnol, mae tryloywder ariannol yn y diwydiant cartrefi gofal bellach yn fater hawliau defnyddwyr cymaint ag y mae'n fater gwerth am arian i drethdalwyr (Canolfan Iechyd a Budd y Cyhoedd, 2019).

Ffeithiau Allweddol:

- Mae 64% o'r cyhoedd eisiau i gartrefi gofal gael eu rhedeg a hwythau mewn perchnogaeth gyhoeddus (Survation, 2020).
- Mae ansawdd y gofal mewn cartrefi gofal yn Lloegr yn wael, gydag un o bob pum cartref wedi'i raddio'n 'annigonol' neu 'angen gwella'. Mae cartrefi gofal mwy yn gysylltiedig ag ansawdd gofal gwaeth.
- Mae TUC yr Alban wedi canfod bod bron i 25% o gartrefi gofal sy'n cael eu rhedeg gan ddarparwyr mawr wedi cael o leiaf un gŵyn wedi ei chadarnhau yn eu herbyn yn 2019/20, o'i gymharu ag 16% yng ngweddill y sector preifat a 6% mewn cartrefi nad ydynt yn cael eu rhedeg er elw. Mae adnoddau staffio hefyd 20% yn waeth yn y sector preifat.
- Mae 10% o'r cyllid yn diferu o'r system trwy echdynnu elw cudd (amcangyfrif £1.5 biliwn allan o gyfanswm o £15 biliwn o gyllid). Mae'r arian hwn yn diferu trwy strwythurau corfforaethol cymhleth i daliadau difidend, rhent, llog, rheolaeth a ffioedd cyfarwyddwyr.
- Mae'r 26 darparwr mawr sy'n cyfrif am 30% o'r holl welyau yn diferu £13.35 o bob £100.
- Rhaid i o leiaf 40,000 o bobl y flwyddyn werthu eu cartrefi i dalu am ofal nyrsio. Mae tua hanner y cyllid gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol a'r GIG, tua hanner gan unigolion a'u teuluoedd.
- Rhwng 2010 a 2017/18, mae cyllid y llywodraeth i awdurdodau lleol wedi gostwng 49% mewn termau real. Mae cynghorau bellach yn gwario 38% o gyfanswm eu cyllideb ar ofal cymdeithasol.
- Mae gweithwyr gofal preifat o dan bwysau ac yn cael eu tanbrisio. Mae Skills for Care yn dweud bod y gyfradd swyddi gwag yn gyson dros 6% a throsiant yn 29%. Mae 82% o'r gweithlu yn ferched a 21% yn Ddu, Asiaidd neu o leiafrifoedd ethnig.
- Erbyn 2040, bydd bron i un o bob saith o bobl dros 75 oed. Pa fath o ddyfodol rydyn ni ei eisiau ar gyfer gwaith gofal?

Rhybuddiodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2018 na all "gofal cymdeithasol barhau fel gwasanaeth Sinderela". Mae'r Blaid Lafur eisiau cyflwyno Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn Lloegr ac mae'n cynnal adolygiad i weld sut y gellid cyflawni hyn. Dywedodd Ysgrifennydd Iechyd yr Wrthblaid, ar y pryd, Wes Streeter, "Byddwn wrth fy modd yn gweld gwasanaeth gofal cenedlaethol yn cael ei ddarparu ar yr un telerau â'r GIG, yn eiddo i'r cyhoedd, yn cael ei ariannu'n gyhoeddus, yn rhad ac am ddim ar y pwynt defnydd, ond mae'n rhaid i ni fod yn onest am raddfa'r her. Felly, ein man cychwyn yw sicrhau ein bod yn cyflawni safonau cenedlaethol ar gyfer defnyddwyr gofal a gwell cyflog ac amodau i staff sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol."

Mae'r Alban eisoes wedi ymrwymo i gyflwyno Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, ond ni fydd yn cael ei redeg gan y wladwriaeth. Mae TUC yr Alban wedi canfod 'nad yw'r Alban yn gallu fforddio gofal cymdeithasol wedi ei breifateiddio' gan ddadlau bod "darparwyr preifat mawr yn gysylltiedig â chyflogau is, mwy o gwynion am ansawdd gofal a lefelau uwch o echdynnu rhent na darparwyr gofal cyhoeddus a thrydydd sector".

'Mae gofalu am bobl yn eu cartrefi eu hunain yn swydd hynod o bwysig sy'n rhy aml yn cael ei thanbrisio. Edrych ar ôl pobl hŷn, eu helpu i ymolchi a gwisgo, glanhau a thacluso, rhoi meddyginiaeth iddynt, paratoi eu prydau, cadw cwmni iddyn nhw - efallai mai chi yw'r unig berson y byddant yn ei weld drwy'r dydd.'

Mae hyn i gyd yn cyfrannu at y ddadl dros fwy o berchnogaeth gyhoeddus o gartrefi gofal. Mae'r Ganolfan Iechyd a Budd y Cyhoedd yn argymhell bod y llywodraeth - trwy awdurdodau lleol a'r GIG - yn defnyddio cyfalaf i adeiladu cartrefi gofal newydd, cyflogi gweithwyr gofal yn uniongyrchol, a sicrhau eu bod wedi'u hyfforddi'n dda gyda thelerau ac amodau gweddus, 'gan adeiladu ar y gwaith y mae UNSAIN wedi'i wneud gyda'r Siarter Gofal Moesegol.'

Mae hyn yn wahanol i'r status quo lle mae gofal yn wasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei redeg er elw gan gymysgedd anhrefnus o ddarparwyr a sefyllfa lle mae cartrefi gofal yn cael eu hystyried fel cyfle buddsoddi – y mae'r cyhoedd yn aml yn talu amdano trwy werthu cartrefi os ydynt yn eu perchnogaeth neu os nad ydynt, gan awdurdodau lleol sy'n brin o arian. Credir bod cartrefi gofal cydfuddiannol, sy'n aml yn cael eu rhedeg gan sefydliadau dielw neu grwpiau cymunedol, fel arfer yn cynnig cyfraddau is o tua 20-30% yn llai na chartrefi gofal preifat³⁵.

Cydweithio

Fel mae'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru (2013-2023) yn amlinellu, mae angen gweithio ar y cyd a chofleidio realiti, cyfleoedd a heriau heneiddio'r boblogaeth - nodwedd barhaol o gymdeithas fodern. Her gyson yw nad yw gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu cyfuno, gyda gwasanaethau yn aml yn cael eu darparu ar wahân, ac anaml y mae'r claf yn cael ei drin yn 'gyfan'. Mae gwasanaeth fel atal cwympiadau yn cynnwys ffactorau meddygol, amgylcheddol, ymddygiadol a dynol, sy'n effeithio ar draws y GIG, gofal cymdeithasol, tai a'r amgylchedd adeiledig a'r sector gwirfoddol a chymunedol sy'n profi'r angen am ddull cydweithredol. Gofalu am bobl sy'n agored i niwed yw un o gyfrifoldebau pwysicaf Cyngor Gwynedd, ac mae mwy o bwysau ar ein gwasanaethau oherwydd newidiadau cymdeithasol sydd y tu hwnt i'n rheolaeth. Gan adeiladu ar yr achos 'perchnogaeth gyhoeddus o ofal' dros newid, mae cartref gofal Penrhos yn bodloni gofynion cydweithredol y ddarpariaeth iechyd a gofal.

1.6 Trefniadau Cyfredol

Gwynedd yw'r ail sir fwyaf yng Nghymru ond prin ei phoblogaeth, gydag arwynebedd o 979 milltir sgwâr (2,540 km²) a phoblogaeth o 117,400. Ar ôl Bangor (18,322), yr aneddiadau mwyaf yw Caernarfon (9,852), Bethesda (4,735), a Phwllheli (4,076). Y sir sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, sef 64.4%, ac fe'i hystyrir yn gadarnle i'r iaith³⁶.

Darpariaeth Gofal Preswyl a Nyrsio

Mae cyfanswm o 128 o welyau preswyl yn Ardal Llŷn ac Eifionydd ond ar ôl cau Cartref Nyrsio Penrhos ar ddechrau mis Rhagfyr 2020 nid oes darpariaeth gwelyau nyrsio yn ardal Llŷn. Mae hyn yn golygu bod rhaid i bobl deithio i ddod o hyd i ddarpariaeth addas a chymwys, gan gynyddu'r pwysau ar dai yn yr ardaloedd y byddent yn symud iddynt. Mae'n rhaid i bobl eraill chwilio am leoliadau y tu allan i'r sir sy'n creu anhawster o ran ymweld a chynnal cysylltiad â theuluoedd ac o bosibl yn ei gwneud hi'n anodd derbyn gwasanaethau yn Gymraeg.


Isod, ceir map o gartrefi gofal preswyl a chartrefi gofal presennol gyda nyrsio yn ardal Llŷn ac Eifionydd sy'n dangos bod cyfanswm o 309 o welyau ar gael. Rhaid nodi bod y gwelyau nyrsio yn ardal Eifionydd yn unig.

³⁵Costau Cartrefi Gofal a Ffioedd Cartrefi Gofal | Costau Cartrefi Nyrsio | Gorffennaf 2024 (ukcareguide.co.uk).

³⁶[Gwynedd - Wikipedia](#).

Map yn Dangos Lleoliad Cartrefi Preswyl a Nyrsio yn Llŷn

Categori ● Preswyl ● Preswyl a Nyrsio ● Preswyl/Nyrsio/EMI



Ffigur 7: Map i ddangos y Cartrefi Preswyl a Nyrsio presennol yn Llŷn ac Eifionydd

Mae'r map yn dangos nad oes gan y gwelyau yn ardal Pwllheli ddarpariaeth nyrsio. Yn wir, mae'r ddarpariaeth nyrsio agosaf ar gael o fewn radiws o 40 milltir o Benrhos. Gellir darparu 75% o ddarpariaeth breswyl Llŷn yn ardal Dwyfor, ffigur sy'n gostwng i 45.5% ar gyfer darpariaeth nyrsio. Yn y sir, gellir derbyn 58.7% o'r ddarpariaeth nyrsio yn yr ardal, felly mae'n rhaid i nifer uchel o drigolion Llŷn deithio allan o'u cartrefi i dderbyn gofal nyrsio. Mae hefyd yn debygol bod yn rhaid iddynt deithio ymhellach i gael mynediad. Gall Llŷn fodloni 75% o'r ddarpariaeth breswyl yn yr ardal, sy'n debyg i gyfartaledd y Sir o 75%.

Darpariaeth Fewnol - Galw am Ofal Dementia

Mae'r galw am ddarpariaeth dementia yn parhau i gynyddu. Mae mwy o fuddsoddiadau wedi'u gwneud i gynyddu'r cyflenwad o welyau dementia arbenigol. Mae rhestrau aros ar gyfer darpariaeth dementia yn aml mor uchel, os nad yn uwch, na rhestrau aros ar gyfer gwelyau preswyl safonol. Ym mis Ebrill 2023, ac o gofio bod y galw yn newid yn gyson, mae gan Gyngor Gwynedd 50 o unigolion ar restrau aros yn aros am wely arbenigol dementia gan y darparwr mewnol³⁷.

Mae'r galw yn cynyddu ar draws cymunedau, ac mewn perthynas â chartrefi gofal Cyngor Gwynedd mae'r newid hwn yn cael ei adlewyrchu yn y nifer uwch o breswylwyr sydd, er eu bod yn derbyn gofal preswyl safonol, bellach yn byw gyda dementia. Er nad oes angen gofal dementia arbenigol ar lawer ar hyn o bryd, mae'n debygol y bydd angen cymorth arbenigol ar gyfran uchel ar ryw adeg yn y dyfodol. Mae 50 o unigolion eraill sy'n byw gyda dementia yn derbyn gofal preswyl safonol yng nghartrefi gofal Cyngor Gwynedd.

Y prif ddefnydd o welyau dementia arbenigol yw darparu llety parhaol a chartref i breswylwyr sy'n byw gyda dementia dwys; fodd bynnag, mae'r gwelyau hyn hefyd yn cael eu defnyddio'n hyblyg i ddarparu seibiant rheolaidd i ofalwyr. Mae'r gweithgareddau a'r gefnogaeth a ddarperir yn yr unedau arbenigol hyn yn ymateb i anghenion a diddordebau preswylwyr, e.e. tasgau bywyd bob dydd, garddio, coginio, tynnu lluniau, cerddoriaeth. Mae cartrefi gofal y Cyngor i gyd yn cefnogi ac yn gofalu am breswylwyr sy'n byw gyda dementia, ond dim ond chwech o'r un ar ddeg cartref gofal preswyl a ddarperir gan Gyngor Gwynedd sy'n cynnig gofal dementia arbenigol.

³⁷[CEFNOGAETH I UNIGOLION SYDD DEMENTIA YNG NGWYNEDD.pdf](#)

Er nad yw'r cyflenwad o welyau dementia arbenigol yn cwrdd â'r galw presennol, bu cynnydd dros y pum mlynedd diwethaf sydd wedi gweld nifer gwelyau Cyngor Gwynedd yn fwy na dyblu – o 39 o welyau mewn tri chartref i 84 o welyau mewn chwe chartref gofal.

Gofal Nyrsio Dementia Arbenigol

Mae cartrefi annibynnol yng Ngwynedd sy'n darparu gofal preswyl a nyrsio arbenigol ar gyfer dementia. Yn anffodus, fel y soniwyd dro ar ôl tro, nid oes darpariaeth dementia nyrsio arbenigol ar gael i unigolion sy'n byw yn ardal Llŷn sy'n golygu bod yn rhaid i unigolion symud allan o'u cymunedau i dderbyn gofal addas. Mae'r galw am ofal nyrsio dementia yn fwy na'r ddarpariaeth sydd ar gael yn lleol. Gyda dim ond 4 cartref nyrsio dementia yn y sir ar hyn o bryd, mae hyn yn cynyddu'r pwysau ar ofalwyr, teuluoedd, ysbysai a'r nifer o unigolion sy'n gorfod symud allan o'r sir i dderbyn gofal.

Cynaliadwyedd y gweithlu – Ailgydbwyso Gofal a Chymorth (Papur Gwyn Llywodraeth Cymru)

Mae darparu gofal cymdeithasol yn llafur-ddwys iawn, ac mae bod gweithlu medrus ar gael yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu gofal o ansawdd uchel. Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol fel arfer yn heneiddio ac yn ôl rhyw, gyda'r rhan fwyaf o staff darparwyr gofal a gomisiynwyd yn ferched a dros hanner y gweithlu dros 40 oed. Fe adroddir gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (ONS) bod graddfa trosiant staff yr holl weithlu gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn 30%. Yn ogystal â throsiant uchel, mae materion cyfredol yn cynnwys cyfraddau uchel swyddi gwag, recriwtio costus a hyfforddi staff newydd, defnydd cynyddol o staff asiantaeth (drutach), yn peri trafferthion yn y sector gyda staff yn aml yn symud rhwng cyflogwyr oherwydd cymhellion ariannol neu well amodau gwaith. Nododd gwaith ymchwil ddiweddar gan sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru fod cystadleuaeth yn bodoli gyda chyflogwyr y tu allan i'r sectorau gofal cymdeithasol (e.e. manwerthu). Ystyrir bod y cyflogwyr hyn yn darparu cyflog tebyg neu well, gyda rolau â llai o gyfrifoldeb. Credwyd bod cystadleuaeth o fewn a rhwng cyflogwyr gofal cymdeithasol a'r GIG yn cyfrannu at broblemau cadw staff y gweithlu gofal cymdeithasol.

Fel rhan o'r Comisiwn Gwaith Teg, nododd adroddiad Gwaith Teg Cymru, er bod y sector yn ddiwydiant craidd sy'n cyfrannu at les unigol a chymdeithasol, ei fod yn sector sy'n arddangos nodweddion amrywiol sy'n gysylltiedig ag ansicrwydd ac amgylchedd gwaith gwael. Mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnull Fforwm Gofal Cymdeithasol yn ddiweddar sy'n ystyried y ffordd orau o wella cyflogau ac amodau cyflogaeth eraill yn y sector gofal cymdeithasol. Mae gwaith ymchwil yn dangos bod cyflog, telerau ac amodau yn cael eu hystyried fel ffactorau allweddol sy'n ymwneud â boddhad swydd, ac mae cysylltiad pwysig rhwng boddhad swydd, ansawdd gwasanaeth a chyflawni canlyniadau. Mae gwella cyflog, telerau ac amodau yn rhan bwysig o waith denu, recriwtio a chadw yn y sector.

Datgelodd canlyniadau'r cyfrifiad cyntaf a gyhoeddwyd ym mis Awst 2022 ostyngiad yn y boblogaeth oedran gweithio dros y degawd ddiwethaf. Yn 2021, roedd 64,900 o bobl 20-64 oed yn yr ardal, sy'n ffurfio 55.3% o'r holl breswylwyr arferol. Mae hyn yn ostyngiad o 68,800 (neu 56.4%) yn 2011. O'i gymharu, roedd y boblogaeth oedran gweithio yng Nghymru yn 56.5%, ac yng Nghymru a Lloegr gyda'i gilydd, roedd yn 58.4%.

Ers blynnyddoedd lawer, mae recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol wedi bod yn her sylweddol i Gyngor Gwynedd. Cyflwynwyd adroddiad ar yr anawsterau hyn i'r Pwyllgor Craffu mor gynnar â mis Mehefin 2019. Ers hynny, mae'r sefyllfa wedi gwaethygu oherwydd pandemig Covid-19, sydd wedi rhoi pwysau ychwanegol ar staff, gan arwain at fwy o drosiant.

Roedd adroddiad dilynol diweddar a gyflwynwyd i Bwyllgor Craffu Gofal Cyngor Gwynedd yn tynnu sylw at broblemau parhaus a bylchau staffio. Amlinellodd hefyd y camau sy'n cael eu cymryd gan Gyngor Gwynedd i liniaru'r effeithiau hyn a chefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol gymaint â phosibl.

Camau presennol i fynd i'r afael â heriau'r gweithlu

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal ymgyrchoedd recriwtio'n rheolaidd ac yn defnyddio dulliau amrywiol i wneud hynny. Mae'r ymgyrchoedd yn cael eu cynnal yn lleol trwy dargedu ardaloedd a threfi penodol. Ochr yn ochr â phartneriaid eraill, mae Cyngor Gwynedd yn ceisio newid y canfyddiad sy'n bodoli o ran swyddi yn y sector gofal ac yn gwneud ymdrechion i dynnu sylw at yr ystod eang o gyfleoedd sy'n bodoli, hyblygrwydd y contractau sydd ar gael a'r manteision i staff. Un agwedd arbennig y dylid ei amlygu yw'r cydweithrediad sy'n mynd rhagddo gyda phartneriaid i geisio datblygu llwybrau gyrfa ymhellach yn y maes. Penododd Cyngor Gwynedd swyddog ym mis Rhagfyr 2021 i arwain ar yr agwedd hon ac i gefnogi'r rhaglen waith o ran cynnal digwyddiadau, dulliau marchnata amrywiol, creu deunydd gwreiddiol a phwrpasol, a nodi cyfleoedd i wella prosesau gwaith. Mae cydnabyddiaeth yn genedlaethol bod prinder staff bellach wedi cyrraedd pwynt argyfwng. Yn ddiweddar, mae Cyngor Gwynedd wedi gweld ymdrechion yn cael eu gwneud yn genedlaethol megis yr ymrwymiad i gynyddu lefelau cyflog yr holl weithwyr gofal i'r Cyflog Byw Gwirioneddol o £12.60 yr awr yn ogystal â chyfraniadau ariannol un-tro. Yn fwy addawol, mae'r setliad cyflog y cytunwyd arno ym mis Hydref 2022 yn darparu £1,925 ychwanegol y flwyddyn. Nid yw cynnydd o'r fath wedi'i weld ers peth amser.

Dylid nodi bod cyflogau yn y maes hwn yn cael eu cydnabod fel mater y mae angen mynd i'r afael ag ef ar lefel Cymru a'r DU. Nid yw'r broblem hon felly yn unigryw i Wynedd, ac mae'n rhoi sicrwydd o weld y cydweithrediad parhaus sydd wedi'i fwriadu i fynd i'r afael â'r materion hyn. Wrth gwrs, mae gwahaniaethau yn y ffordd y mae awdurdodau lleol eraill yn darparu gwasanaethau gofal, gyda rhai ohonynt yn dibynnu'n bennaf ar gomisiynu'r sector annibynnol ond o drafodaethau parhaus a chydweithrediad a welwyd mae'r sefydliadau hyn i gyd yn profi anawsterau wrth recriwtio a chadw staff. Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar gynaliadwyedd y gweithlu yn tynnu sylw at y ffaith bod y sefyllfa wedi gwaethgu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n ymddangos nad yw'r sefyllfa yn debygol o wella yn fuan. Yr hyn sydd ei angen nawr, fel y dywed y papur, yw'r angen am ganllawiau cenedlaethol ac ymyrraeth genedlaethol gyda hyn.

Academi Gofal Gwynedd

Mae'r syniad o'r academi gofal yn deillio o brosiect sydd eisoes wedi'i sefydlu yn Sir Gaerfyrddin yn 2020. Mae'r academi yn cynnig llwybr penodol, proffesiynol i unigolion sy'n dymuno dilyn gyrfa ym myd lechyd a Gofal.

Bydd yr academi yn rhoi cipolwg i unigolion ar yrfaoedd o fewn y sectorau hyn ac yn rhoi cyfle iddynt i ennill cymwysterau. Bydd unigolion ar y cynllun yn gwybod eu bod yn anelu at lwybr gyrfa penodol tra'n llenwi bylchau o fewn gwasanaethau yn y cyfamser ac yn cael cyfle i feithrin arbenigedd.

Ein bwriad gyda'r academi felly yw:

- meddwl am ddyfodol ein gwasanaethau presennol,
- cynyddu'r gallu i gefnogi datblygiadau newydd,
- meithrin arbenigedd ar gyfer swyddi allweddol ar hyd y daith.

Trwy gynnig cyfleoedd a llwybrau datblygu pendant i drigolion Gwynedd byddwn yn ymrwymo mwy o bobl i fod eisiau byw a gweithio yn y Sir yn y tymor hir a llenwi swyddi gwag yn y tymor byr.

Y bwriad yw sefydlu swydd cydlynedd newydd yr Academi Gofal drwy gyllidebau Cyngor Gwynedd fel man cychwyn, gyda'r bwriad o ymestyn hyn i gynnwys cydlynedd o BIPBC drwy waith datblygu cynllun Penrhos i gynyddu nifer yr hyfforddeion wrth i gynllun Penrhos ddatblygu ymhellach.

Mae'r academi yn agored i unigolion o bob oedran, cyfle i ennill cyflog wrth ddysgu yn ogystal â derbyn cefnogaeth, hyfforddiant ac arweiniad ar hyd y ffordd. Ar ddiwedd y cynllun gall unigolion ddilyn gyrfaedd fel:

- Gweithiwr Cymdeithasol
- Therapydd Galwedigaethol
- Rheolwr Cartref neu
- Nyrs.

Mae hefyd yn bosibl i unigolion sydd eisoes yn gweithio yn y maes wneud cais am y cyfleoedd datblygu. Yn yr un modd, os yw unigolion ar unrhyw adeg yn hapus â'u swydd ar hyd y daith, bydd gwahanol bwyntiau ymadael yn yr academi fydd yn galluogi unigolion i wneud cais am y swydd berthnasol.

Wrth gwblhau eu lleoliadau ar hyd y daith ac i gyrraedd y nod uchod, gall unigolion ennill profiadau a llenwi bylchau yng ngwasanaethau Penrhos. Gall unigolion fanteisio ar gyfleoedd i gael profiadau amrywiol yn gweithio gyda'i gilydd gan blethu byd lechyd a Gofal.

Wrth annog cydweithio rhwng lechyd a Gofal, bydd yr academi yn helpu i ddatblygu rolau newydd, mwy integredig a fydd yn gweithio ar draws y ddau sector. Bydd yn bosibl datblygu mwy o rolau fel 'Ymarferwyr Uwch' a fydd yn cyfuno gwaith, yn rhoi mwy o gyfleoedd i unigolion ddysgu oddi wrth ei gilydd ac i ennill profiadau amrywiol. Bydd yr academi felly yn helpu gyda chanfyddiadau sydd gan unigolion am weithio yn y maes ac yn rhoi statws mwy proffesiynol i'r math hwn o waith.

Gobeithiwn y bydd yr academi yn:

- helpu gyda chynllunio'r gweithlu,
- helpu wrth feddwl am gynlluniau newydd er enghraifft Penrhos ac anghenion ar gyfer y dyfodol,
- lleihau'r angen am ddefnyddio gweithwyr asiantaeth,
- lleihau trosiant staff o fewn sefydliadau wrth i staff weld mwy o gyfleoedd ar gyfer llwybr gyrfa.

Gweler Atodiad A am drosolwg o'r broses.

Y Weledigaeth

Mae cymuned Llŷn yn adnabyddus am ei gwytnwch a'i hannibyniaeth sy'n deillio o'i daearyddiaeth a'i natur wledig. Yn draddodiadol, mae plant sy'n oedolion wedi ymgartrefu gerllaw yn agos at aelodau o'r teulu sydd wedi golygu bod teuluoedd wedi gallu camu i mewn i ddarparu gofal i berthnasau hŷn pan fo angen. Fodd bynnag, mae'r duedd hon yn dod yn llai cyffredin ac mae hyn yn debygol o barhau. Rhaid ystyried yr elfen hon o angen sydd heb ei diwallu yn y model gwasanaeth arfaethedig cyffredinol.

Mae cydnabyddiaeth eang hefyd bod hen fodel gofal Cartref Pwylaidd Penrhos yn arloesol o ran cadw ei breswylwyr yn iach, yn annibynnol ac allan o ofal. Bydd yn bwysig cynnal ac adeiladu ar yr ethos hwn o ran dyfodol y safle.

Model Gwasanaeth Arfaethedig

Dylai'r model gwasanaeth arfaethedig:

- Gynnal yr ethos cyffredinol presennol - hyrwyddo ansawdd bywyd, cynnal annibyniaeth, sicrhau lles a lleihau dibyniaeth ar ofal dibynnol cyn hired â phosibl.
- Darparu sbectwm o ofal â chymorth - o'r ddibyniaeth leiaf (fflatiau byw'n annibynnol) i fyw â chymorth, gyda mynediad at ofal camu i fyny/i lawr, i ofal preswyl ac i nyrsio a gofal diwedd oes, fel y'i pennir gan anghenion unigolyn.
- Hyrwyddo ymagwedd hyblyg at y gwelyau cartrefi gofal sy'n caniatáu hyblygrwydd o ran defnyddio gwelyau lle bo hynny'n bosibl i ddiwallu anghenion lleol yn hytrach na darpariaeth gwelyau sefydlog/dynodedig, a thrwy hynny wella effeithlonrwydd.
- Cydnabod pwysigrwydd perthynas (contractio) â'r trydydd sector i sicrhau gwytnwch gwasanaeth (er enghraifft lechyd Meddwl).
- Sicrhau dyfodol y ddarpariaeth gyffredinol gan ystyried rhagamcanion poblogaeth pobl hŷn a'r angen presennol sydd heb ei ddiwallu.

Mae dau fodel neu drefniadau cytundebol posib i Gyngor Gwynedd a BIPBC i ddarparu'r cartref preswyl a nyrsio sector cyhoeddus newydd arfaethedig ym Mhenrhos. Mae'r rhain wedi cael eu hasesu'n ddiweddar gan Gyngor Sir Gaerfyrddin a Bwrdd lechyd Prifysgol Hywel Dda fel rhan o brosiect tebyg iawn yng Nghaerfyrddin i adeiladu a rhedeg cartref preswyl a nyrsio 60 gwely. Y ddau fodel yw:

- Opsiwn 1 – Model Partneriaeth: Y Bwrdd Iechyd sy'n cyflogi staff nyrsio, gan gadw trosolwg clinigol. Byddai'r Awdurdod Lleol yn rhedeg y cartref ei hun ac yn gorff cofrestredig gydag AGC.

Byddai hyn yn golygu y byddai BIPBC yn cyllido'r staff nyrsio (o gyllidebau CHC presennol) a byddai'r Awdurdod Lleol yn codi tâl ar wahân ar y BIPBC am y gorbenion sy'n gysylltiedig â rhedeg cartref gofal – byddai hyn yn cynrychioli trefniant cytundebol newydd.

- Opsiwn 2 – Model Dirprwyedig: Yr Awdurdod Lleol yn cyflogi'r holl staff, gan gynnwys staff nyrsio, o dan gyfrifoldeb dirprwyedig gan y Bwrdd Iechyd. Byddai'r Awdurdod Lleol yn rhedeg y cartref ac yn gorff cofrestredig gydag AGC. O dan y trefniant hwn, byddai'r trefniant cytundebol yn aros yr un fath ag y mae ar hyn o bryd gyda BIPBC yn comisiynu lleoliad gofal gan yr ALI trwy gyllidebau CHC/FNC.

Nid yw'r ABA ar hyn o bryd yn mynegi'r trefniadau contractio terfynol yn y dyfodol gan y bydd hyn yn dibynnu ar ba fodel sy'n cael ei ddilyn. Bydd y trefniadau hyn yn cael eu diffinio ar y cam ABLI.

Gweledigaeth Penrhos

Gweledigaeth y prosiect yw ar gyfer math newydd o bartneriaeth, sy'n meddwl yn wahanol am y berthynas rhwng gwasanaethau a'r gymuned ar gyfer y dyfodol.

Felly, gellir crynhoi gweledigaeth Penrhos fel a ganlyn:

Gweledigaeth Penrhos

Darparu cartrefi a gwasanaethau iechyd a gofal o ansawdd uchel, ynni-effeithlon (carbon isel) mewn lleoliad pentref unigryw. Bydd y datblygiad yn darparu cartrefi i bobl ag anghenion gofal/gofal iechyd yn bennaf, ond hefyd darparu rhywfaint o dai fforddiadwy i bobl leol ac i bobl a fydd yn gweithio ar y safle yn y sector gofal ac iechyd.

Gellir gweld rhagor o gefndir a'r cynllun meistr ar gyfer y safle yn Atodiad B. ([PENRHOS-POLISH-VILLAGE_WELSH.pdf](#))

Amcanion Buddsoddi

Yr Amcanion Buddsoddi yw'r canlyniadau 'wedi'u targedu' ar gyfer y prosiect. Maent yn adlewyrchu'r rhesymeg dros y prosiect ac fe'u defnyddir fel rhan o'r broses arfarnu opsiynau a ddisgrifir yn yr Achos Economaidd. Mae'r amcanion buddsoddi ar gyfer yr achos busnes hwn wedi'u nodi yn y ffigur isod. Yr amcanion hyn:

- Cefnogi cyflawni ein gweledigaeth
- Ymateb i'r Achos dros Newid a ddisgrifir uchod.

Amcanion Buddsoddi	
Un	Cefnogi ail gydbwyso'r farchnad gofal preswyl a nyrsio (yn ardal Gwynedd) trwy gynyddu darpariaeth y sector cyhoeddus/nid-er-elw sy'n ymdrechu i ddarparu canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bawb.
Dau	Cefnogi darparu gofal yn nes at adref drwy wella hygyrchedd gofal preswyl a nyrsio, gan sicrhau y darperir gwasanaethau drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.
Tri	Cefnogi cynnaladwyedd darpariaeth gofal preswyl a nyrsio lleol drwy ddull partneriaeth gydweithredol fydd yn integreiddio â'r sbectrwm ehangach o ofal a ddarperir o safle Penrhos.

Pedwar	Datblygu model gweithlu arloesol fydd yn cefnogi'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yn yr hirdymor gyda'r posibilrwydd o'i ddefnyddio mewn ardaloedd eraill yng ngogledd Cymru a chreu cyfleoedd hyfforddi drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.
Pump	Sicrhau llety sydd wedi'i ddylunio'n benodol i ddiwallu anghenion gofal unigolion nawr ac i'r dyfodol.
Chwech	Darparu gwerth am arian wrth wneud defnydd effeithlon o adnoddau a darparu llety sy'n sensitif yn amgylcheddol ac yn garbon niwtral.

Tabl 6: Amcanion Buddsoddi

5.10 Cwmpas a Gofynion Gwasanaeth Allweddol

Gofynion gwasanaeth allweddol yw'r newidiadau gwasanaeth sydd eu hangen i fodloni'r amcanion buddsoddi a ddisgrifir uchod. Mae'r gofynion gwasanaeth allweddol ar gyfer yr achos busnes hwn wedi'u crynhoi yn y tabl isod.

	Gofyniad	Dymunol
Gofynion preswyl	- Cyfleuster dementia preswyl 32 gwely 2 uned breswyl, pob un ag 16 gwely ensuite 2 x Le bwyta i Breswylwyr; Lolfeydd; a Cheginau a Lle tawel - Ystafell Ymolchi â Chymorth ym mhob uned	- Lle i ddarparu ar gyfer anghenion y dyfodol. - Ystyriaeth wedi ei roi i reoli Covid, hawdd ynysu preswylwyr, cylchrediad aer, rheoli haint. - Ystyriaeth i ofynion RNIB. - Cyfleusterau toiledau yn agos at ardaloedd cymunedol ond hefyd yn breifat. - Agosrwydd at orsaf nyrsio a staffio. - Ystyriaeth i gynllunio ar gyfer preswylwyr dementia, cyferbyniad lliw ac ati - Gofod allanol diogel a diddordeb gweledol.
Gofynion gofal nyrsio	- Cyfleuster nyrsio 24 gwely gyda 8 gwely o'r rhain ar gyfer gofal nyrsio dementia 2 uned breswyl, un gydag 16 gwely ac un arall gydag 8 gwely ensuite 2 x Le bwyta i Breswylwyr; Lolfeydd; a Cheginau a Lle tawel - Ystafell Ymolchi â Chymorth ym mhob uned	- Dull dylunio modiwlaid i ganiatáu ystafelloedd sengl ac i fod yn gyfeillgar i ddementia. - Gardd bwrpasol ar gyfer cerdded ac ymarfer corff/cadw'n heini. - Dyluniad cadarn ar gyfer ymddygiad heriol. - Dyluniad generig i fodloni gofynion ar gyfer Dementia a Nyrsio Cyffredinol i sicrhau hyblygrwydd wrth ei ddefnyddio, ac i addasu i newidiadau i'r galw a'r anghenion.
Cyffredinol / Cymunedol	- Ystafelloedd newid staff a chawodydd 1 ystafell wely cysgu i mewn gydag ensuite 2 ystafell staff 1 gofod swyddfa'r Tîm Adnoddau Cymunedol 1 dderbynfa ac ardal ymwelwyr (gan gynnwys gofod swyddfa) 2 ystafell therapi 3 x Ystafell gyfarfod - Ystafell Hyfforddi Trin â Llaw - Prif Olchdy - Bwyty / Man cyfarfod cymunedol i'w ddefnyddio gan y safle ehangach 1 x Ystafell Wely ensuite teuluol - Salon gwallt ac ystafelloedd therapi i'w defnyddio gan y safle ehangach	

Tabl 7: Gofynion Allweddol y Gwasanaeth

Dylai'r safle gael ei ddylunio gyda hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol dan sylw.

Nid yw'r prosiect Cartref Gofal yn mynd i'r afael â'r angen am dai gofal ychwanegol, fflat camu i lawr a thai gwarchod, gwelyau Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA) gan eu bod yn rhan o Brosiect ehangach Ailddatblygu Penrhos. Byddai gwelyau diwedd oes yn cael eu cynnig yn ysbyty Bryn Beryl.

1.7 Buddion

Gydag amcanion buddsoddi wedi'u hamlinellu uchod, mae'r rhan ganlynol yn cyflwyno'r manteision sydd i'w disgwyl o'r ymgymeriad hwn yn ogystal ag amlinelliad o risgiau a dibyniaethau, a'u rheoli.

Dadansoddiad Buddion Blaenorol

Roedd dadansoddiad buddion blaenorol sydd wedi eu cynnwys yn y ABS yn cyd-fynd ag amcanion buddsoddi a meini prawf buddion fel y dangosir isod:

Amcanion Buddsoddi		Prif Feini Prawf Buddion
1	Cefnogi ailgydbwyso'r farchnad gofal preswyl a nyrsio (yn ardal Gwynedd) trwy gynyddu darpariaeth y sector cyhoeddus/nid-er-elw sy'n ymdrechu i ddarparu canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bawb.	- Sicrhau darpariaeth nyrsio 'nid-er-elw' yn yr ardal leol - Darpariaeth iechyd a gofal hyblyg ("gofal di-dor" fel y'i disgrifir yn strategaeth "Cymru Iachach") - Gall dull partneriaeth rhwng Iechyd a'r Awdurdod Lleol greu mwy o gyfleoedd ar gyfer defnyddio dulliau integredig
2	Cefnogi darparu gofal yn nes at adref drwy wella hygyrchedd gofal preswyl a nyrsio, gan sicrhau y darperir gwasanaethau drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.	Nid oes neb yn aros yn hwy na sydd angen mewn gofal cleifion preswyl aciwt. Nid oes "oedi wrth drosglwyddo gofal" oherwydd diffyg darpariaeth gwelyau preswyl a nyrsio
3	Cefnogi cynnaladwyedd darpariaeth gofal preswyl a nyrsio lleol drwy ddull partneriaeth gydweithredol fydd yn integreiddio â'r sbectrwm ehangach o ofal a ddarperir o safle Penrhos.	Mae cael darpariaeth sector cyhoeddus mewn nyrsio yn rhoi'r gallu i ddeall yn fwy craff beth sy'n achosi pwysau o fewn y sector ac yn galluogi cefnogi darparwyr llai
4	Datblygu model gweithlu arloesol fydd yn cefnogi'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yn yr hirdymor gyda'r posibilrwydd o'i ddefnyddio mewn ardaloedd eraill yng ngogledd Cymru a chreu cyfleoedd hyfforddi drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.	- Cyfleoedd cyflogaeth i breswylwyr - Rhoi'r sgiliau cywir i drigolion gael cyflogaeth hirdymor - Cynnig cyflogaeth ystyrlon a hirdymor i'r sawl sy'n gadael ysgol ac sydd eisiau datblygu gyrfa - Cefnogi a thyfu'r gadwyn gyflenwi leol - Y gallu i hyfforddi a datblygu staff meddygol, nyrsio a gofal trwy gyfleoedd seondiad a chysgodi yn y ddarpariaeth - Bydd sgiliau iaith Gymraeg yr holl staff yn rhan o bolisi recriwtio'r Cyngor
5	Sicrhau llety sydd wedi'i ddylunio'n benodol i ddiwallu anghenion gofal unigolion nawr ac i'r dyfodol.	- Darparu amgylchedd gwaith cyfoes a hygyrch sy'n cymell gwahanol grwpiau o weithwyr proffesiynol i gydweithio - Yn darparu gweledigaeth amlwg i integreiddio gwasanaeth - Cyfraniad positif at yr agenda datgarboneiddio/sero net; llety sy'n diwallu argymhellion adeiladu cyfredol (e.e. HBN/DDA/awyru/atal heintiau) - Yn cwrdd â dyheadau BREEAM

Tabl 8: Dadansoddiad o'r Buddion

Dull adnabod buddion

Ers dadansoddiad buddion ABS mae gwaith pellach wedi'i wneud.

Er mwyn diffinio'r sbectrwm llawn o fuddion y gellir eu cyflawni drwy ddarparu cartref gofal Penrhos, cynhaliwyd gweithdy buddion yn flaenorol oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd, BIPBC a ClwydAlyn. Roedd gan y gweithdy yr amcanion canlynol:

1. Amlinellu dull Gleeds o ddatblygu buddion prosiect Penrhos
2. Cynnig iteriad cyntaf o fanteision prosiect Penrhos ar gyfer adolygiad a dilysu cychwynnol
3. I argymhell gweithgareddau rheoli buddion pellach

Arweiniwyd y gweithdy gan y dull isod a gellir gweld rhagor o fanylion ynghylch y dull yn Atodiad C::

Gweithgaredd Gweithdy Buddion

Gweithgaredd Siart Fflip 1: Adolygu Gyrwyr Strategol Trwy nodyn post-it, ysgrifennwch neu awgrymu: • Beth sydd ar goll? • Beth ddylai fod yno? O ran PESTLE: • Gyrwyr gwleidyddol • Gyrwyr economaidd • Gyrwyr cymdeithasol • Gyrwyr technolegol • Gyrwyr cyfreithiol • Gyrwyr amgylcheddol	Gweithgaredd Siart Fflip 2: Adolygu Galluedd a Chyflawniadau Trwy nodyn post-it, ysgrifennwch neu awgrymu: • Beth sydd angen ei gywiro/addasu?	Gweithgaredd Siart Fflip 3: Adolygu Manteision. A yw'r manteision (a'r canlyniadau) yn y map rhesymeg yn ddilys? Trwy nodyn post-it, ysgrifennwch neu awgrymu: • Beth sydd angen ei Ychwanegu; Cywiro; neu Tynnu? • Beth yw'r targedau gwella bras, posibl? O ran y canlynol: • Datblygu economaidd (gan gynnwys tai, gwerth tir a swyddi) • Cynhyrchu incwm • Arbed cost • Enw da • Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd • Effeithlonrwydd • Amser ac Ansawdd Gofal • Diogelwch cleifion a phrofiad cleifion • Cydymffurfio â diogelwch a safonau • Iechyd a Lles (y cyhoedd a staff) • Canlyniadau iechyd • System iechyd (A&E, Meddygon Teulu, Derbyniadau, DToC, CHC) • Sgiliau, recriwtio a chadw • Diwylliant Cymreig • Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd Ystyriwch y buddiolwr h.y. os yw budd-dal yn ... • Budd uniongyrchol gan y sector cyhoeddus i'r sefydliad • Budd anuniongyrchol y sector cyhoeddus i'r sefydliad • Budd ehangach i gyhoedd y DU	Gweithgaredd Siart Fflip 4: Adolygu buddsoddiad ac amcanion strategol. Trwy nodyn post-it, ysgrifennwch neu awgrymu: • A yw'r rhain yn SMART? • Beth sydd angen ei Ychwanegu; Cywiro; neu Tynnu?
---	---	--	---

Figur 8: Delwedd sy'n dangos gweithgarwch gweithdy buddion

Cyn y gweithdy ac yn seiliedig ar adolygiad manwl o'r achosion strategol ac economaidd a amlinellir yn y ABS, sganio amgylcheddol, ac adolygiad o fentrau blaenorol eraill, nodwyd set ragarweiniol a diwygiedig o fanteision sy'n deillio o'r opsiwn a ffefrir. Arweiniwyd y gweithdy buddion gan y set ragarweiniol a diwygiedig hon o fuddion. Gyda chefnogaeth cyfraniadau gweithredol ar draws y bwrdd, dilysodd y gweithdy y buddion arfaethedig a darparu adborth a ymgorfforwyd mewn map buddion diwygiedig.

Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at fuddion allweddol y prosiect.

Budd	Enghreiffitiau
Economi	Mwy o swyddi adeiladu Gwerth cymdeithasol adeiladu Cyflogaeth newydd a mwy mewn cartrefi gofal/nyrsio Twf yr economi leol
Cynaliadwyedd	Arbedion CO2 - Effeithlonrwydd ynni a llai o garbon
Ansawdd	Gwella ansawdd gofal/bodddhad cleifion
Recriwtio a chadw	Gwella cadw recriwtio staff Mwy o sgiliau iechyd a gofal
Profiad	Mwy o foddhad staff Mwy o foddhad cleifion Mwy o foddhad y cyhoedd
Canlyniadau	Gwell Canlyniadau Iechyd
Effeithlonrwydd	Llai o dderbyniadau i'r ysbyty Llai o aildderbyniadau Lleihau hyd yr arhosiad Lleihau nifer y bobl oedd heb fynychu apwyntiadau (DNA) Llai o oedi gyda llwybr gofal
Gwerth am arian	Llai o gostau ALI a CHC Cynhyrchu incwm/refeniw
Diwylliant	Treftadaeth ddiwylliannol well

Ffigur 9: Y map buddion diwygiedig

Cofrestr Buddion

Mae alinio buddion ac amcanion buddsoddi yn rhoi sicrwydd bod yr amcanion yn uniongyrchol berthnasol i'r achos busnes ac i'r broses benderfynu. Yn unol ag arfer gorau buddion, datblygwyd Cofrestr Buddion i gofrestru'r holl fuddion arfaethedig. Mae'r gofrestr hon yn Atodiad D.

1.8 Risgiau, Cyfyngiadau a Dibyniaeth

Risgiau

Cynhaliwyd gweithdy risg gyda thîm y prosiect a chynghorwyr allanol i asesu'r lefelau risg sy'n gysylltiedig â'r trefniadau presennol. Mae'r risgiau sy'n cael yr effaith fwyaf fel a ddangosir isod:

Y Sefyllfa Gyfredol	
RAYG	Cyfrif
Coch	5
Ambr	9
Melyn	14
Gwyrdd	10

Ôl-wrthfesurau	
RAYG	Cyfrif
Coch	1
Ambr	4
Melyn	16
Gwyrdd	17

Nifer	Os...	Wedyn ..	L	I	Sgôr	Perchennog y Risg	Prif Gategori	Cost Risg	Gwrthfesuau Risg	L	I	Sgôr	Math o Gost	Cost wedi'i addasu
1	Nid yw'n bosibl recriwtio y nifer neu ansawdd gofynnol o staff gofal	Ni fydd cyfleuster newydd yn gallu gweithredu ar gapasiti llawn / bydd yn talu cost staff asiantaeth	4	5	20	Cyngor	Gweithredol	£ 150,000	Mae is-grŵp gweithlu ar hyn o bryd yn archwilio i fodel posibl. Mae cyfle yma i sicrhau bod lleoliadau nyrsio mewn cartrefi gofal yn dod yn rhan fwy annatod o yrfa staff nyrsio. Efallai y bydd yr Academi Iechyd a Gofal yn mynd rhywfaint o ffordd i liniaru'r mater hwn, waeth beth yw'r lliniaru sydd wedi'i adeiladu yn y cynllun trwy ddeialog â rhanddeiliaid ehangach i ddarparu rhybudd cynnar o unrhyw ddiffygion.	2	2	4	Refeniw (PA)	£ 120,000
2	Nid yw'n bosibl recriwtio'r nifer neu ansawdd gofynnol o staff nyrsio	Ni fydd cyfleuster newydd yn gallu gweithredu ar gapasiti llawn / bydd yn talu cost staff asiantaeth	4	5	20	BIPBC	Gweithredol	£ 200,000	Mae'r Cyngor wedi asesu argaeledd staff nyrsio, ochr yn ochr â chyfathrebu â darparwyr hyfforddiant, sy'n cynyddu yn unol â'r sicrwydd cynyddol y bydd y cynllun yn mynd rhagddo.	2	2	4	Refeniw (PA)	£ 160,000
3	Ni ellir sicrhau cyllid cyfalaf gan yr IRCF	Ni fydd y cynllun yn mynd rhagddo	3	5	15	Cyngor	Ariannol	£ 500,000	Mae prosiect Penrhos wedi'i gynnwys ar y rhestr Gofynion Cyllid Rhanbarthol, ac mae sgysiau rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at yr angen.	2	5	10	Refeniw (PA)	£ 300,000
4	Ni ellir cyflawni datrysiad cost niwtral (o ran refeniw), neu sicrhau cyllid amgen	Ni fydd fforddiadwyedd yn cael ei brofi yng nghyfnod ABLI, ac ni fydd y cynllun yn symud ymlaen	3	5	15	Wedi'i rannu	Ariannol	£ 500,000	Cytundeb Penawdau Telerau i'w gwblhau ar ôl cyflwyno'r ABA.	2	4	8	Cyfalaf (Cyfanswm)	£ 300,000
5	bydd oedi cyn derbyn cyllid gan LIC	Bydd costau staff cyfalaf a chwyddiant ar gyfer gwaith a gwasanaethau yn cynyddu'r gost alldro gyffredinol ar gyfer y cynllun	3	4	12	Cyngor	Ariannol	£ 1,000,000	Cynnal gweithgor traws-rhanddeiliaid i sicrhau, lle bo hynny'n bosibl, broses ABLI lyfn a chadarn. Trefnu sesiwn ymgysylltu cyn ABLI gyda'r aseswyr i gytuno ar gymesuredd yr achos busnes ac osgoi, lle bo hynny'n bosibl, eglurhad a cheisiadau am ragor o wybodaeth.	2	3	6	Cyfalaf (Cyfanswm)	£ 480,000
6	Rhoddir lefel is o gyllid na'r hyn y gofynnir amdano yn y ceisiadau grant	Efallai y bydd angen benthyca ar y cynllun i fod yn fforddiadwy	3	5	15	Cyngor	Ariannol	£ 4,000,000	Cynnal llinellau cyfathrebu â Llywodraeth Cymru.	3	5	15	Cyfalaf (Cyfanswm)	£ 2,400,000
7	Mae partïon sy'n gweinyddu'r cyllid grant yn oedi'r dyfarniad	Efallai y bydd prisiau tendro o'r farchnad yn cael eu colli	3	4	12	Wedi'i rannu	Cyflawni	£ 350,000	Cymryd ymagwedd ragweithiol gyda Llywodraeth Cymru cyn drafftio'r ABLI i sicrhau dull 'dim byd annisgwyl', gan leihau'r angen am eglurhad a cheisiadau posibl am wybodaeth ychwanegol.	2	4	8	Cyfalaf (Cyfanswm)	£ 168,000

Tabl 9: Tabl sy'n dangos y risgiau sydd â'r effaith fwyaf a'r effeithiau cysylltiedig

Mae pob risg yn cael ei werthuso yn seiliedig ar ddau brif ffactor: pa mor debygol yw o ddigwydd (tebygolrwydd) a pha mor arwyddocaol fyddai'r canlyniadau pe bai'n digwydd (effaith bosibl). Trwy luosi'r ddau werth hyn, cawn y sgôr amlygiad risg, sy'n rhoi mesur i ni o ba mor ddifrifol neu fygythiol yw'r risg i'r prosiect.

Mae'r system sgôr RAYG, cod lliw (Coch, Ambr, Melyn a Gwyrdd) yn cynrychioli difrifoldeb pob risg. Mae sgôr coch yn nodi'r lefel uchaf o amlygiad risg, sy'n golygu bod y tebygolrwydd a'r effaith yn sylweddol ac yn gofyn am sylw neu liniaru ar unwaith. Mae Ambr yn cynrychioli amlygiad risg cymedrol, sy'n awgrymu er nad yw'r risg mor ddifrifol, mae angen monitro a rheoli o hyd. Mae melyn yn cynrychioli amlygiad risg hyd yn oed yn fwy cymedrol o'i gymharu ag Ambr. Mae gwyrdd yn nodi'r lefel isaf o amlygiad risg, sy'n golygu bod y risg naill ai'n annhebygol o ddigwydd neu byddai'n cael effaith leiaf pe bai'n digwydd, felly mae angen llai o ffocws ar unwaith. Mae system RAYG yn helpu i flaenoriaethu risgiau, gan ei gwneud yn glir pa rai sydd angen gweithredu ar frys (Coch) yn erbyn y rhai sy'n llai pryderus (Gwyrdd). Gellir gweld cofrestr risg wedi'i gostio'n llawn yn Atodiad E.

Themâu allweddol

Mae'r themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r asesiad risg yn canolbwyntio ar staffio a chyllid. Yn gyntaf, mae pwyslais clir ar yr anhawster o recriwtio digon o staff gofal a nyrsio cymwysedig. Gallai hyn arwain at y cartref nyrsio ddim yn gweithredu ar gapasiti llawn, a fedrai ei orfodi i ddibynnu ar staff asiantaeth costus i lenwi bylchau. Byddai'r ddibyniaeth hon yn cynyddu costau gweithredu ac yn lleihau effeithlonrwydd. Ffordd o liniaru hyn fyddai asesu argaeledd y gweithlu lleol ac ymgysylltu â mentrau'r Academi Gofal, sy'n anelu at ddatblygu a chynnal gweithlu gofal medrus trwy hyfforddiant wedi'i dargedu a chymorth recriwtio, a thrwy hynny liniaru'r pryderon staffio hyn.

Thema bwysig arall yw dibyniaeth y prosiect ar gyllid cyfalaf. Mae sicrhau'r cyllid hwn yn hanfodol a heb ddangos ei hyfywedd, gellid stopio'r prosiect cyn cymeradwyo'r achos busnes yn derfynol. Er mwyn rheoli hyn, mae cynllunio ariannol cryf yn hanfodol wrth ddarparu byffer yn erbyn diffygion cyllid posibl ac i gadw'r prosiect ar y trywydd iawn.

Mae oedi mewn ariannu neu gynydd mewn chwyddiant yn cyflwyno risgiau ychwanegol gan fod cost staffio a gwasanaethau ar gontract yn debygol o godi, gan wneud y prosiect yn llai fforddiadwy. Byddai oedi ddim yn unig yn effeithio ar amseriad y prosiect ond hefyd yn cynyddu costau gan efallai fygwth ei ddichonoldeb. Gall paratoi cynlluniau wrth gefn i ddellio gyda chwyddiant ac ymgysylltu gyda chyrff ariannu yn gynnar fod o gymorth i liniaru yr heriau ariannol yma.

Cyfyngiadau

Bydd rhaid sicrhau os oes unrhyw newid nad yw'r gweithgareddau gweithredol yn cael eu peryglu. Mae natur y sefydliadau a'u gallu i gynnal gweithrediadau o'r pwysigrwydd pennaf o ran ei dargedau perfformiad sydd yn y pendraw yn golygu y cyhoedd mae'n ei wasanaethu. Bydd rhaid i ddyluniad a chyflwyno cynlluniau yn raddol yn yr achos busnes hwn gael eu datblygu drwy gynnal y parhad busnes a bydd hyn yn sylfaenol.

Mae'r cyfyngiadau a dybiwyd wedi eu hadolygu, ac mae'r canlynol wedi eu hadnabod, ynghyd â'r camau gweithredu lliniarol.

Cyfyngiadau	Camau Lliniaru
Cyllid	Parhau'r ddeialog gyda phartneriaid.
Tueddiad Optimistiaeth	Mae'r cyfyngiad hwn yn cael ei liniaru gan gadw'n agos at ddatblygu achosion busnes y Trysorlys, a chanllawiau Rhagfarn Optimistiaeth. Ymdrinnir â hyn yn fanwl yn yr Achos Economaidd isod.
Caniatâd Cynllunio	Lefelau uchel o bartneriaeth ac ymgysylltu â'r holl rhanddeiliaid a'r cyhoedd.
Cyfyngiadau Lleoliad a Safle	Ymgysylltu â'r holl randdeiliaid mor effeithiol â phosibl gan sicrhau bod disgwyliadau'n cael eu rheoli'n effeithiol.
Rheoleiddiol a Chyfreithiol	Cydymffurfio â rheoliadau amrywiol, gan gynnwys iechyd a diogelwch, deddfau amgylcheddol ac ati.
Prynu Partner	Aliniad gweithredol â strategaethau a pholisïau partner presennol, gan gynnwys amcanion strategol allweddol a chynlluniau datblygu yn y dyfodol.

Tabl 10: Cyfyngiadau

Dibyniaethau

Fel rhan o weithgaredd Prosiect a nodi cyfyngiadau posibl, mae set o ddibyniaethau allweddol hefyd wedi'u dal a'u hystyried, yn unol â'r tabl canlynol:

Dibyniaethau Allweddol	Rheolaeth
Cydweithredu Traws-sector	Mae angen i bartneriaid gydweithio, i leihau tarfu ar barhad busnes.
Cydymffurfiaeth Reoleiddiol	Cadw at reoliadau sy'n ymwneud ag adeiladu, gan gynnwys cyfreithiau amgylcheddol, iechyd a diogelwch, a chadwraeth treftadaeth.
Rheoli Prosiect	Rheoli prosiect effeithiol i oruchwyllo'r broses gyfan, gan sicrhau bod amserlenni a chyllidebau yn cael eu cadw.
Mesurau Diogelwch	Cynnal diogelwch gwybodaeth a seilwaith sensitif.

Tabl 11: Dibyniaethau

1.9 Casgliad yr Achos Strategol

Mae'r uchod yn dangos perthnasedd strategol a phwysigrwydd hanfodol cartref gofal Penrhos sy'n cefnogi ymdrechion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i fynd i'r afael ag ystod eang o heriau economaidd-gymdeithasol tra'n cyflawni ystod o fuddion iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cefnogi ymdrechion cyffredinol Llywodraeth Cymru a'r bartneriaeth iechyd a gofal cymdeithasol i wella iechyd a lles i drigolion Gwynedd. Fel y dangosir uchod, mae'r risgiau'n sylweddol yn y tymor byr ac er mwyn lliniaru'r materion hysbys yn y dyfodol mae angen camau adferol.

Yr Achos Economaidd

2. Yr Achos Economaidd

2.1 Cyflwyniad

Mae'r Achos Economaidd yn adnabod ac yn gwerthuso costau a buddion y cynllun i bennu ei Werth am Arian cyffredinol. Mae'n ystyried y costau sy'n gysylltiedig â datblygu a darparu cartref nyrsio a gofal preswyl newydd Penrhos a'r manteision a briodolir i hyn. Mae'r Achos Economaidd yn gyffredinol yn dangos bod y buddsoddiad o'r sector cyhoeddus yn datgloi buddion y cynllun sy'n fwy na'r costau cysylltiedig.

2.1.1 Methiant y Farchnad

Fe wnaeth ymchwil a gyhoeddwyd gan ymgynghorwyr eiddo, Christie & Co ym mis Gorffennaf 2024³⁸ dynnu sylw at raddfa'r diffyg gwelyau mewn cartrefi gofal yng ngogledd Cymru. Adroddwyd bod 40 o gartrefi gofal henoed yng Nghymru wedi cau rhwng 2020 a 2023 a dim ond pedwar wedi agor.

Rhwng 2020 a 2024, datblygwyd 604 o welyau EMC (Capasiti Marchnad Effeithiol/Wedi'u Sicrhau ar gyfer y Dyfodol) yng Nghymru, naill ai drwy gofrestrïadau newydd neu adnewyddu cyfleusterau presennol – dyma gynnydd o ddim ond 5% mewn pedair blynedd. Mewn cymhariaeth, cynyddodd y galw 20% sy'n golygu, o 2024, bod y galw cyffredinol am welyau yng Nghymru tua 21,155 tra mai dim ond cyflenwad o thua 12,501 o welyau EMC sydd ar gael – dim ond 59% o'r galw sydd ei angen.

Wrth ddadansoddi ceisiadau cynllunio presennol, erbyn 2029 rhagwelir y bydd y cyflenwad o welyau EMC yng Nghymru yn cynyddu 1,049. Fodd bynnag, mae hyn ochr yn ochr â chynnydd a ragwelir yn y galw o 3,627 o welyau³⁹. O ystyried y diffyg cofrestrïadau newydd yn y wlad, mae'r tangyflenwad hwn yn debygol o ehangu hyd yn oed ymhellach. Felly, ni fydd ehangu a chofrestrïadau newydd yn digwydd ar gyfradd a all ddisodli'r dirywiad, gan arwain yn y pen draw at ddiffyg cyflenwad gwelyau wedi'i sicrhau ar gyfer y dyfodol mewn poblogaeth sy'n heneiddio. Erbyn 2034, mae Christie & Co yn rhagweld y bydd cyfanswm tangyflenwad o 1,672 o welyau EMC yng ngogledd Cymru.

Yng Ngwynedd yn benodol, mae prinder enbyd o leoedd cartrefi nyrsio ar draws y sir, ac sy'n fwy aciwt yn ardal Llŷn heb ddarpariaeth o gwbl. Yn gyfrannol, mae mwy o bobl o Llŷn yn gorfod teithio ymhellach i ffwrdd o gartref ac i gael y gofal nyrsio cywir.

Fel yr adroddwyd yn y Sefydliad Iechyd, Chwefror 2021⁴⁰, yn y GIG mae'r rhan fwyaf o ofal yn rhad ac am ddim, wedi'i ariannu gan y wladwriaeth ac, fel arfer, yn cael ei ddarparu gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Ar y llaw arall, mae gofal cymdeithasol oedolion yn gymysgedd llawer mwy cymhleth o ofal a ariennir gan y wladwriaeth a gofal a ariennir yn breifat, a ddarperir gan filoedd o wahanol sefydliadau, y rhan fwyaf ohonynt yn fusnesau annibynnol, am brisiau a bennir gan rymoedd y farchnad leol a'r cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol.

Pe bai'r farchnad gofal cymdeithasol i oedolion yn gweithio'n dda, fel y mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) wedi esbonio yn achos cartrefi gofal, byddai'n cyd-fynd â'r cyflenwad a'r galw, a byddai pobl yn gwneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â sut mae eu hanghenion gofal yn cael eu diwallu. Byddai'r rhai sy'n gweithio yn y sector yn cael eu digolledu'n briodol am eu sgiliau, byddai'r diwydiant yn gynaliadwy yn ariannol, byddai darparwyr yn dod yn fwy effeithlon a byddai buddsoddiad yn y sector yn parhau. Fodd bynnag, daeth y CMA i'r casgliad bod problemau eang yn y farchnad cartrefi gofal.

³⁸<https://www.christie.com/news-resources/publications/wales-healthcare-market-insight-2024/>

³⁹<https://www.christie.com/news-resources/publications/wales-healthcare-market-insight-2024/>

⁴⁰<https://www.health.org.uk/news-and-comment/blogs/why-the-market-matters-in-adult-ABSIal-care-and-what-we-can-do-about-it>

I grynhoi, ar hyn o bryd mae tanddarpariaeth o leoedd cartrefi nyrsio yng Ngwynedd, sy'n waeth mewn rhai rhannau o'r sir, sef Llŷn. Fel comisiynwyr, mae'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy ddod yn ddarparwyr cartref gofal gyda nyrsio. Fel comisiynwyr, mae'r partneriaid yn bwriadu ymyrryd lle nad yw'r farchnad wedi darparu datrysiad.

2.2 Ffactorau Llwyddiant Hanfodol

Cyn adnabod yr opsiynau posib sydd ar gael i gyflawni'r amcanion buddsoddi, mae'n bwysig sefydlu'r Ffactorau Llwyddiant Hanfodol (FFLIH) y bydd yr opsiynau'n cael eu hasesu yn eu herbyn. Fe wnaeth gweithdy rhwng partneriaid y prosiect adnabod y FFLIH isod:

Ffactor Llwyddiant Hanfodol	Disgrifiad
Addasrwydd strategol ac anghenion busnes	Yn bodloni amcanion gwariant y cytunwyd arnynt, anghenion busnes cysylltiedig a gofynion gwasanaeth. Yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol lleol a chenedlaethol.
Gwerth am Arian Posib	Gwneud y gorau o werth cyhoeddus (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol) o ran costau, buddion, effeithlonrwydd a risgiau posib.
Cyflawnadwyedd posib	Gallu partneriaeth Cyngor Gwynedd/BIPBC i ddarparu'r gwasanaethau a'r cyflawniadau angenrheidiol.
Capasiti a gallu'r cyflenwyr	Gallu'r bartneriaeth i arloesi, addasu, cyflwyno, cefnogi a rheoli'r lefel ofynnol o newid, gan gynnwys rheoli risgiau cysylltiedig. Gallu'r bartneriaeth i ddatblygu gweithio blaengar a chydweithredol ymhellach o fewn ac ar draws ffiniau.
Fforddiadwyedd posib	Gallu'r bartneriaeth i ariannu'r lefel ofynnol o wariant - sef y canlyniadau referniw sy'n gysylltiedig â'r model buddsoddi a darparu gwasanaethau arfaethedig.

Tabl 12 - Ffactorau Llwyddiant Hanfodol

2.3 Asesiad Opsiynau

Mae darpariaeth cartrefi gofal lleol, cynaliadwy ac o ansawdd yn rhan hanfodol o unrhyw system iechyd a gofal. Heb ddarpariaethau o'r fath, ni fydd unigolion yn gallu sicrhau'r iechyd a'r lles gorau posibl, a bydd y system iechyd a gofal yn ei chyfanrwydd yn aneffeithlon ac yn aneffeithiol wrth gyflawni canlyniadau iechyd y boblogaeth ehangach.

Mae cyfanswm o 128 o welyau preswyl yn Ardal Llŷn ac Eifionydd ond ar ôl cau Cartref Nyrsio Penrhos ar ddechrau mis Rhagfyr 2020 nid oes darpariaeth o welyau nyrsio yn ardal Llŷn.

Mae hyn yn golygu bod rhaid i bobl deithio i ddod o hyd i ddarpariaeth addas a chymwys, gan gynyddu'r pwysau ar dai yn yr ardaloedd maent yn symud iddynt. Mae'n rhaid i rai unigolion hefyd chwilio am leoliadau y tu allan i'r sir sy'n creu anhawster o ran ymweld a chynnal cysylltiad â theuluoedd a gall fod yn anoddach derbyn gwasanaeth yn Gymraeg.

Ar y sail hon, mae sawl opsiwn wedi cael eu hystyried gan yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r diffyg darpariaeth gofal preswyl a nyrsio yn ardal Llŷn. Yn natblygiad cychwynnol y ABS, llywiodd cyfres o weithdai partner y rhestr hir, a gafodd ei yrru gan y broses Hidlo Fframwaith Opsiynau Strategol yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF.

Nodwyd y rhestr hir o opsiynau i gyflawni'r amcanion buddsoddi fel a ganlyn:

Opsiwn	Disgrifiad
1	Busnes fel arfer. Diffyg darpariaeth lleol yn parhau
2	Comisiynu pob gwely gan ddarparwr preifat
3	Ail-bwrpasu ysbytai cymunedol i ddarparu llety gofal nyrsio addas
4	Gofal cartref 24/7 ar gyfer darpariaeth nyrsio a phreswyl. Dim gwelyau preswyl newydd yn cael eu darparu.
5	Dull cyflawni partner sengl. Darparwr ALI yn unig neu ddarparwr Bwrdd Iechyd yn unig.
6	Partneriaeth rhwng ALI a'r Bwrdd Iechyd – adnewyddu cartref gofal presennol Penrhos
7	Partneriaeth rhwng ALI a'r Bwrdd Iechyd – cyfleuster gofal a chartref nyrsio newydd ym Mhenrhos

Tabl 13 - Rhestr Hir o Opsiynau

Aseswyd pob un o'r opsiynau yn erbyn y ffactorau llwyddiant hanfodol. Aseswyd y rhestr hir opsiynau yn erbyn y pum ffactor llwyddiant hanfodol fel a ganlyn:

	Addasrwydd strategol / anghenion busnes	Gwerth am arian posibl	Cyflawnadwy edd posib	Capasiti / gallu'r cyflenwyr	Fforddiadwyedd posib	Wedi mynd ymlaen
Opsiwn 1: Busnes fel arfer						Er mwyn cymharu
Opsiwn 2: Comisiynu pob gwely gan ddarparwr preifat						Naddo
Opsiwn 3: Ail-bwrpasu ysbytai cymunedol						Naddo
Opsiwn 4: Gofal cartref 24/7 ar gyfer darpariaeth nyrsio a phreswyl						Naddo
Opsiwn 5: Darparwr ALI yn unig, darparwr BI yn unig neu ALI, BI, darparwr preifat yn unig						Naddo
Opsiwn 6: Partneriaeth gyda'r ALI a'r BI – adnewyddu cartref gofal presennol Penrhos						Do
Opsiwn 7: Partneriaeth gyda'r ALI a'r BI – cyfleuster cartref gofal a nyrsio newydd ym Mhenrhos						Do

Tabl 14 - Opsiynau Rhestr Hir a aseswyd yn erbyn Ffactorau Llwyddiant Hanfodol

Disgrifir y rhesymeg y tu ôl i'r graddfeydd hyn isod:

Opsiwn	Rhesymeg
Opsiwn 1: Busnes fel arfer	Nid yw'n bodloni gofynion gwasanaeth nac yn darparu buddion cysylltiedig. Cost uchel yn gysylltiedig â defnyddio darpariaeth breifat y tu allan i'r ardal lleol. Wedi'i ddiystyried ond wedi'i ystyried yn yr arfarniad economaidd er mwyn cymharu yn erbyn achos busnes.
Opsiwn 2: Comisiynu pob gwely gan ddarparwr preifat	Nid oes darpariaeth nyrsio breifat ar gael ar hyn o bryd yn ardal Llŷn. Mae tystiolaeth hyd yma yn dangos nad yw'r sector preifat yn debygol o fynd i mewn i'r farchnad yn lleol. Nid yw'n bodloni gofynion gwasanaeth ac felly mae'n cael ei ddiystyried.
Opsiwn 3: Ail-bwrpasu Ysbytai Cymunedol	Byddai'n rhaid ailbwrpasu safle Bryn Beryl i sicrhau gofal yn agosach at adref. Byddai hyn yn debygol o effeithio ar wasanaethau ysbytai eraill, gan effeithio ar y system iechyd a gofal ehangach. Diystyrir yr opsiwn.
Opsiwn 4: Gofal cartref 24/7 ar gyfer darpariaeth nyrsio a phreswyl	Mae argaeledd gweithlu yn yr ardal i ateb y galw yn rhwystro sylweddol i lwyddiant yr opsiwn hwn. Oherwydd y diffyg gwelyau cartrefi nyrsio, mae'r opsiwn hwn yn cynrychioli risg o bobl ag anghenion uchel yn byw ar eu pennau eu hunain. Diystyrir yr opsiwn.

Opsiwn 5: Darparwr ALI yn unig, darparwr BI yn unig	Ni all unrhyw bartner ddarparu gofal nyrsio heb bartneriaeth y Bwrdd Iechyd. Ni fyddai dull un partner yn cyflawni'r amcanion buddsoddi o ddiwallu'r bylchau yn y farchnad a nodwyd yn yr achos strategol. Ni all y Bwrdd Iechyd weithredu cartref gofal ar ei ben ei hun, oherwydd anallu'r Bwrdd Iechyd i godi tâl ar breswylwyr am wasanaethau gofal. Diystyrir yr opsiwn.
Opsiwn 6: Partneriaeth gyda'r ALI a'r BI – adnewyddu cartref gofal presennol Penrhos	Mae gan Gyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gytundeb partneriaeth yn ei le i ddarparu lleoliadau cartrefi nyrsio o fewn y sir ac i sefydlu model gofal arloesol, di-dor ac effeithiol i ddiwallu anghenion trigolion Gwynedd yn y dyfodol. Mae angen partneriaeth i alluogi'r sector cyhoeddus i ddarparu gofal nyrsio hyblyg ac ymatebol. Nid yw darparu gofal nyrsio hyblyg ac ymatebol wedi'i deilwra i anghenion pobl leol yn bosib heb y bartneriaeth hon rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd. Ni fyddai nifer yr ystafelloedd y gellid eu lletya trwy adnewyddu yn bodloni gofynion lleol ac ystyrir bod costau adnewyddu yn ormodol ac ni fyddent yn cynrychioli gwerth am arian. Aed â hwn ymlaen i'r arfarniad economaidd at ddibenion cymhariaeth.
Opsiwn 7: Partneriaeth gyda'r ALI a'r BI – cyfleuster cartref gofal a nyrsio newydd ym Mhenrhos	Mae gan Gyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gytundeb partneriaeth yn ei le i ddarparu lleoliadau cartrefi nyrsio o fewn y sir ac i sefydlu model gofal arloesol, di-dor ac effeithiol i ddiwallu anghenion trigolion Gwynedd yn y dyfodol. Mae angen partneriaeth i alluogi'r sector cyhoeddus i ddarparu gofal nyrsio hyblyg ac ymatebol. Nid yw darparu gofal nyrsio hyblyg ac ymatebol wedi'i deilwra i anghenion pobl leol yn bosib heb y bartneriaeth hon rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd. Yr opsiwn a ffafrir yw cyflawni hyn trwy gyfleuster newydd, addas i'r diben gyda'r gallu i fodloni gofynion yr ecosystem gofal iechyd lleol. Aed â hwn ymlaen.

Tabl 15 - Y rhesymeg y tu ôl i'r asesiad

2.3.1 Opsiynau i'w gwerthuso

Yn seiliedig ar y dadansoddiad uchod, yr opsiynau a werthuswyd trwy'r asesiad economaidd felly yw:

- **Opsiwn 1: Busnes fel Arfer**
- **Opsiwn 6: Partneriaeth gydag ALI a BI – adnewyddu cartref gofal presennol Penrhos (Gwneud yr Isafswm)**
- **Opsiwn 7: Partneriaeth gydag ALI a BI – cyfleuster gofal a chartref nyrsio newydd ym Mhenrhos (Gwneud yr Uchafswm, yr opsiwn a ffafrir)**

Mae hyn yn caniatáu i'r opsiwn a ffafrir gael ei ystyried yn erbyn yr opsiwn "gwneud dim" neu "busnes fel arfer" yn ogystal â'r opsiwn gwneud yr isafswm. Mae'r holl opsiynau eraill wedi'u diystyru fel y nodir yn y tabl uchod.

2.4 Arfarniad Economaidd

2.4.1 Crynodeb Arfarniad Economaidd

Mae'r arfarniad economaidd yn asesu'r Gwerth Presennol Net (GPN) a'r Gymhareb Cost Budd (CCB) yn erbyn ystod o senarios tebygol.

Mae Tabl Crynodeb Arfarniad yn darparu adlewyrchiad clir a thryloyw i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar gost a buddion sy'n gysylltiedig â'r cynllun ar sail gyson. Mae hyn yn galluogi'r penderfynwr i ddeall y gwerth am arian.

Mae'r tabl isod yn dangos y crynodeb arfarnu ar gyfer yr opsiynau a ffafrir a 'gwneud y lleiafswm'. Mae hyn yn dangos y byddai'r opsiwn a ffafrir gyda Chymhareb Cost Budd (CCB) o 2.57:1, yn disgyn i'r Categori Gwerth am Arian 'Uchel' fel y nodir yng Nghanllaw Arfarnu MHCLG 2023.⁴¹ Byddai'r opsiwn gwneud yr isafswm, gyda Chymhareb Cost Budd (CCB) o 1.42:1, yn disgyn i'r Categori Gwerth am Arian 'Derbyniol'.

	Yr Opsiwn a Ffafrir	Gwneud y Lleiafswm
Buddion Economaidd		
Effeithiau Cyflogaeth	£13.8m	£13.1m
Hyfforddiant Adeiladu / Gwerth cymdeithasol	£0.1m	£0.1m
Gwella ansawdd gofal / lles cleifion	£4.5m	£1.2m
Gostyngiad mewn Derbyniadau i'r Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys	£0.06m	£0.04m
Llai o Ddefnydd Ambiwlans	£0.06m	£0.05m
Hyd arhosiad llai yn yr ysbyty	£0.04m	£0.001m
Arbedion Costau Claf / Teulu	£3.1m	£2.25m
Arbedion recriwtio	£0.4m	£0.27m
Bodddhad staff	£4m	£2.7m
Arbedion carbon	£0.6m	£0.3m
Arbedion Ynni	£15.3m	£7.6m
Effeithiau Dosbarthu	£8.6m	£6.4m
Cyfanswm	£51m*	£34m*
Costau Economaidd		
	£19.88m	£23.86m
Cymhareb Budd Cost	2.57:1	1.42:1

*rhifau wedi'u talgrynnu

Tabl 16 - Crynodeb Arfarnu ar gyfer yr Opsiynau a Ffafrir a Gwneud yr Isafswm

2.4.2 Prif Ragdybiaethau

Mae'r rhagdybiaethau cyffredinol yr ydym wedi'u gwneud fel rhan o'n gwerthusiad economaidd fel a ganlyn:

Mae'r cyfnod arfarnu o 2025/26 sy'n cael ei hystyried yn flwyddyn 1 y prosiect hyd at 2038/39 a fyddai'n 10 mlynedd ar ôl agor y cartref gofal newydd, yn seiliedig ar y rhaglen bresennol. Mae hyn yn tybio mai blwyddyn lawn gyntaf o agor fydd 2029/2030, gan dybio bod cyllid wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn caniatáu i'r buddion gronni a chael effaith yn y system iechyd a gofal a'r economi leol.

Rhoddwyd gwerth ariannol i'r buddion a nodwyd yn yr achos strategol drwy ddefnyddio prisiau marchnad perthnasol lle bo'n bosibl a pharodrwyd i dalu / amcangyfrifon trosglwyddo buddion o lenyddiaeth briodol fel arall.

Darperir costau a buddion â gwerth ariannol mewn termau real – *h.y. ar ôl tynnu chwyddiant*.

Cafodd costau a buddion â gwerth ariannol eu gostwng 3.5% i ddarparu gwerthoedd presennol net. Rydym wedi cymryd 2021 fel blwyddyn sylfaen.

⁴¹<https://www.gov.uk/government/publications/dluhc-appraisal-guide/dluhc-appraisal-guide>

2.5 Costau'r Cynllun

2.5.1 Cyflwyniad

Mae costau'r opsiwn a ffafir wedi'u nodi yn yr achos ariannol ac maent yn cynnwys rhagamcanion cost hyd at ddiwedd 2028/29.

Yn unol â Chanllawiau Trysorlys EF, mae costau'r cynllun yn defnyddio'r fethodoleg isod:

- Amcangyfrif o'r gost sylfaenol
- Addasiad i brisiau real
- Addasiad ar gyfer Tuedd Optimistiaeth
Deialog Gystadleuol	Defnyddir y weithdrefn hon ar gyfer contractau cymhleth, sy'n gadael i awdurdodau contractio gymryd rhan mewn trafodaethau gyda chynigwyr cyn iddynt gyflwyno tendrau terfynol. Mae'n addas pan nad yw'r awdurdod contractio yn gallu diffinio'r dulliau technegol i ddiwallu ei anghenion.	Defnyddir y gweithdrefnau Deialog Gystadleuol a Deialog Gystadleuol gyda Negodi yn gyffredin ar gyfer caffael gwaith. Fodd bynnag, fe'u defnyddir mewn amgylchiadau lle nad yw'r awdurdod contractio yn gwybod pa ateb y mae'n ceisio ei gael ac yn edrych tuag at y farchnad i gynorthwyo yn y maes hwn.	Diystyru
Gweithdrefn Gystadleuol gyda Negodi	Fel y ddeialog gystadleuol, mae'r weithdrefn hon yn caniatáu trafod ar bob agwedd ar y tendr. Fe'i defnyddir mewn caffael mwy cymhleth lle mae angen datblygu datrysiadau manwl trwy ryngweithio rhwng yr awdurdod a bidwyr.	Mae gan Gyngor Gwynedd a BIPBC, sy'n gweithio gyda chynghorwyr allanol, ddatrysiad pendant ar gyfer y cynllun ac nid yw'r gweithdrefnau hyn yn briodol.	
Partneriaeth Arloesi	Mae'r weithdrefn hon yn annog datblygu cynhyrchion, gwasanaethau neu waith arloesol. Mae'r bartneriaeth yn caniatáu i'r awdurdod a chyflenwyr gydweithio i greu datrysiadau newydd ac yna eu gweithredu.	Nid yw (diffyg) cymhlethdod cynllun Penrhos yn gofyn am gydweithio ag amryw o bartneriaid yn y sector preifat.	Diystyru

Gweithdrefn wedi'i Negodi heb Gyhoeddi Ymlaen Llaw	Defnyddir hyn mewn amgylchiadau eithriadol, megis pan nad oes bidiau addas yn dod i law o dan weithdrefnau eraill neu mewn achosion brys.	Defnyddir y weithdrefn hon mewn amgylchiadau eithriadol lle bu methiant yn y farchnad neu bwysau amser critigol - nid yw'r naill na'r llall yn berthnasol i gynllun Penrhos.	Diystyru
---	---	--	-----------------

Tabl 31: Crynodeb o'r gweithdrefnau caffael

O'r gweithdrefnau uchod dim ond y ddwy **Weithdrefn Agored** a'r **Weithdrefn Gyfyngedig** sy'n briodol.

- Gweithdrefn Agored (hefyd ar gael o dan y Ddeddf Caffael):** Mae'r weithdrefn agored yn parhau i fod ar gael fel y dull symlaf i fynd at y farchnad o dan y Ddeddf Caffael newydd ac ni ragwelir iddi newid yn sylfaenol.

Cryfderau	Gwendidau
- Mae'r Weithdrefn Agored yn hyrwyddo tryloywder trwy ganiatáu i unrhyw barti sydd â diddordeb cyflwyno bid, gan sicrhau proses deg. Mae gan bob cyflenwr sydd â diddordeb fynediad cyfartal i'r dogfennau tendro a'r meini prawf gwerthuso. Budd: Mae hyn yn sicrhau cystadleuaeth ac yn lliniaru'r risg o ffafriaeth neu ymddygiad nad yw'n gystadleuol, sy'n hanfodol mewn contractau gwaith mawr. - Gan fod y weithdrefn yn agored i bob darpar gyflenwr, mae'n caniatáu ar gyfer amrywiaeth eang o gynigwyr, a all arwain at brisiau cystadleuol a datrysiadau arloesol. Budd: Yn arbennig o fuddiol i gontractau gwaith cyhoeddus ble gall nifer fawr o gontractwyr medrus gyflwyno tendrau.	- Gan fod pob cyflenwr yn gallu cyflwyno bid, efallai y bydd awdurdodau yn cael nifer uchel o dendrau, gan arwain at broses werthuso lafur a chostus, yn enwedig i gontractau gwaith ar raddfa fawr. - Gallai gweithdrefnau agored ddenu nifer fawr o gyflenwyr, gan gynnwys y rheiny sydd ag ychydig o brofiad mewn prosiectau gwaith cymhleth, allai lethu cwmnïau llai medrus.
Cyfleoedd	Bygythiadau
- Mae'r Weithdrefn Agored yn hyrwyddo cystadleuaeth iach drwy roi'r cyfle i gwmnïau bach a chanolig gystadlu ochr yn ochr â chwmnïau mwy sydd wedi hen sefydlu. Budd: Gall hyn arwain at well gwerth am arian yn ogystal â chyfle i gefnogi cwmnïau lleol neu llai efo dulliau adeiladu arloesol. - Gall y cyfranogiad ehangach hwn arwain at gyfleoedd i gontractwyr sy'n cynnig gwerth cymdeithasol, fel ymrwymïadau i arferion cynaliadwy neu greu swyddi yn lleol, sy'n arbennig o berthnasol mewn contractau gwaith. Budd: Mae hyn yn cyd-fynd â nodau caffael cyhoeddus ehangach fel hyrwyddo effaith gymdeithasol ac amgylcheddol.	- Gan fod pob cyflenwr yn gallu cyflwyno bid, efallai y bydd yr awdurdodau yn cael cynigwyr sydd heb y profiad na'r cymwysterau angenrheidiol, na'r sefydlogrwydd ariannol ar gyfer contractau gwaith cymhleth. - Os daw nifer uchel o fidiau i law, gall y broses werthuso arwain at oedi sylweddol wrth ddyfarnu'r contract, gan effeithio ar amserlen y prosiect o bosib. - Wrth i'r Weithdrefn Agored gyrraedd yn eang, byddai cynigwyr aflwyddiannus yn fwy tebygol o herio'r broses gaffael, yn enwedig os ydynt yn teimlo na chafodd eu bidiau eu gwerthuso'n deg.

Tabl 32: Dadansoddiad SWOT o weithdrefn agored

- Gweithdrefn Gyfyngedig (gyda Gweithdrefn Hyblyg Gystadleuol yn ei disodli o dan y Ddeddf Gaffael):** Ni fydd y Weithdrefn Gyfyngedig yn cael ei hailadrodd yn y Ddeddf Gaffael newydd. Bydd hon yn cael ei disodli gan y "Weithdrefn Hyblyg Gystadleuol". Er bod y weithdrefn hon yn rhoi lle i egwyddorion y weithdrefn gyfyngedig, mae'n gadael i'r awdurdod contractio symud i ffordd o rai o'r asesiadau a'r gweithgareddau mandadol o dan y PCR. Gan nad yw'r weithdrefn newydd hon wedi'i chadarnhau na'i phrofi yn y farchnad eto, mae'r dadansoddiad SWOT isod yn cymryd y bydd egwyddorion mwy trwyadl y Weithdrefn Gyfyngedig yn cael eu cadw.

Cryfderau	Gwendidau
- Yn gadael i'r awdurdod contractio rhag-gymhwyso cyflenwyr, gan olygu mai dim ond y rheiny sy'n bodloni'r meini prawf angenrheidiol a fydd yn cael eu gwahodd i gyflwyno tendr llawn. Budd: Mae hyn yn lleihau nifer y tendrau llawn sydd i'w gwerthuso, gan wneud y broses yn fwy effeithlon - Dim ond cyflenwyr sydd wedi'u rhag-ddewis sy'n gallu cyflwyno bid; fel arfer mae'r weithdrefn hon yn denu contractwyr mwy profiadol a medrus. Budd: caiff ymgeiswyr sydd ag arbenigedd perthnasol, sefydlogrwydd ariannol a galluoedd technegol eu hystyried, gan leihau'r risg o gael cynigwyr heb y cymwysterau priodol. - Lleihau'r risg o gael bidiau gwamal neu gwynion gan gyflenwyr anaddas. Budd: codi hyder yn nhegwch y broses ac yn lleihau'r tebygolrwydd o anghydfod anghyfreithiol.	- Mae natur dau gam y Weithdrefn Gyfyngedig (cyn-gymhwyso yna'r cam tendro) yn gallu cymryd amser. - Mae nifer y cynigwyr yn gyfyngedig ar ôl y cam cyn-gymhwyso; mae risg i rai cyflenwyr cymwys gael eu heithrio o'r broses dendro.
Cyfleoedd	Bygythiadau
- Yn gadael i awdurdodau contractio ganolbwyntio ar gyflenwyr sy'n bodloni meini prawf technegol ac ariannol penodol, gan sicrhau mai dim ond y rheiny sydd â'r arbenigedd perthnasol sy'n cael eu gwahodd i dendro. Budd: yn helpu awdurdodau i gulhau'r maes i gyflenwyr tra chymwys. - Gall y Cyngor ddefnyddio'r broses cyn-gymhwyso i asesu cymwysterau ariannol a thechnegol, a rhinweddau gwerth cymdeithasol darpar gyflenwyr hefyd (e.e. cynaliadwyedd, creu swyddi yn lleol). Budd: yn cyd-fynd â nodau caffael cyhoeddus ehangach ac yn gadael i awdurdodau sicrhau bod ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol yn cael eu hystyried fel gofynion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.	- Gallai meini prawf cyn-gymhwyso roi ffafriaeth i chwmnïau mwy sy'n bodoli ers tro efo portffolio eang, gan eithrio cyflenwyr llai neu arloesol a allai sicrhau gwerth, o bosib. - Mae risg y gallai'r broses gyn-gymhwyso fod yn rhy gaeth - drwy fod yn rhy oddefgar neu'n rhy haearnidd o ran y meini prawf.

Tabl 33: Dadansoddiad SWOT o'r weithdrefn gyfyngedig

Wrth werthuso'r dadansoddiad SWOT uchod, awgrymir mai caffael drwy'r farchnad agored sy'n cael ei ffafrio ac sy'n briodol, naill ai drwy'r Weithdrefn Gyfyngedig neu'r Weithdrefn Hyblyg Gystadleuol (yn dilyn y Ddeddf Gaffael newydd). I grynhoi, y rheswm am hyn yw oherwydd bod y gweithdrefnau hyn yn annog barn gytbwys, sydd hefyd yn:

- Lleihau'r baich gweinyddol ar dimau prosiect allai fod â chapasiti cyfyngedig neu allai fod yn ceisio cydbwysu amryw o flaenoriaethau cystadleuol
- Gwarchod rhag ymwneud â contractwyr amhriodol e.e. y rheiny sydd â phroblemau gyda sefyllfa ariannol, yswiriant, neu gymhwysedd.

Caffael Fframwaith (Defnyddio fframwaith parod)

Gan ddefnyddio fframwaith, gellir cael mynediad at y farchnad yn gyflymach efo contractwyr sydd wedi rhag-gymhwyso. Er hynny, mae hyn yn gallu cyfyngu awdurdodau contractio gan fod hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt weithredu o fewn terfynau Cytundeb Fframwaith sydd wedi'i gytuno o flaen llaw. Er mwyn adnabod y fframwaith mwyaf priodol, mae'r broses hon wedi'i dilyn:

1. Adnabod anghenion y cynllun a dymuniadau/cymwyseddau'r Cyngor
2. Adnabod y fframweithiau sydd ar gael i'r cynllun mewn perthynas â'r cwmpas, y gwerth a'r lleoliad
3. Cysoni anghenion y Cyngor â'r fframweithiau sydd ar gael i adnabod y rheiny sy'n gweddu orau

Anghenion y Cyngor

Mae'r Cyngor yn darparu prosiectau cyfalaf gan ddefnyddio staff a gyflogir yn uniongyrchol sy'n cymryd rôl rheoli prosiect i gleientiaid yn unig, ac mae tîm proffesiynol sydd wedi'i benodi yn gwneud yr holl gyfrifoldebau eraill. Mae hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd o ran y fframweithiau y gellir eu defnyddio. Er hynny, mae tri absoliwt y bydd yn rhaid i'r fframwaith a ddewisir eu darparu:

- a) Yn defnyddio, neu fod yr opsiwn yno i ddefnyddio, math o gontract Tribiwnlys Contractau ar y Cyd (JCT), y mae mwy o ddealltwriaeth ohono o fewn y Cyngor, gan osgoi y Contract Peirianeg Newydd (NEC).
- b) Y gallu i benodi contractwr dan gystadleuaeth ble mae dau gam, gan gynnwys y contractwr yn gynnar.
- c) Cynyddu gwerth cymdeithasol a buddsoddiad lleol.

Dadansoddi'r fframwaith o'r fframweithiau sydd ar gael:

Yn ogystal â chaffael ar y farchnad agored, mae opsiwn i'r Cyngor ddewis nifer o fframweithiau caffael parod sydd wedi'u llunio i symleiddio'r gwaith cyflawni, lleihau'r baich gweinyddol, a sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddf gafael gyhoeddus. Mae'r fframweithiau hyn yn amrywio yn eu cwmpas, o ran llywodraethu a chaffael, ac mae manteision i bob un o safbwynt mynediad at gyflenwyr, rheoli costau a hyblygrwydd contract.

Fframwaith	Dyddiad y Daw i Ben	Perchennog y Fframwaith	Codi tâl	Mathau o waith	Ffurf y contract cyflawni	Contractwyr	Cystadleuaeth
Fframwaith Adeiladu CCS	2026	CCS, asiantaeth Llywodraeth y DU	0.5-1%	Prosiectau adeiladu sector cyhoeddus, gan gynnwys peirianeg sifil, adnewyddu, adeiladau newydd, isadeiledd, ysgolion gofal iechyd ac amddiffyn.	JCT a NEC	Balfour Beatty, Kier, Morgan Sindall, Skanska.	Dyfarniad Uniongyrchol a Chystadlaethau Bach
Fframwaith Fusion21	Yn amrywio yn ôl y fframwaith ond yn rhedeg am 4 i 5 mlynedd fel arfer.	Fusion21, menter gymdeithasol sy'n rhoi fframweithiau caffael i'r sector cyhoeddus.	1%	Prosiectau adeiladu, adnewyddu, cynnal a chadw ac effeithlonrwydd ynni ar draws sectorau e.e. tai, addysg, gofal iechyd a mannau cyhoeddus.	JCT a NEC	Contractwyr cenedlaethol fel Wates, BAM, Morgan Sindall, ynghyd â chontractwyr rhanbarthol.	Dyfarniad Uniongyrchol a Chystadleuaeth Fach (Yn dibynnu ar y prosiect)
Fframweithiau Adeiladu ar gyfer Cymru y GIG	Yn parhau	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru	Cysylltu'n Uniongyrchol	Roedd prosiectau cyfalaf mawr dros £4m yn canolbwyntio ar seilwaith gofal iechyd fel ysbytai, clinigau, a chyfleusterau cysylltiedig.	Contractau NEC	Mae contractwyr penodol yn cael eu dewis yn dibynnu ar y tendr, a'r rheiny sydd ag arbenigedd mewn seilwaith gofal iechyd sy'n aml yn cael eu ffafrio.	Cystadlaethau bach
Fframwaith Gwasanaethau Busnes a Rennir y GIG (NHS SBS)	Fel arfer mae'n rhedeg am 4 blynedd, gyda'r cyfnod presennol yn dod i ben yn 2026.	NHS SBS, gyda'r Adran Iechyd a Sopra Steria yn gydberchnogion.	0.5-2%	Yn bennaf ar gyfer adeiladu gofal iechyd, gan gynnwys ysbytai, clinigau a chyfleusterau meddygol, ond hefyd yn ymestyn i adeiladau'r sector cyhoeddus yn gyffredinol.	NEC yn bennaf, ond defnyddir JCT hefyd ar gyfer rhai prosiectau.	Yn cynnwys contractwyr gofal iechyd mawr fel Balfour Beatty, Interserve a Syr Robert McAlpine.	Dyfarniad Uniongyrchol a Chystadlaethau Bach (Yn dibynnu ar y prosiect)
Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru (PAGC)	2028	Cyngor Sir Ddinbych, ar ran chwe awdurdod Gogledd Cymru.	Dim tâl. Mae CG yn talu ffrwyddol i gynnal y fframwaith.	Mae'r fframwaith yn cwmpasu prosiectau sector cyhoeddus, ysgolion, adeiladau cymunedol, gofal iechyd a phrosiectau seilwaith.	JCT a NEC	Kier Construction, Willmott Dixon Construction, Galliford Try Building Ltd, C Wynne & Sons Ltd (Wynne Construction), T G Williams Builders Ltd, MPH Construction Ltd, Garnett-Hughes Developments Ltd, NWPS Construction Ltd, R L Davies & Son Ltd, WRW Construction Ltd, Williams Homes Bala Ltd, Gareth Morris Construction Ltd.	Dyfarniadau Uniongyrchol a Chystadlaethau Bach
Fframwaith Gwaith Mawr Pagabo	2025	Pagabo, arbenigwr caffael.	Codir 0.5-1% am ddefnyddio'r fframwaith.	Prosiectau adeiladu mawr gan gynnwys ysgolion, tai, gofal iechyd, a seilwaith.	JCT a NEC	BAM, Willmott Dixon, Morgan Sindall, Kier, a chontractwyr rhanbarthol.	Dyfarniad Uniongyrchol a Chystadlaethau Bach
Fframwaith 'Procure'	2026	Procure Partnerships, Darparwr Fframwaith yn y DU	0.5-2%	Yn cynnwys adeiladau newydd a gwaith adnewyddu ar draws sectorau fel addysg, gofal iechyd, a seilwaith sifil.	JCT a NEC	Contractwyr cenedlaethol a rhanbarthol gan gynnwys ISG, Galliford Try, a Wates.	Dyfarniad uniongyrchol a chystadleuaeth fach (Yn dibynnu ar y prosiect)
Fframwaith Caffael Scape Cymru a Gogledd Cymru	Yn amrywio yn dibynnu ar y fframwaith penodol a ddefnyddir o dan Scape (telerau 4 blynedd fel arfer)	Scape Group, arbenigwr amgylchedd adeileddig dan berchnogaeth y sector cyhoeddus.	Codir 0.5-1% am ddefnyddio fframweithiau Scape.	Yn cwmpasu seilwaith, peirianeg sifil, tai, a datblygiadau sector cyhoeddus.	NEC	Kier, Willmott Dixon, Morgan Sindall.	Dyfarniad uniongyrchol neu gystadleuaeth fach
Fframwaith Adeiladu Cydweithredol De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru	2028	Awdurdodau Lleol ar draws De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru.	Cysylltu'n Uniongyrchol	Mae'r fframwaith hwn yn canolbwyntio ar ysgolion ac adeiladau cyhoeddus eraill, yn amrywio o godi adeiladau newydd i waith adnewyddu.	JCT a NEC	Morgan Sindall, BAM, Willmott Dixon, a Kier yn ogystal â chontractwyr rhanbarthol llai.	Cystadlaethau bach
Fframweithiau Sector Cyhoeddus Cynghair Caffael Cymru	Yn dibynnu ar y fframwaith, gall fod yn weithredol o 2020-2024, gydag estyniad yn bosib	Mae WPA yn rhan o'r LHC Group, nid-er-elw Group.	1-2%	Mae fframweithiau WPA wedi'u sefydlu ar gyfer ystod eang o anghenion adeiladu sector cyhoeddus gan gynnwys codi tai newydd, gwaith ôl-osod ac adnewyddu, cyfleusterau addysgol, adeiladau gofal iechyd a phrosiectau peirianeg sifil.	JCT a NEC	Cymysgedd o gontractwyr cenedlaethol a rhanbarthol sy'n sicrhau dewis cystadleuol ar gyfer gwahanol fathau o brosiectau.	Dyfarniad uniongyrchol a chystadleuaeth fach (Yn dibynnu ar y prosiect)
Fframwaith YORbuild3	Mae'r cyfnod presennol i fod i redeg hyd 2026 gydag opsiynau i ymestyn	Rheolir gan East Riding of Yorkshire Council a defnyddir ar draws rhanbarth Sir Efrog a Humber, a chaniateir i Awdurdodau Cymru ei ddefnyddio.	1-2% o werth y prosiect	Defnyddir ar gyfer codi adeiladau newydd, gwaith adnewyddu a phrosiectau peirianeg sifil ar draws gwaith yn y sector cyhoeddus.	Cefnogi contractau JCT a NEC.	Contractwyr mawr fel BAM, Morgan Sindall a Willmott Dixon.	Cystadlaethau bach

Tabl 34: Fframweithiau sydd ar gael

Asesu'r Fframweithiau sydd ar gael

Fframwaith	Cysondeb ag Anghenion y Cyngor	Statws
Fframwaith Adeiladu CCS	Fframwaith caffael eang, ddim wedi'i deilwra yn benodol i flaenoriaethau CG ar gyfer twf economaidd lleol a phrosiectau cymunedol.	Gweithredol ond diffyg ffocws rhanbarthol a lleol. Mwy addas i brosiectau mwy.
Fframwaith Fusion21	Yn rhoi gwerth cymdeithasol a manteision i'r DU ond diffyg pwyslais ar gydweithio rhanbarthol a chadwyni cyflenwi lleol yng Ngwynedd.	Gweithredol ond rhy eang i anghenion penodol y rhanbarth.
Fframweithiau Adeiladu ar gyfer Cymru y GIG	Yn bennaf ar gyfer cyfleusterau gofal iechyd, fel ysbytai, ond ddim yn fframwaith cynhwysfawr ar gyfer prosiectau isadeiledd ehangach yng Ngwynedd.	Gweithredol ond ddim yn caniatáu ar gyfer defnyddio JCT.
Fframwaith Gwasanaethau Busnes a Rennir y GIG	Yn bennaf ar gyfer isadeiledd gofal iechyd, sy'n cyfyngu ar ei ddefnydd ar gyfer anghenion sector cyhoeddus ehangach CG.	Gweithredol ond ffurf contract JCT methu cael ei ddefnyddio.
Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru (PAGC)	Wedi'i lunio'n benodol ar gyfer cynghorau Gogledd Cymru, gan gynnwys Gwynedd. Yn rhoi blaenoriaeth i fuddion economaidd lleol, cydweithio rhanbarthol a chynaliadwyedd sy'n golygu ei fod yn ddelfrydol ar gyfer prosiectau cymunedol ar raddfa fawr. Yn cynnig rhannu costau, sy'n helpu i gyflawni'r prosiect yn erbyn y gyllideb ac yn gwella cydweithio ar draws cynghorau.	Yn weithredol, yn gyson â'r ffocws rhanbarthol ac yn gost effeithiol.
Fframwaith Gwaith Mawr Pagabo	Yn addas ar gyfer adeiladu ar raddfa fawr ond diffyg pwyslais rhanbarthol neu gysondeb â chadwyn gyflenwi leol Gwynedd a blaenoriaethau cymunedol.	Gweithredol ond diffyg cysondeb rhanbarthol a lleol.
Fframwaith 'Procure'	Yn cynnwys ystod eang o anghenion sector cyhoeddus ond yn rhy gyffredinol i roi sylw i flaenoriaethau penodol CG.	Yn weithredol ond ardoll uchel o bosib.
Fframwaith Caffael Scape Cymru a Gogledd Cymru	Yn rhoi darpariaeth dda i Gymru, ond PAGC yn cynnig gwell cysondeb ag anghenion cadwyn gyflenwi rhanbarthol a lleol Gwynedd.	Gweithredol ond nid yw'n cynnig yr opsiwn ar gyfer cystadleuaeth fach.
Fframwaith Adeiladu Cydweithredol De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru	Canolbwyntio ar Dde a Chanolbarth Cymru, gan ei gwneud yn llai perthnasol i anghenion rhanbarthol Gwynedd.	Gweithredol ond daearyddol amherthnasol.
Fframweithiau Sector Cyhoeddus Cynghrair Caffael Cymru	Yn cynnig gwasanaethau caffael eang ond diffyg pwyslais penodol ar anghenion a blaenoriaethau rhanbarthol Gwynedd.	Yn weithredol ond ardoll uchel o bosib.
Fframwaith YORbuild 3	Fframwaith cyffredinol cryf, ond yn canolbwyntio mwy ar ranbarthau Swydd Efrog a Humber, gan ei wneud yn llai perthnasol i anghenion penodol CG.	Gweithredol ond daearyddol amherthnasol.

Tabl 35: Asesu'r fframweithiau sydd ar gael

O'r fframweithiau a aseswyd, Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru (PAGC), Fframwaith Caffael, a Chynghrair Caffael Cymru yw'r rhai sy'n fwyaf cyson ag anghenion y Cyngor. Mewn ymgynghoriad ag aelodau tîm prosiect Cyngor Gwynedd, o ran cydbwysedd y farn, **gwelir mai Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru yw'r fframwaith mwyaf addas o'r rheiny sydd ar gael**. Er gall yr holl fframweithiau sydd ar y rhestr fer ddiwallu anghenion y Cyngor, mae PAGC wedi'i sefydlu ers tro, yn cael ei reoli gan Gyngor Sir Ddinbych sy'n gyfagos i Wynedd, ac mae'n caniatáu i bwyslais gael ei roi ar fuddsoddi'n lleol a chreu gwerth cymdeithasol o fewn y rhanbarth.

Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru (PAGC)

Mae'r PAGC yn fframwaith caffael cydweithredol sydd wedi'i gynllunio i hwyluso'r gwaith o gyflawni prosiectau adeiladu ar raddfa fawr ledled Gogledd Cymru. Fel y dywedwyd, mae'n cael ei reoli gan Gyngor Sir Ddinbych ar ran chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru. Mae'r fframwaith yn rhoi mynediad i gontactwyr sydd wedi'u cymeradwyo'n barod ar gyfer ystod o brosiectau adeiladu sector cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion, cyfleusterau gofal iechyd, ac adeiladau cymunedol. Nod y fframwaith yw cefnogi twf economaidd rhanbarthol,

gwneud y mwyaf o'r gadwyn gyflenwi leol, a darparu buddion cymunedol. Mae'r fframwaith presennol yn ddilys tan 2028 ac mae'n defnyddio mathau o gontractau JCT a NEC.

Sefydlwyd yr PAGC i ddarparu gwerth am arian a'r manteision sy'n gysylltiedig â pherthynas o gydweithrediad hirdymor. Bydd y fframwaith yn cael ei ddefnyddio i gyflawni ystod o brosiectau mawr ledled Gogledd Cymru gyda gwerth cyfunol o hyd at £600 miliwn. Bydd yn cynnwys adeiladau ysgol newydd, prosiectau eraill yn y sector cyhoeddus a thai cymdeithasol.

Ffocws Buddion Cymunedol/Gwerth Cymdeithasol PAGC

Nid yw'r PAGC yn fater o frics a mortar yn unig. Y nod yw creu effaith gadarnhaol barhaol ochr yn ochr ag adeiladau a seilwaith newydd. Mae Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru wedi datblygu prosesau cydweithredol cryf gyda chleientiaid, contractwyr, darparwyr cymorth cyflogaeth a mudiadau gwirfoddol/mentrau cymdeithasol i fynd i'r afael â nifer o themâu Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys Cymru sy'n fwy llewyrchus, Cymru sy'n fwy cyfartal, cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Trwy ganolbwyntio ar y manteision i'r gymuned leol, mae'r PAGC yn mynd y tu hwnt i brosiectau adeiladu. Gyda mwy o bwyslais ar gyflawni lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol trwy'r ffordd y mae'r Sector Cyhoeddus yn rheoli ei weithgareddau caffael. Mae PAGC yn cryfhau partneriaeth gymdeithasol drwy nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn chyflawni ei nodau hefyd. Mae Tîm PAGC yn rheoli amrywiaeth o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol i sicrhau bod Contractwyr ar y Fframwaith yn bodloni'r safonau priodol.

Mae darparu Buddion Cymunedol/Gwerth Cymdeithasol yn hanfodol i PAGC, gyda'r bwriad o ddatgloi effeithiau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ehangach fel y disgwylir trwy [Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus \(Cymru\) | LLYW.CYMRU](#). Mae hyn yn golygu y dylai pob prosiect a gaffaelir trwy PAGC gynnwys Buddion Cymunedol/Gwerth Cymdeithasol, a Dangosyddion Perfformiad Allweddol eraill. Mae pwyslais PAGC ar werth cymdeithasol yn cyd-fynd yn berffaith â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru. Mae'r ddeddfwriaeth hon, sy'n torri tir newydd, yn gwneud i gyrff cyhoeddus ystyried effaith gymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd hirdymor eu penderfyniadau. Drwy roi blaenoriaeth i werth cymdeithasol, mae PAGC yn sicrhau bod prosiectau adeiladu yn cyfrannu at wneud Gogledd Cymru yn rhanbarth sy'n iachach, yn fwy cyfartal, ac yn fwy cydnerth am genedlaethau i ddod.

Mae PAGC yn annog ac yn cefnogi datblygiad y gweithlu ar bob lefel, i gynnwys contractwyr, cleientiaid, y gadwyn gyflenwi a'r gymuned leol - fel hyn, gallwn wneud gwahaniaeth yn y cymunedau a rhoi'r gwerth gorau. Fel y cyfryw, mae PAGC wedi partneru efo National Association Construction Frameworks, Supply Chain School a CITB.

Mae PAGC wedi ymrwymo i gaffael sy'n gymdeithasol gyfrifol, a disgwylir y bydd prynwyr a chontractwyr ar y Fframwaith yn rhoi buddion cymdeithasol, economaidd amgylcheddol a diwylliannol gan hefyd roi'r gwerth gorau am arian ar gyfer y bunt yng Nghymru. Sefydlwyd y Fframwaith i ddarparu gwerth am arian a'r manteision sy'n gysylltiedig â pherthynas o gydweithrediad hirdymor. Mae'r Bartneriaeth a'r rhanddeiliaid yn gweithio ar y cyd, ac yn agored, er mwyn i'r buddsoddi gael cymaint o effaith â phosib ar gymunedau lleol, drwy ddarparu Buddion Cymdeithasol a Gwerth Cymdeithasol yn gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae hyn yn seiliedig ar ethos o fod yn agored, yn dryloyw ac yn hyblyg, a hynny drwy gyfathrebu ac ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid.

Mae'r ardaloedd yn cynnwys:

- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Sir Ynys Môn

Yn ogystal â chwe awdurdod Gogledd Cymru, gall gyrff sector cyhoeddus eraill yn y rhanbarth ddefnyddio'r Fframwaith hefyd. Mae'r Fframwaith wedi'i drefnu o dan saith Lot, sydd wedi'u rhannu drwy gyfeirio at amcan werth y Prosiectau, yn dechrau o £250k. Gyda chyfanswm cost Penrhos dros £15m, mae'n ei osod yn Lot 5

sy'n cynnwys adeilad newydd, estyniadau a gwaith adnewyddu traddodiadol neu ddylunio ac adeiladu gyda'r holl waith cysylltiedig.

Lotiau a Ffiniau Gwerth

Mae Fframwaith PAGC wedi'i drefnu fesul Lot, gydag amrediad o werthoedd penodol sy'n pennu pa contractwyr y gellir eu hystyried am brosiectau ar sail eu maint a'u cymhlethdod:

Lotiau:	Ffiniau Gwerth
Lot 1	£250,000 i £1,999,999
Lot 2	£2,000,000 i £4,999,999
Lot 3	£5,000,000 i £9,999,999
Lot 4	£10,000,000 i £14,999,999
Lot 5	£15,000,000+
Lot 6H	Prosiectau tai cymdeithasol hyd at 10 uned
Lot 7H	Prosiectau tai cymdeithasol dros 10 uned

Tabl 36: Lotiau a Ffiniau Gwerth

Os yw gwerth prosiect dros £15m, Lot 5 yw'r categori perthnasol i'r cynllun hwn o ystyried bod y costau adeiladu yn £15.4m.

Contractwyr yn Lot 5

Dyma'r contractwyr cymeradwy ar gyfer Lot 5 o dan Fframwaith PAGC:

- Kier Construction Ltd
- Wynne Construction (C Wynne & Sons Ltd)
- Galliford Try
- Morgan Sindall
- Read Construction Holdings Ltd

Mae'r contractwyr hyn yn gallu cyflawni prosiectau ar raddfa fawr yn y sector cyhoeddus, ac mae eu cyfranogiad yn sicrhau bod y prosiect yn cael ei reoli gan gwmnïau sydd â phresenoldeb rhanbarthol cryf yn ogystal â phrofiad o gontractau gwerth uchel.

Llwybrau Caffael: Cystadleuaeth Fach a Dyfarniad Uniongyrchol

Mae fframwaith PAGC yn cefnogi dau brif ddull caffael: Cystadleuaeth Fach a Dyfarniad Uniongyrchol.

Cystadleuaeth Fach:

- **Proses:** Mae cystadleuaeth fach yn cynnwys gwahodd amryw o gontractwyr o'r Lot priodol i gyflwyno cynigion ar gyfer y prosiect. Gall y meini prawf dethol gynnwys ffactorau fel cost, ansawdd, profiad, cyfraniadau gwerth cymdeithasol ac ymrwymadau cynaliadwyedd.
- **Mecanweithiau:** Bydd cleient y fframwaith yn cyhoeddi Gwahoddiad i Dendro i'r contractwyr yn Lot 5. Yna bydd contractwyr yn cyflwyno eu cynigion, a bydd y cleient yn gwerthuso pob cynnig yn seiliedig ar feini prawf a bennwyd ymlaen llaw. Defnyddir matrices sgorio yn aml i sicrhau dull cytbwys, gan ystyried ffactorau pris a ffactorau nad ydynt yn ymwneud â phris.

Dyfarniadau Uniongyrchol:

- **Proses:** Mae dyfarniad uniongyrchol yn broses nad yw'n gystadleuol ble mae contractwr yn cael ei benodi yn uniongyrchol heb wahodd cynigion eraill. Mae hyn yn cael ei ganiatáu o dan fframwaith PAGC os bodlonir amodau penodol.

- **Mecanweithiau:** Gall dyfarniad uniongyrchol gynnwys brys y prosiect, gofynion arbenigol, neu berfformiad llwyddiannus blaenorol gan contractwr. Rhaid i'r cleient ddarparu rhesymeg dros osgoi'r broses gystadleuol, gan sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau caffael.

Lot 5 Crynodebau Contractwyr

Contractwr:	Crynodeb (hunan-ddatganedig):	Arbenigeddau:
	Kier Construction yw un o brif gwmnïau adeiladu'r DU, sy'n darparu gwasanaethau ar draws gwahanol sectorau, gan gynnwys addysg, gofal iechyd, seilwaith, a datblygiadau masnachol. Mae ganddynt hanes cryf o gyflawni prosiectau sector cyhoeddus mawr gyda phwyslais ar gynaliadwyedd a gwerth cymdeithasol. Maent yn gweithredu gan ddefnyddio cadwyni cyflenwi lleol a buddsoddi mewn datblygu sgiliau yn y cymunedau y maent yn gweithio ynddynt. <i>'Rydym yn ddarparwr blaenllaw gwasanaethau seilwaith, adeiladu a datblygiadau eiddo. Rydym wedi ymrwymo i gyflawni ar gyfer cymunedau a gadael etifeddiaeth barhaol trwy ein gwaith.'</i>	Ysgolion, ysbytai a phrosiectau seilwaith.
	Mae Wynne Construction yn contractwr rhanbarthol yng Ngogledd Cymru, sy'n adnabyddus am ddarparu prosiectau sector cyhoeddus o ansawdd uchel, gan gynnwys cyfleusterau addysgol, adeiladau gofal iechyd, a chanolfannau cymunedol. Mae eu gwaith yn rhoi pwyslais ar gydweithio â chyflenwyr lleol a darparu buddion cymunedol trwy hyfforddiant a chyflogaeth. <i>'Mae Wynne Construction yn darparu datrysiadau arloesol o ansawdd uchel ar sail bartneriaeth, dylunio ac adeiladu a thraddodiadol ar gyfer prosiectau yn y sector cyhoeddus a phreifat'</i>	Adeiladu sector cyhoeddus gyda phwyslais ar werth cymdeithasol.
	Mae Galliford Try yn gwmni adeiladu blaenllaw yn y DU, sy'n cael ei gydnabod am ei waith mewn prosiectau adeiladu a seilwaith ar draws gwahanol sectorau, megis addysg, tai a gofal iechyd. Mae'r cwmni wedi ymrwymo i arferion adeiladu cynaliadwy a darparu gwerth hirdymor i'w gleientiaid a'i gymunedau. <i>'Rydym yn fusnes blaengar sy'n canolbwyntio ar bobl, sy'n cael ei yrru gan ein gwerthoedd i gyflawni newid parhaol i'n rhanddeiliaid a'r cymunedau rydyn ni'n gweithio ynddynt.'</i>	Prosiectau seilwaith mawr ac adeiladu cynaliadwy.
	Mae Morgan Sindall yn gweithredu ym marchnad adeiladu ac adfywio'r DU, gyda phwyslais ar sectorau fel addysg, gofal iechyd, masnachol a seilwaith. Mae ganddynt enw am fod yn arloesol yn y byd adeiladu, cynaliadwyedd, a darparu gwerth cymdeithasol trwy ymgysylltu â'r gymuned leol a datblygu'r gweithlu. <i>'Rydym yn grŵp o fusnesau arbenigol sy'n darparu cynlluniau partneriaeth tai a defnydd cymysg, gwasanaethau gosod ac adeiladu ledled y DU ar gyfer y sectorau cyhoeddus, masnachol a rheoleiddio.'</i>	Prosiectau sector cyhoeddus cymhleth ar raddfa fawr.

	Mae Read Construction yn contractwr yng Ngogledd Cymru gydag enw da am ddarparu prosiectau cyhoeddus a masnachol o ansawdd uchel. Maent yn arbenigo mewn adeiladau addysgol, cyfleusterau gofal iechyd, a seilwaith cymunedol arall. Maent yn gweithredu drwy ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi leol a darparu buddion cymunedol. <i>‘Y partner a ffefrir ar gyfer pob gweithgarwch adeiladu’. Mae ein tîm rheoli yn darparu rhagoriaeth ym mhob agwedd ar y sefydliad, gyda'r genhadaeth "i roi gwasanaeth i gwsmeriaid sy'n dangos esiampl dda wrth ddarparu gwasanaethau cynaliadwy o'r gwerth gorau gan sicrhau uniondeb a gwerthoedd teuluol traddodiadol'</i>	Prosiectau sector cyhoeddus gyda phwyslais ar werth cymdeithasol a chynaliadwyedd.
---	--	---

Tabl 37: Lot 5 Crynodebau Contractwyr

Y llwybr mwyaf manteisiol i'r farchnad (Marchnad Agored yn erbyn Fframwaith)

Mae'r tabl isod yn nodi'r gwahaniaethau rhwng y ddau opsiwn yng nghyd-destun pum maes allweddol.

Maes:	Marchnad Agored:	Fframwaith:
	Gweithdrefn Hyblyg Gystadleuol (wedi'i gynllunio'n debyg i'r RP cyfredol).	Yn seiliedig ar PAGC Lot 5.
Rhaglen a chyflawni'n amserol	Disgwylir ychwanegu o leiaf 3 mis at y rhaglen cyn y contract gan ddatblygu dogfennau tendr, <u>ymgyrdd â cham SQ</u> a gwerthusiadau ychwanegol.	Tipyn cyflymach wrth ganiatáu i'r Cyngor ymgysylltu â'r farchnad. Mae pob ymgeisydd wedi rhag-gymhwyso. Cymryd llai o amser i ddatblygu gofynion ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer gwerth cymdeithasol gan fod y rhain ar gael trwy'r fframwaith.
Costau cysylltiedig	Mwy o gostau staff mewnol a gwasanaethau proffesiynol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu dogfennau, rheoli prosiectau a diwydrwydd dyladwy ymgeiswyr/gwerthuso ychwanegol.	Dim tâl mynediad i'r fframwaith
Adnoddau staff y Cyngor	Ymrwymiad sylweddol uwch yn gysylltiedig â phroses 2-gam bwrpasol	Tipyn llai oherwydd gall y Cyngor ddibynnu ar y cytundeb fframwaith ar gyfer prif delerau Dangosyddion Perfformiad Allweddol a dim angen cyn-gymhwyso.
Rheolaeth	Bydd mwy o reolaeth yn bosibl oherwydd gall y Cyngor sefydlu'r holl delerau cytundebol.	Mae telerau'r fframwaith yn rhwymo'r Cyngor. Fodd bynnag, maen nhw wedi defnyddio'r fframwaith hwn o'r blaen ac maen nhw'n gyfforddus gyda'i gynnwys.
Rheoli risg	Mae pob opsiwn yn caniatáu ar gyfer amryw o ffurflenni contract a dulliau dylunio ac adeiladu / traddodiadol.	Mae pob opsiwn yn caniatáu ar gyfer amryw o ffurflenni contract lluosog a dulliau dylunio ac adeiladu / traddodiadol.

Tabl 38: Gwahaniaethau rhwng y Farchnad Agored a'r Fframwaith

Yn seiliedig ar y gwerthusiad uchod, ystyrir mai defnyddio cytundeb fframwaith sefydledig Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru (Lot 5) fyddai fwyaf addas. Er nad dyma'r unig reswm, y prif wahaniaethydd yw'r gofyn ar staff y Cyngor. Hyn o hyn o staff sydd ar gael yn y Cyngor i gyflawni'r cynllun ac mae defnyddio fframwaith sefydledig fel PAGC yn caniatáu ar gyfer ymrwymo adnoddau mewnol a diwallu anghenion y Cyngor ar yr un pryd.

3.3 Trefniadau Cytundebol Allweddol

Er mwyn diffinio'r tîm proffesiynol sydd ei angen ar gyfer y gwaith, mae angen penderfynu pa bartïon fydd yn ymgymryd â'r gweithgareddau dylunio a'r gwaith cydlynu cysylltiedig. Mae dau brif opsiwn ar gael:

1. **Dylunio ac Adeiladu:** O dan y trefniant hwn, bydd contractwr gwaith yn cael ei benodi o dan Gytundeb Gwasanaethau Cyn-Adeiladu neu debyg, i gymryd cyfrifoldeb am yr holl agweddau dylunio gan gynnwys penodi tîm dylunio.
2. **Traddodiadol:** O dan y trefniant hwn, bydd y Cyngor yn penodi ymgynghorydd neu ymgynghorwyr yn uniongyrchol i ymgymryd â'r holl agweddau dylunio yn uniongyrchol.

Mae'r tabl isod yn nodi manteision ac anfanteision cymharol pob dull:

Dylunio ac Adeiladu	
Manteision	Anfanteision
• Un Pwynt Cyfrifoldeb • Gellir cyflawni'r prosiect yn gyflymach, yn dibynnu ar y dull caffael • Mwy o gydweithio rhwng dylunwyr, contractwyr a'u cyflenwyr sy'n arwain at fwy o arloesedd	• Rheolaeth gyfyngedig i gleientiaid dros y broses ddylunio • Potensial ar gyfer pryderon ansawdd • Dewis cyfyngedig i'r tîm proffesiynol • Gall ffioedd fod yn destun gorbenion ychwanegol
Traddodiadol	
Manteision	Anfanteision
• Mwy o reolaeth dros y broses ddylunio • Yn rhoi cystadleuaeth yn seiliedig ar ddyluniad datblygedig • Yn cynnig mwy o sicrwydd	• Gall natur ddilyniannol y broses arwain at raglenni hirach wrth ystyried pob cam • Risg uwch o anghydfod rhwng dylunwyr a chontractwyr

Tabl 39: Manteision ac anfanteision dylunio ac adeiladu a thraddodiadol



Yn unol â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, mae'r llwybr caffael traddodiadol yn rhoi mwy o gyfle i Gyngor Gwynedd gadw rheolaeth fanwl dros y cam dylunio. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i ymgorffori amcanion llesiant penodol a chanlyniadau gwerth cymdeithasol - megis cyflogaeth leol, datblygu sgiliau, a buddion cymunedol - yng nghanau cynnar datblygu'r prosiect hyd at gyfnod rheoli'r contract.

Mae llwybr traddodiadol Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru (PAGC) yn caniatáu i'r Cyngor ymgorffori a gorfodi cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol o fewn contractau, gan gwmpasu meysydd fel cyflogau teg, cynlluniau hyfforddi lleol, a safonau perfformiad amgylcheddol. Mae'r dull hwn yn cefnogi proses gyflawni sy'n fwy atebol a thryloyw, gan alluogi cleientiaid y sector cyhoeddus i fonitro a rheoli perfformiad contractwyr trwy gydol y gwaith dylunio ac adeiladu.

Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf, bydd angen tystiolaeth o ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol (e.e. undebau llafur, busnesau bach a chanolig lleol a darparwyr hyfforddiant) i ddangos bod y llwybr caffael wedi'i ddewis i gefnogi egwyddorion gwaith teg a datblygu cynaliadwy. Gall hyn gynnwys rhoi cyfiawnhad sy'n gysylltiedig â sicrwydd swyddi, gwytnwch y gadwyn gyflenwi, a chyfleoedd ar gyfer budd cymunedol.

Mae dull gweithredu graddol y llwybr traddodiadol - sy'n gwahanu'r gwaith dylunio ac adeiladu - yn cynnig cyfnod arweiniol hirach ar gyfer ymgorffori a mireinio cymalau gwerth cymdeithasol. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer integreiddio is-gontractwyr a chyflenwyr lleol yn fwy bwriadol sy'n arddel gwaith ac arferion teg a blaenoriaethau cymunedol.

Mae'r fframwaith PAGC yn darparu ar gyfer llwybrau traddodiadol a dylunio ac adeiladu. Ar gyfer y cynllun hwn, dewiswyd y llwybr traddodiadol oherwydd cymhlethdod a ffocws cymunedol y prosiect. Mae'r penderfyniad hwn yn rhoi modd i roi tîm dylunio proffesiynol ar waith yn gynnar, gan roi trosolwg cynhwysfawr i'r Cyngor yn ystod proses datblygu'r dyluniad a hwyluso'r gwaith o gyflawni deilliannau cymdeithasol cadarn yn unol â chyfrifoldebau statudol a blaenoriaethau strategol lleol.



Mae Lovelock Mitchell a Wakemans yn gyflenwyr presennol i'r Cyngor ac maent eisoes wedi'u penodi i ddarparu cymorth technegol a masnachol ar gyfer cynllun Penrhos.

Ffigwr 12: Defnyddio'r Tîm Proffesiynol

Rheoli Cyfleusterau

Mae rheoli cyfleusterau yn galluogi defnyddio asedau yn ffisegol o adeg y trosglwyddo a thrwy gydol cylch bywyd yr asedau. Mae hyn yn cwmpasu ystod eang o gyfrifoldebau o waith trwsio ffisegol i lanhau a diogelwch. Yn ei ystyr ehangaf, gellir rhannu'r gwaith rheoli cyfleusterau yn dri maes:

- **Rheoli Cyfleusterau Caled:** Atgyweirio cylchol a chynnal a chadw parhaus i sicrhau bod yr ased yn parhau i weithio yn unol â'r fanyleb adeiledig.
- **Rheoli Cyfleusterau Meddal:** Glanhau a darparu nwyddau traul, gan gynnwys darpariaethau arlwygo o bryd i'w gilydd.
- **Cyfleustodau a Gwastraff:** Contractau ar gyfer cyfleustodau gan gynnwys cysylltedd a threfniadau ar gyfer rheoli gwastraff gan gynnwys gwasanaethau gwaredu arbenigol.

Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli cyfleusterau yn gallu newid wrth i anghenion y preswylwyr newid yn y dyfodol. Ar yr adeg y'i ysgrifennwyd ac adeg y trosglwyddo, mae'r trefniadau ar gyfer Penrhos fel y dangosir yn Nhabl 42 isod.

Eitem	Cyngor
Rheoli Cyfleusterau Caled	
Archwiliadau	Llawn
Cynnal a Chadw Adeiladau	Llawn
Cynnal a Chadw Systemau	Llawn
Cynnal a Chadw Ardaloedd Allanol	Llawn
Cynnal a Chadw Ffabrig Mewnol	I gyd heb fod ar les
Rheoli Cyfleusterau Meddal	
Glanhau	I gyd heb fod ar les
Nwyddau traul	I gyd heb fod ar les
Diogelwch	Llawn
Cyfleustodau a Rheoli Gwastraff	
Rheoli Ynni	Llawn
Trydan	Llawn

Nwy	Llaw
Dŵr	Llaw
Gwastraff	Llaw

Tabl 40: Trefniadau ar gyfer rheoli cyfleusterau

Bydd y Cyngor yn ymgymryd â'r gwaith Rheoli Cyfleusterau yn fewnol fel estyniad i'r galluoedd presennol gan ddefnyddio staff a gyflogir yn uniongyrchol a contractau gwasanaeth penodol ar gyfer cynnal a chadw'r cyfleuster yn barhaus. Ni ragwelir y bydd contract yn cael ei osod ar gyfer darparwr gwasanaeth rheoli cyfleusterau.

Dylid nodi bod Cytundeb Partneriaeth rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor ar hyn o bryd ar gyfer cyflwyno a rhedeg y cyfleuster newydd yn barhaus. Bydd y cytundeb partneriaeth hwn yn unol â'r tabl uchod.

3.4 Dyrannu Risg

Ni fydd dosbarthiad y risg yn cael ei gadarnhau'n llwyr nes y bydd trafodaethau â'r contractwyr wedi'u cwblhau. Yn unol â'r egwyddorion masnachol a drafodwyd uchod, y prif gleient fydd Cyngor Gwynedd. O ystyried y dull traddodiadol a gymerwyd o dan ffurf contract JCT, bwriedir dyrannu risgiau fel a ganlyn (ac yn unol ag egwyddorion y Sefydliad Rheoli Risg sy'n ei gwneud yn ofynnol i risgiau gael eu dyrannu i'r sawl sydd yn y sefyllfa orau i'w lliniaru):

Categori Risg	Dyraniad Posibl (C =Cyhoeddus; Pr = Preifat; Rh =Rhannu)	
1. Dylunio a chydlynu'r gwaith dylunio	Preifat	O dan y llwybr traddodiadol mae'r Cyngor yn cadw cyfrifoldeb am ddatblygu a chydlynu'r gwaith dylunio, gan gynnwys llywio'r gwaith cynllunio a sicrhau ansawdd y dyluniad.
2. Adeiladu/ Datblygu	Preifat	Bydd y contractwr yn gyfrifol am yr holl waith ar y safle a pherfformiad sefydliadau isgcontractio.
3. Trosglwyddo a gweithredu	Rhannu	Mae comisiynu a throsglwyddo llwyddiannus yn gofyn am ymdrech ar y cyd rhwng y contractwr (e.e. lliniaru'r effaith) a'r Cyngor/y Bwrdd Iechyd i sicrhau parodrwydd gweithredol. Bydd y contractwr yn gyfrifol am ddarparu ffordd o liniaru'r effaith, ond bydd llwyddiant hyn hefyd yn dibynnu ar ryngweithio ystyrlon â'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd.
4. Argaeledd a pherfformiad	Cyhoeddus	Ar ôl cwblhau, mae risgiau argaeledd a pherfformiad parhaus yn trosglwyddo i'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd wrth iddynt gymryd rheolaeth lawn o'r ased. Ar ôl ei gwblhau, bydd llwyddiant y cyfleuster gweithredol yn eistedd gyda'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd. Ni ddarperir unrhyw wasanaethau parhaus gan y contractwr y tu hwnt i unrhyw gywiro diffygion.
5. Gweithredu	Cyhoeddus	Y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd sy'n llwyr gyfrifol am weithrediad parhaus y cyfleuster newydd.
6. Moderneiddio Gwasanaethau	Cyhoeddus	Rhaid i'r sector cyhoeddus reoli unrhyw newidiadau mewn modelau gofal a darparu gwasanaethau yn unol â'r cytundeb partneriaeth a'r cynllunio strategol. Bydd yn rhaid i'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd reoli risgiau sy'n gysylltiedig â newidiadau yn y ddarpariaeth gofal gyda Phenawdau'r Telerau/Cytundeb Partneriaeth sy'n caniatáu hyblygrwydd i drafod newidiadau posibl mewn modelau gofal.
7. Amrywioldeb referniw	Cyhoeddus	Mae risgiau ariannol sy'n ymwneud â referniw gweithredol yn parhau gyda'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ac yn cael eu llywodraethu gan y cytundeb partneriaeth rhyng-asiantaethol. Rhennir rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus yn amodol ar delerau'r cytundeb partneriaeth.
8. Deddfwriaethol/rheoleiddiol	Rhannu	Gall newidiadau mewn deddfwriaeth neu fframweithiau rheoleiddio effeithio ar y ddwy ochr. Fodd bynnag, bydd yr effaith yn amrywio ar draws camau a rolau'r prosiect. Mae'r risg hon yn parhau trwy'r camau cyn-adeiladu, adeiladu a gweithredu. Bydd newidiadau deddfwriaethol yn amlygu'r sector cyhoeddus a phreifat, fodd bynnag, gydag effeithiau gwahanol.

Tabl 41: Dyrannu risgiau

3.5 Goblygiadau Personél

Yn seiliedig ar y cynigion cyfredol, ni ragwelir trosglwyddiadau TUPE. Bydd angen i'r Cyngor a'r Bwrdd lechyd gael staff i ddarparu gwasanaethau o gyfleusterau ar y safle. Efallai bydd rhaid ailwampio'r trefniadau gwaith rhywfaint ac efallai y bydd angen addasu strwythurau rhai timau er mwyn gallu cyflwyno strwythurau gwasanaeth modern.

Byddai unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud yn unol â Pholisïau Newid Sefydliadau Rhanddeiliaid, gyda'r broses ymgynghori â staff priodol, hyfforddiant angenrheidiol a chymorth arall i sicrhau bod yr holl staff yr effeithir arnynt yn gallu gweithio o fewn trefniadau diwygiedig. Lle bo'n briodol, ymgynghorir â'r undebau yn amserol.

3.6 Materion Cytundebol

Mae'r Cyngor wedi gwneud y contractau canlynol:

Gwaith

Pwrpas:	Adeiladu'r cyfleuster newydd gan gynnwys unrhyw waith galluogi
Wedi'i gontractio gyda:	I'w gadarnhau ac yn ddarostyngedig i ymarferiad caffael
Ffurf y contract:	Contract Adeiladu Safonol efo Meintiau JCT (2024)
Hyd y contract:	18 mis (tua)
Mecanwaith talu:	Ar ddiwedd pob mis yn unol â thelerau contract JCT
Rolau'r Cyngor:	Gweinyddu contractau gan gynnwys PMI ac ardystio taliadau. Presenoldeb mewn cyfarfodydd cynnydd misol a ragwelir
Dyrannu risg:	Ni ddisgwyilir y bydd angen unrhyw ddarpariaethau penodol yn ychwanegol

Tabl 42: Contract Gwaith

Gwasanaethau Proffesiynol

Pwrpas:	Gwasanaethau dylunio (pob disgyblaeth)
Wedi'i gontractio gyda:	Cyngor Gwynedd
Ffurf y contract:	Cytundeb Ymgynghoriaeth JCT (Sector Cyhoeddus, rhifyn 2024)
Hyd y contract:	36 mis (tua)
Mecanwaith talu:	Ar ddiwedd pob mis yn unol â thelerau'r Cytundeb Gwasanaethau Cyn-Adeiladu
Rolau'r Cyngor:	Cynnal y broses ddylunio, darparu adborth amserol ac adeiladol a gweithgareddau gweinyddu contractau cyffredinol
Dyrannu risg:	Ni ddisgwyilir y bydd angen unrhyw ddarpariaethau penodol yn ychwanegol

Tabl 43 – Cytundeb Gwasanaethau Proffesiynol Cyngor Gwynedd

Pwrpas:	Rheoli costau
Wedi'i gontractio gyda:	Wakemans
Ffurf y contract:	Cytundeb Ymgynghoriaeth JCT (Sector Cyhoeddus, rhifyn 2024)
Hyd y contract:	24 mis (tua)
Mecanwaith talu:	Ar ddiwedd pob mis yn unol â thelerau'r Cytundeb Ymgynghori
Rolau'r Cyngor:	Gweinyddu'r cytundeb yn unig
Dyrannu risg:	Ni ddisgwyilir y bydd angen unrhyw ddarpariaethau penodol yn ychwanegol

Tabl 44: Cytundeb Gwasanaethau Proffesiynol Wakemans

Pwrpas:	Darparu dyluniad cysyniad cychwynnol ac yna dyluniad llawn a gweinyddu'r contract
Wedi'i gontractio gyda:	Lovelock Mitchell
Ffurf y contract:	Cytundeb Ymgynghoriaeth JCT (Sector Cyhoeddus, rhifyn 2024)
Hyd y contract:	36 mis (tua)
Mecanwaith talu:	Ar ddiwedd pob mis yn unol â thelerau'r Cytundeb Ymgynghori
Rolau'r Cyngor:	Gweinyddu'r cytundeb yn unig
Dyrannu risg:	Ni ddisgwyilir y bydd angen unrhyw ddarpariaethau penodol ychwanegol

Tabl 45 - Cytundeb Gwasanaethau Proffesiynol Lovelock Mitchell

3.7 Yr Ymdriniaeth Gyfrifeg

Bydd yr holl gyfrifon yn cael eu gwneud ar sail croniadau. Cyngor Gwynedd fydd yn arwain ar y prosiect ac yn gyfrifol am reoli'r buddsoddiad cyfalaf. Nid oes unrhyw fwriad i greu unrhyw endidau cyfreithiol newydd yn rhan o'r cynllun hwn.

3.8 Cyfrif Banc y Prosiect

Byddwn yn sefydlu Cyfrif Banc Prosiect yn unol â [Chanllawiau Llywodraeth Cymru](#) ar gyfer prosiectau adeiladu a seilwaith ac unrhyw gontractau priodol eraill sy'n werth £2m neu fwy ac sy'n cael eu hariannu'n llawn neu'n rhannol gan Grant gan Lywodraeth Cymru ble mae angen sefydlu Cyfrif Banc Prosiect.

3.9 Casgliad yr Achos Masnachol

Mae'r dull masnachol a ffefrir a amlinellir yn yr achos busnes hwn yn dangos llwybr hyfyw a chystadleuol i'r farchnad sy'n cyd-fynd â rheoliadau caffael ac yn rhoi gwerth am arian. Mae'r strategaeth arfaethedig yn sicrhau ymgysylltiad â'r farchnad, yn annog arloesedd cyflenwyr, ac yn lliniaru risgiau masnachol allweddol. Trwy brofion marchnad cynnar a threfniadau cytundebol priodol, mae'r prosiect mewn sefyllfa dda i sicrhau partneriaid cyflawni medrus tra'n cynnal hyblygrwydd a rheolaeth. Yn gyffredinol, mae'r achos masnachol yn cefnogi fframwaith caffael cadarn sy'n sail i gyflawni prosiectau llwyddiannus.

Yr Achos Ariannol

4. Yr Achos Ariannol

Mae'r adran hon yn egluro goblygiadau ariannol yr opsiwn a ffafrir (fel y nodir yn yr Achos Economaidd) a'r trefniant arfaethedig (fel y disgrifir yn yr Achos Masnachol). Mae'r Achos Ariannol hwn wedi'i gynhyrchu i ddangos bod y cynllun yn fforddiadwy a bod modd ei ariannu, ac mae ganddo gefnogaeth sefydliadau partner. Er mwyn darparu dadl gymhellol, mae'r Achos Ariannol wedi'i strwythuro i ddangos y wybodaeth ganlynol:

Eitem	Cynnwys	I ddangos ...
Gofynion cyfalaf	Gofynion cyfalaf	Bod y costau cyfalaf yn hysbys gyda lefel uchel o sicrwydd
Dull ariannu	Ffrwd ariannu cyflawni Ffrwd ariannu gweithredu	Bod modd talu am gostau cyfalaf a refeniw'r cynllun drwy'r cyllid sydd ar gael
Prynu gwely allanol	Pris prynu preifat Pris incwm Penrhos	Bod gan Penrhos brisiau hyfyw
Gofynion refeniw	Gofynion refeniw	Bod y costau refeniw yn hysbys gyda lefel uchel o sicrwydd
Effaith ar y cyfrif refeniw	Effaith ar y cyfrif refeniw i dalu'r costau cyfalaf ymlaen llaw	Bod sefyllfa gyffredinol y cyfrif refeniw yn parhau i fod yn iach ac na fydd unrhyw effaith ariannol negyddol ar y cyhoedd yn unigol nac ar y cyd
Cadarnhau cefnogaeth	Mecanwaith ariannu Cyfraniad partneriaid	Bod pob sefydliad partner wedi ymrwmo'n ariannol i lwyddiant y cynllun
Dadansoddiad sensitifrwydd	Profi sensitifrwydd	Nad yw newidiadau mewn costau gweithredu ac incwm yn fygythiad i'r sefyllfa gyffredinol

Tabl 46: Strwythur yr Achos Ariannol

Er mwyn gwerthuso'r opsiwn a ffafrir ar sail ariannol, datblygwyd model ariannol lle mae'r incwm a'r gwariant a ragwelir yn cael ei fewnbynnu ar sail llif arian, gyda'r cartref gofal newydd yn cael ei werthuso dros gyfnod o 30 mlynedd.

Darperir y mewnbynnau modelu o wahanol ffynonellau, gan gynnwys y Cyngor a'i gynghorwyr allanol, megis ymgynghorwyr cost Wakemans a phenseiri Lovelock Mitchell.

Yn ogystal â'r mewnbynnau modelu a ddarperir, cytunwyd ar sawl rhagdybiaeth modelu gyda'r Cyngor, a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- **Incwm a Chostau:** Mae'r incwm a chostau gweithredu a ddarperir yn nhermau'r presennol gyda chwyddiant yn gyson ar draws y model.
- **Chwyddiant:** Mae chwyddiant wedi'i gynnwys ar gyfradd gyson o 2.5% ar draws y llif arian.
- **Disgowntio:** Yn unol â chanllawiau'r Llyfr Gwyrdd, mae costau ac incwm yn cael eu gostwng ar 3.5% ar gyfer y cyfnod buddsoddi 10 mlynedd (6.09% gan gynnwys chwyddiant).
- **TAW:** Mae TAW wedi'i eithrio o'r model ar y dybiaeth ei fod yn dod o fewn lwfans eithriad y Cyngor.
- **Galw am welyau:** cymerir yn ganiataol fod yna alw ar y Cyngor sy'n golygu y byddai cyfradd lenwi o 92% ar draws gwelyau nyrsio a phreswyl. Mae cyfradd lenwi o 92% yn darparu gwarged incwm a gwariant tra bod unrhyw gyfradd is yn creu diffyg. Dangosir hyn mewn dadansoddiad yn Atodiad F.
- **Amseroedd y rhaglen** – ar draws cyfnod 30 mis y rhaglen (mis Mawrth 2027 i fis Medi 2029, gan gynnwys dylunio ac adeiladu), mae costau'n cael eu proffilio fel 10% blwyddyn 1; 45% blwyddyn 2; 40% blwyddyn 3; a 5% blwyddyn 4. Mae costau suddo (e.e., ABS, a datblygu'r ABA) wedi'u cynnwys ym mlwyddyn 1.
- **Atgyweiriadau mawr/costau cylch bywyd:** polisi'r Cyngor yw dibrisio adeiladau newydd dros gyfnod o 40 mlynedd ar gyfradd o tua 2 i 4% y flwyddyn ar sail llinell syth. Er ein bod wedi cynnwys lwfans ar gyfer cynnal a chadw parhaus, o ystyried y cyfnod byr o ddibrisiant yn erbyn oes dyluniad adeiladau arferol, credwn ei bod felly'n ddoeth eithrio cost atgyweiriadau mawr o fewn y model. Mae hyn yn seiliedig ar y rhesymeg bod gwerth yr asedau craidd yn cael ei ddibrisio i sero dros 40 mlynedd.

4.1 Trefniadau Cyfalaf

Mae proffil cost cyfalaf wedi'i gynhyrchu ar gyfer **Opsiwn a Ffafir 7 Partneriaeth gyda'r ALI a'r BI – cyfleuster cartref gofal a nyrsio newydd ym Mhenrhos** yn seiliedig ar y wybodaeth dyluniad a gosodiad a ddarparwyd gan y Cyngor gan ddefnyddio meincnodau a chyfraddau marchnad a gafwyd gan Wakemans. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Atodiad G.

Er mwyn cynnig amcangyfrif o wariant cyfalaf yn y cam ABS, cynhaliwyd gwaith dylunio dangosol ar yr hyn y credwyd oedd yr opsiwn Gwneud yr Uchafswm. Fel y dangosir yn y tabl isod, dangosodd hyn gyfanswm cost o £18.4m heb gynnwys TAW. Fel yr amlinellwyd yn y ABS, unig fwriad yr ymgymieriad hwn oedd rhoi amcangyfrif o wariant cyfalaf ac nid cael ei weld fel cost yr opsiwn a ffafir a fyddai'n cael ei bennu yn y cam ABA hwn.

Mae'r tabl isod yn dangos y costau amcangyfrifedig gwreiddiol yn y ABS a ddatblygwyd tua 12 mis cyn gwneud y cais IRCF.

Description of Component Cost	£'000
New Build Care Home with Nursing	11,800
Other Costs (Pre-construction, Preliminaries – 15% of Construction cost)	1,819
Fit out	250
15% contingency and Optimism Bias	2,080
15% Inflation Uplift and Risk Allowance	1,834
OBC Development phase costs (Project Manager, Design, Planning, OBC development)	599
TOTAL COST	18,382

Tabl 47: Amcangyfrif o'r Costau Cyfalaf ar y cam ABS

Ers cymeradwyo'r ABS, penodwyd Wakemans i gynnal ymgynghoriad costau a darparu syniad mwy diffiniedig o gostau (ac eithrio TAW) ar gyfer yr opsiwn a ffafir. Mae'r rhain i'w gweld isod:

Gwariant Cyfalaf	Eitem
£ 15,410,000	Adeiladu (cartref gofal newydd gyda nyrsio) - ffigwr a ddarparwyd gan Wakemans (Chwefror 2025)
£ 15,410,000	Is-gyfanswm 1
£ 1,079,000	Ffioedd statudol a phroffesiynol @ 7%
£ 500,000	Dodrefn ac Offer
£ 1,155,000	Lwfans Risg y Prosiect 7.5%
£ 933,000	Cynnydd chwyddiant @ 5.63%
£ 557,000	Tueddiad Optimistiaeth @ 3%
£ 19,634,000	<u>CYFANSWM – GWARIANT CYFALAF</u>

Tabl 48: Costau ar gyfer yr Opsiwn a Ffafir yn y cam ABA

Yn seiliedig ar ymgynghori a arweiniwyd gan Dîm Datblygu Eiddo Cyngor Gwynedd a chan gymryd y llwyddir i gadw at linell amser y prosiect, gan gynnwys cymeradwyaethau gan Lywodraeth Cymru, gwnaed rhagdybiaeth gyffredinol sy'n rhagweld y gwariant cyfalaf fel a ganlyn:

Blwyddyn Ariannol	% gwariant	£
2026/27	10%	£1,963,000
2027/28	45%	£8,835,000
2028/29	40%	£7,853,000
2029/30	5%	£982,000
CYFANSWM	100%	£19,634,000

Tabl 49: Gwariant Cyfalaf a Ragwelir

Mae gofynion cyfalaf yr opsiwn a ffafir yn cael eu cefnogi gan gynllun cost manwl fel y dangosir yn Atodiad G.

Eglurhad ar Gyllid Cyfalaf a Thriniaeth TAW: Mae'r gofyn cyllido cyfalaf a gyflwynir yn yr achos hwn yn adlewyrchu cyfanswm y gost sydd i'w hariannu ar gyfer adeiladu. Mae'n bwysig nodi y gall y ffigwr hwn ymddangos yn is na Gwerth Presennol Net (GPN) yr opsiwn a ffafir fel mae wedi'i gyflwyno yn yr achos economaidd. Mae hyn oherwydd bod yr achos economaidd yn cynnwys yr holl gostau gostyngedig dros gylch bywyd y prosiect, tra bod yr achos ariannol yn canolbwyntio ar yr all-lif arian parod gwirioneddol sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni'r prosiect.

Yn ogystal, mae TAW wedi'i eithrio o'r achos economaidd yn unol â chanllawiau Trysorlys EF, gan ei fod yn cael ei ystyried yn daliad trosglwyddo ac nid yw'n effeithio ar werth cyhoeddus net. Fodd bynnag, yn yr achos ariannol, rhaid trin TAW fel cost go iawn os na ellir ei adennill gan y sefydliad sy'n ei greu. Darparwyd cadarnhad y gall y Cyngor yn wir adennill y TAW o dan ei statws Adran 33 eithriad rhag adennill TAW. Felly, mae modd adennill TAW ac nid yw wedi'i gynnwys yn y gofyn cyllido cyfalaf.

4.2 Dull Ariannu

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r gofynion cyfalaf ymlaen llaw a'r grant IRCF a dargedwyd i'w roi yn ei erbyn, ac unrhyw dderbyniadau cyfalaf eraill a ryddheir o ganlyniad i'r prosiect.

	Opsiwn 7 – Cyfleuster cartref gofal a nyrsio 56 gwely newydd
Costau caffael	£0
Costau prosiect suddedig	£0
Adeiladu a chostau cysylltiedig	£19,634,000
Incwm grant IRCF	£16,634,000 (85%)
Derbyniadau cyfalaf eraill	£3,000,000 (15%)

Tabl 50: Gofynion Cyfalaf Ymlaen Llaw

Bwriad yr ABA hwn yw sicrhau cyllid o £16.634m gan Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso lechyd a Gofal Cymdeithasol (IRCF) Llywodraeth Cymru i greu datblygiad partneriaeth sector cyhoeddus ar safle Penrhos, mewn partneriaeth â Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar gyfer adeiladu a datblygu cartref gofal preswyl a nyrsio newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi Grantiau Cyfalaf i hyrwyddo integreiddio lechyd a Gofal Cymdeithasol, ac i gefnogi'r gwaith ar ailfodelu'r sector gofal. Mae trafodaethau

eisoes wedi dechrau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â chael mynediad i'r arian mewn modd amserol. Mae lefel y cyfraniad wedi ei gytuno rhwng CG a Tîm IRCF fel rhan o gymeradwyaeth yr ABS.

Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd cyllid ar gael i helpu Cyngor Gwynedd a BIPBC ddatblygu cynlluniau llawn ar gyfer y cynllun nyrsio a gofal preswyl newydd. Disgwylir i gais cynllunio ffurfiol gael ei gyflwyno maes o law cyn i'r awdurdodau dan sylw wneud cais pellach am gyllid IRCF.

Bydd Cyngor Gwynedd yn darparu cyllid cyfalaf mewnol o £3m allan o ddarpariaeth cyllid cyfatebol i brosiectau yn y sector gofal, fel yr amlinellir yng Nghynllun Rheoli Asedau 2024-2035. Bydd hyn yn cyfrannu tuag at wrthbwysio unrhyw ddiffyg cyllid o ystyried cost gyfredol y cynnydd mewn prisiau. Mae cadarnhad o'r cyllid hwn wedi'i gynnwys yn [adroddiad y Cabinet 11/06/2024](#).

4.3 Cadarnhad o Gefnogaeth

Bydd dwy acer o dir ym Mhenrhos yn cael eu trosglwyddo i'r Cyngor gan Gymdeithas Tai ClwydAlyn at ddibenion y prosiect.

Ym mis Gorffennaf 2022, cytunodd Cyngor Gwynedd a BIPBC ar bartneriaeth ffurfiol i ddarparu lleoliadau cartrefi nyrsio yn y sir. Mae [cyfarfod Cabinet CG ar 28/03/2023](#) a [chyfarfod y Bwrdd Iechyd ar 30/03/2023](#) yn mynegi cytundeb a chymeradwyaeth gan y ddau sefydliad i ddatblygiad Penrhos.

Prynu Gwelyau Allanol

Fel y soniwyd uchod, mae'r model yn tybio y bydd y galw am welyau gofal yn 92% fan leiaf, sy'n cyfateb i gyfanswm o 52 gwely (allan o 56). Mae'r Cyngor wedi darparu'r prisiau marchnad canlynol i'w defnyddio yn y model:

Gwely	Dyrannu gwelyau	Pris prynu preifat cyfartalog
Gofal Preswyl (Dementia)	58%	£1,044 yr wythnos
Gofal Nyrsio	29%	£1,021 yr wythnos
Gofal Nyrsio (Dementia)	13%	£1,278 yr wythnos

Tabl 51: Prynu Gwelyau Allanol

4.4 Gofynion Refeniw

Mae proffil cost refeniw wedi'i greu ar gyfer yr opsiwn a ffafrir, yn seiliedig ar y wybodaeth dyluniad a gosodiad a ddarparwyd. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Atodiad F. Darperir crynodeb o'r costau refeniw yn y tabl isod.

	CYFANSWM
Staff	£ 3,213,840
Arall	£242,989
Costau canolog	£72,248
Incwm rhent	-£ 40,222
CYFANSWM	<u>£3,488,855</u>
Dibrisiant	£ 385,000

Tabl 52: Crynodeb o'r Costau Refeniw

Fel y costau cyfalaf uchod, datblygwyd costau refeniw dangosol cychwynnol fel rhan o'r broses ABS ac yn seiliedig ar ddisgwyliadau'r farchnad a chartrefi gofal tebyg yn y sir. Fodd bynnag, ers cymeradwyo'r ABS, cynhaliwyd dadansoddiad manylach o'r costau refeniw i gefnogi datblygiad yr ABA hwn. Ceir amlinelliad manylach o'r gwariant yn Atodiad F.

Rhagwelir y bydd yr opsiwn a ffafir yn niwtral o ran refeniw neu'n well i Gyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd. Mae'r tueddiadau cyfredol yn dangos bod darpariaeth gwasanaethau preswyl mewnol yng Nghyngor Gwynedd ar lefel defnydd cyfartalog (gwelyau llawn) o 92% ar hyn o bryd. Roedd gan y Cartref Gofal Pwylaidd blaenorol lefel defnydd cyfartalog o 90%. Mae'r lefelau defnydd yn y sector annibynnol yng Nghwynedd yn uwch, sef 95%.

	92% yn llawn	90% yn llawn	80% yn llawn	70% yn llawn
Gwariant – Gweithredu	£3,488,855	£3,488,855	£3,488,855	£3,488,855
Is-gyfanswm GWARIANT	£3,488,855	£3,488,855	£3,488,855	£3,488,855
Incwm - Gofal Nyrsio	£1,204,580	£1,185,526	£1,090,255	£994,984
Incwm - Gofal Preswyl	£ 2,331,543	£ 2,283,296	£2,042,064	£1,800,832
Is-gyfanswm INCWM	£3,536,122	£3,468,822	£3,132,319	£2,795,816
GWARGED / (DIFFYG) BLYNYDDOL	<u>£47,267</u>	<u>-£20,033</u>	<u>-£356,536</u>	<u>-£693,039</u>

Tabl 53: Sefyllfa Weithredu Net

Mae'r sefyllfa weithredol net yn amrywio ar draws cyfradd lenwi o 70%, 80%, 90% a 92%, a dim ond y ffigwr 92% sy'n cynnig gwarged net o £47k y flwyddyn (1.33% o incwm). Arbedion maint yn unig yw'r gwahaniaeth rhwng gwarged a diffyg.

Effaith ar y Cyfrif Refeniw

Mae'r effaith ar y cyfrif refeniw yn cynnwys cost net gweithredu Penrhos, ni fydd angen costau benthyca i dalu am waith cyfalaf ymlaen llaw gan fod hyn eisoes wedi'i gynnwys yng Nghynllun Rheoli Asedau'r Cyngor. Mae'r cydrannau hyn wedi'u modelu i ddangos cost refeniw gyfunol, y gellir ei chymharu ar draws yr opsiynau.

Gellir dangos manylion llawn sefyllfa gyfrifyddu'r Cyngor yn y tabl isod:

	Opsiwn 7
	Cartref gofal preswyl a nyrsio newydd Penrhos
Cyfrif Refeniw	
Incwm	£3,537,791
Gwariant	£3,488,855
Cyfrif refeniw (heb gynnwys ariannu)	£48,936
Cyllid	0
MRP	0
Cyfanswm y cyfrif refeniw	
Cyfrif Cyfalaf	
Incwm cyfalaf	£0
Grantiau cyfalaf	£16,634,000
Costau cyfalaf	(£19,634,000)
Gwariant cyfalaf net	(£3,000,000)

Tabl 54: Sefyllfa Gyfrifyddu y Cyngor

4.5 Sensitifrwydd

I asesu gwytnwch yr opsiwn a ffafrir o dan wahanol amodau ariannol, mae dadansoddiad sensitifrwydd wedi'i gynnal. Mae hyn yn helpu i ddeall sut y gallai amrywiadau mewn costau gweithredu ac incwm ddylanwadu ar y sefyllfa ariannol gyffredinol a'r gwerth am arian.

Cyd-destun Gorwel Amser: Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd wedi'i gynnal ar draws dau orwel rhagolwg - 10 mlynedd a 25 mlynedd – i adlewyrchu'r perfformiad ariannol tymor byr i ganolig a chynaliadwyedd yn y tymor hir.

- Mae'r gorwel 10 mlynedd yn arbennig o berthnasol ar gyfer asesu fforddiadwyedd tymor byr, yr effaith ar y gyllideb, a risg weithredol. Mae'n cyd-fynd â chylchoedd ariannu nodweddiadol ac yn gadael i ni weld gwytnwch ariannol yn y blynyddoedd cynnar.
- Mae'r gorwel 25 mlynedd yn dal cylch bywyd llawn yr ased, gan gynnwys effeithlonrwydd gweithredu tymor hir, cynhyrchiant incwm, ac effeithiau cost cronrus. Mae'r olwg hon yn hanfodol ar gyfer gwerthuso'r gwerth am arian parhaol a'r enillion strategol ar fuddsoddiad.

Dehongli Senario: Mae pob gorwel yn cynnwys tri senario:

- Achos Sylfaen: Yn tybio amcangyfrifon canolog ar gyfer incwm a chostau gweithredu.
- Senario 1 (Anfantais): Mae'n modelu cynnydd o 10% mewn costau gweithredu a gostyngiad o 10% mewn incwm.
- Senario 2 (Mantais): Mae'n modelu gostyngiad o 10% mewn costau gweithredu a chynnydd o 10% mewn incwm.

	Senario	Incwm (£)	Costau Refeniw (£)	Dibrisiant (£)	Gwarged/Di ffyg (£)	Cost Net Flynyddol (£)	Cyfanswm y Gost Net (£)	CCB
Sylfaen 10 mlynedd	Achos Sylfaen	£ 3,921,122	£ 3,488,855	£ 385,000	£ 47,267	£ 337,733	£ 23,011,330	2.22
10 Mlynedd S1	Senario 1	£ 3,529,010	£ 3,837,741	£ 385,000	-£ 693,731	£ 1,078,731	£ 30,421,307	1.68
10 Mlynedd S2	Senario 2	£ 4,313,234	£ 3,139,970	£ 385,000	£ 788,265	-£ 403,265	£ 15,601,353	3.27
Sylfaen 25 mlynedd	Achos Sylfaen	£ 3,921,122	£ 3,488,855	£ 385,000	£ 47,267	£ 337,733	£ 28,077,325	1.82
25 Mlynedd S1	Senario 1	£ 3,529,010	£ 3,837,741	£ 385,000	-£ 693,731	£ 1,078,731	£ 46,602,268	1.09
25 Mlynedd S2	Senario 2	£ 4,313,234	£ 3,139,970	£ 385,000	£ 788,265	-£ 403,265	£ 9,552,383	5.34

Tabl 55: Dehongli Senario ar draws dwy orwel amser

- Mae'r Gost Net Blynyddol yn adlewyrchu'r diffyg blynyddol (neu waged) rhwng incwm a chostau gweithredu (Refeniw + Dibrisiant).
- Mae Cyfanswm y Gost Net yn cynnwys y ffigwr blynyddol hwnnw wedi'i luosi â nifer y blynyddoedd, ynghyd â'r gost gyfalaf o gyflawni'r prosiect (Costau Net Blynyddol x 10 mlynedd neu 25 mlynedd) + Costau cyfalaf
- Mae cyfanswm y buddion economaidd yn cael eu cadw'n gyson ar draws y senarios ar £51.1m. Mae CCB yn adlewyrchu newidiadau yng nghyfanswm y gost net o dan bob senario ariannol.

Mae'r canlyniadau'n dangos, er bod y prosiect yn parhau i fod yn hyfyw o dan bob senario, mae'r achos anfantais (S1) yn cynyddu'r gost net yn sylweddol ac yn lleihau'r Gymhareb Cost-Budd (CCB), yn enwedig dros 25 mlynedd. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd rheoli costau cadarn a sicrwydd incwm. I'r gwrthwyneb, mae'r achos mantais (S2) yn dangos perfformiad ariannol cryf a gwerth am arian eithriadol, gyda CCB o 5.34 dros 25 mlynedd.

Nodyn ar gynnwys y CCB: Er bod CCB yn cael ei gyflwyno'n draddodiadol yn yr achos economaidd, mae wedi'i gynnwys yma i ddangos sut mae senarios perfformiad ariannol yn dylanwadu ar werth economaidd cyffredinol y prosiect. Mae hyn yn helpu i bontio'r achosion ariannol ac economaidd ac yn cefnogi golwg fwy integredig o risg ac enillion.

4.6 Casgliad yr Achos Ariannol

Mae'r dadansoddiad ariannol a ddarparwyd yn dangos bod yr opsiwn a ffafir yn gyffredinol fforddiadwy ac yn ariannol hyfyw o dan ragdybiaethau sylfaenol. Mae profion sensitifrwydd ar draws gorwelion 10 mlynedd a 25 mlynedd yn cadarnhau bod y prosiect yn parhau i fod yn wydn o dan senarios anfantais, gyda photensial mantais cryf.

Er bod costau cyfalaf a modelu ariannol cylch bywyd wedi'u hasesu'n gadarn, nid yw'r effaith lawn ar y Cyfrif Refeniw — yn enwedig o ran pwysau gweithredu blynyddol a lle dros ben (*headroom*) yn y gyllideb — wedi'i chwblhau'n derfynol eto. Mae hyn yn elfen hanfodol o'r asesiad fforddiadwyedd cyffredinol a bydd yn cael ei drafod yn fanwl yn y cam Achos Busnes Llawn.

Yn amodol ar gadarnhad o'r effaith ar y Cyfrif Refeniw ac unrhyw fesurau lliniaru angenrheidiol, mae'r achos ariannol yn cefnogi bwrw ymlaen â'r opsiwn a ffafir, gyda llwybr clir i ddangos fforddiadwyedd llawn a gwerth am arian.

Yr Achos Rheolaethol

5. Yr Achos Rheolaethol

5.1 Cyflwyniad

Pwrpas yr achos rheolaethol hwn yw dangos bod trefniadau cadarn ar waith ar gyfer cyflawni, monitro a gwerthuso'r cynllun. Mae hyn yn dangos y gellir cyflawni'r opsiwn a ffafir yn llwyddiannus a bod trefniadau mewn lle i reoli contractau, gwireddu buddion a rheoli risg.

Er mwyn darparu dadl gymhellol, mae'r Achos Rheolaethol wedi'i strwythuro i ddangos y canlynol:

Eitem:	Cynnwys:	I ddangos:
Trefniadau Llywodraethu	Trosolwg o'r trefniant sydd ar waith ar gyfer y rhaglen ailgydbwyso gofal a chefnogaeth.	Sut mae cyflwyno cynllun cartref gofal preswyl a nyrsio Penrhos yn cyd-fynd â'r trefniadau ar gyfer y rhaglen ailgydbwyso gofal a chefnogaeth yn ogystal â'r trefniadau llywodraethu IRCF gofynnol
Rheoli Rhaglen a Phrosiect	Rolau a chyfrifoldebau ar gyfer cyflawni'r cynllun	Bod trefniadau cyflawni cadarn ar waith ac yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus
Llinell Amser y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol	Bod amserlenni realistig wedi'u dyrannu a'u cytuno gyda'r holl bartïon yn dangos llwybr beirniadol clir
Rheoli Rhanddeiliaid	Cynnwys a methodoleg ar gyfer cyfathrebu'n barhaus â rhanddeiliaid	Bod pobl ac endidau y tu allan i'r sefydliadau partner yn dal i fod yn gefnogol i'r cynllun
Rheoli Newid	Y strategaeth ar gyfer rheoli newid cytundebol	Bod y Cyngor a'i bartneriaid mewn sefyllfa i addasu i anghenion ac amgylchiadau sy'n newid
Gwireddu Buddion	Y strategaeth ar gyfer gwireddu buddion	Cyfrifoldeb ac atebolrwydd am ragfynegi, mesur ac adrodd buddion
Rheoli Risg	Y strategaeth ar gyfer rheoli risg	Bod systemau cymesur ar waith, bod camau gweithredu yn cael eu cymryd, a bod perchnogaeth yn dilyn yr egwyddorion a osodwyd yn yr Achos Masnachol
Sicrwydd a Gwerthuso Ôl-brosiect	Y trefniadau ar gyfer adolygiadau porth yn y dyfodol	Datblygu ac ystyried gwersi a ddysgwyd a allai ddarparu glasbrint ar gyfer ymgymeriadau tebyg mewn mannau eraill

Tabl 56: Strwythur yr achos rheolaethol

5.2 Trefniadau Llywodraethu'r Rhaglen

Mae trefniadau Llywodraethu Prosiect wedi'u sefydlu i adlewyrchu canllawiau cenedlaethol ac fel y nodir yn y Llawlyfr Buddsoddi Cyfalaf 'Rheoli Prosiectau Cyfalaf' (Yr Adran Iechyd); PRINCE2 (Swyddfa Masnach y Llywodraeth); Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus (Swyddfa Masnach y Llywodraeth/Grŵp Effeithlonrwydd a Diwygio). Nodwyd fod yr adroddiad yn enghraifft o gydweithio agos rhwng Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd, a oedd i'w groesawu.

Yn ystod y cam ABS, cytunwyd i roi trefniadau ffurfiol mewn lle i sicrhau eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau pob partner. Ers y ABS, mae'r trefniadau hyn fwy neu lai'n cael eu cadw fel a ganlyn:

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRh Gogledd Cymru)

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) wedi'u hadnabod fel sefydliadau hanfodol i arwain y gwaith o ddatblygu dull cydweithredol o gynllunio buddsoddiad cyfalaf mewn iechyd, gofal cymdeithasol a thai sy'n golygu y gellir darparu gwasanaethau di-dor yn agosach at adref. Maent yn cynnwys cynrychiolwyr o iechyd, gofal cymdeithasol, tai, addysg, y trydydd sector, a darparwyr annibynnol. Mae gan BPRh rôl allweddol wrth ddod â phartneriaid allweddol at ei gilydd i hwyluso cynllunio strategol ar draws sectorau mewn perthynas â buddsoddiad cyfalaf ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.


Mae Cynllun Cyfalaf Strategol BPRh Gogledd Cymru yn gynllun cynhwysfawr 10 mlynedd sydd wedi'i ddatblygu i fynd i'r afael â'r anghenion buddsoddi cyfalaf ar gyfer isadeiledd cymunedol yng Ngogledd Cymru. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar wella gofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol. Cwblhawyd y cynllun yn derfynol ym mis Hydref 2023 ar ôl ymgorffori adborth gan wahanol randdeiliaid a chael ei addasu sawl gwaith. Cefnogir Cynllun Cyfalaf Strategol BPRh Gogledd Cymru gan ddwy brif ffynhonnell o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru:

- y Gronfa Cyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF); a'r
- Gronfa Tai â Gofal (HCF).

Caiff y cronfeydd hyn eu dyrannu i gefnogi ystod o brosiectau sy'n hyrwyddo annibyniaeth, llesiant a gofal yn agosach at adref gan hefyd gyflawni'r flaenoriaeth strategol o fwy o ofal a chefnogaeth ar gyfer anghenion cymhleth. Mae'r BPRh yn rhan o'r llwybr cymeradwyo ym mhob cam achos busnes.

Rhaid i brosiectau sy'n ceisio Cyllid IRCF gael cymeradwyaeth ffurfiol gan yr BPRh yn y lle cyntaf a chadw at ei drefniadau llywodraethu. Mae'n rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) sicrhau bod ganddynt drefniadau monitro cadarn ar waith i sicrhau bod cynlluniau a ariennir trwy'r IRCF yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir ar amser ac o fewn y gyllideb. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd monitro bob deufis gyda phob BPRh i adolygu cynnydd, perfformiad ariannol ac adolygu'r profformau y mae rheolwr prosiect Penrhos yn eu cwblhau a'u cyflwyno bob deufis ar ran y cynllun.

Nod fframwaith llywodraethu yr BPRh yn y diagram isod yw hwyluso cydweithredu rhwng nifer o bartneriaid allweddol yng Ngogledd Cymru



Ffigwr 13: Trefniadau llywodraethu lefel uwch

Tîm IRCF a Llywodraeth Cymru

Unwaith ystyriwyd bod y prosiect yn ymarferol, cyflwynwyd y cais buddsoddiad i Lywodraeth Cymru yng ngwanwyn 2023. Wedyn cafodd y cais hwn ei ystyried gan y Panel IRCF a gefnogodd yr achos busnes a'r cam datblygu, ac yn sgil y gymeradwyaeth hon bu modd cyflwyno'r achos busnes i'w ystyried ymhellach.

Fel ar gyfer pob prosiect dros £5 miliwn, mae'n rhaid cyflwyno achosion busnes mewn tri cham: Achos Busnes Strategol, Achos Busnes Amlinellol, ac yna Achos Busnes Llawn.

Yn dilyn cymeradwyaeth gan y BPRh Gogledd Cymru, cyflwynodd CG (y sefydliad arweiniol) Achos Busnes Strategol i Dîm IRCF Llywodraeth Cymru i'w ystyried ym mis Ebrill 2023. Mae'r broses graffu yn cynnwys dwy rownd. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru y rownd gyntaf (ABS) ym mis Gorffennaf 2024 a bydd yr ABA

hwn yn cefnogi'r ail rownd. Ar ôl craffu trylwyr, bydd argymhelliad yn cael ei wneud i'r Panel IRCF. Os bydd y Panel IRCF yn cefnogi'r argymhelliad, yna bydd yn cael ei argymhell i'r Gweinidog i'w gymeradwyo'n derfynol.

Ar ôl cymeradwyaeth derfynol gan y Panel IRCF a'r Gweinidog, bydd yr ymgeisydd (CG) yn cael ei hysbysu, a gall y gwaith ddechrau. Bydd cyllid yn cael ei ryddhau bob chwarter ar ôl cyflwyno hawliadau sy'n tystio gwariant cymwys.

Bydd yr adeilad newydd ar safle Penrhos yn cael ei gynllunio i gyflawni'r safonau amgylcheddol uchaf sef BREEAM rhagorol (ceir gopi o'r adroddiad BREEAM yn Atodiad H). Yn ogystal, yn unol â chanllawiau'r gronfa IRCF, bydd y prosiect yn darparu Carbon Sero Net tra mae'n gweithredu a gostyngiad o 20% ar faint o garbon ymgorfforedig sydd yn y prosiect, sy'n cynnwys carbon gaiff ei allyrru trwy ddeunyddiau adeiladu a'r broses adeiladu.

5.3 Trefniadau Rheoli'r Rhaglen

Bwrdd Rhaglen Penrhos

Mae Bwrdd Rhaglen Penrhos yn darparu arweinyddiaeth strategol a throsolwg o'r prosiect gan brif bartneriaid y prosiect yn ogystal â rheoli risgiau a sicrhau bod y prosiect yn gweithio tuag at gyrraedd y nodau y cytunwyd arnynt. Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys uwch swyddogion a rheolwyr o bob sefydliad partner yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol eraill.

Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd a Chyfarwyddwr Gweithredol Nysio a Bydwreigiaeth BIPBC yw'r Uwch Berchnogion Cyfrifol ar gyfer y Prosiect. Swyddogion Gweithredol Prosiect y bartneriaeth yw:

- Mari Wynne Jones (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yng Nghyngor Gwynedd)
- Chris Rudgley (Arweinydd Ardal y Gorllewin ar gyfer Gwelliant yn BIPBC)
- Rheolwr Prosiect – Meinir Owen (Cyngor Gwynedd)

Bwrdd Prosiect Gofal a'r Gweithlu (Cyngor Gwynedd a BIPBC)


Y Bwrdd Prosiect sy'n dal y cyfrifoldeb cyffredinol i yrru ymlaen a chyflawni canlyniadau'r cynllun hwn. Bydd yr aelodau'n darparu adnoddau ac ymrwymiad penodol i gefnogi'r rheolwr prosiect mewn perthynas â'r cyflawniadau allweddol. Bydd y Bwrdd Prosiect yn cael ei arwain gan Reolwr Prosiect. Rolau allweddol y Bwrdd Prosiect yw:

- Darparu cyfeiriad strategol ar gyfer y prosiect
- Cydlynu a goruchwylio'r cynllun gweithredu sy'n cael ei arwain gan ffrydiau gwaith unigol a swyddog cyfrifol dynodedig
- Bod yn atebol i Fwrdd Rhaglen Penrhos
- Cadarnhau sgôp y prosiect
- Llofnodi Cynllun Gweithredu'r Prosiect a chynlluniau'r prosiect
- Cyflwyno'r prosiect o fewn y paramedrau a osodwyd
- Awdurdodi gwyro oddi wrth sgôp cytunedig y prosiect
- Llofnodi bod pob cam/pethau sydd angen eu cyflawni, wedi'i gwblhau, a sicrhau bod cymeradwyaethau perthnasol yn cael eu bodloni
- Sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael
- Ymateb i unrhyw faterion a gaiff eu cyfeirio'n uwch o ffrydiau gwaith a'r tîm prosiect
- Monitro risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect ac adolygu'r gofrestr risg
- Darparu cyfeiriad lefel uchel ar gynnwys rhanddeiliaid a chefnogi a monitro'r gwaith o reoli rhanddeiliaid ar lefel prosiect
- Sicrhau bod y gofynion ar gyfer cymeradwyaeth Achos Busnes yn cael eu bodloni
- Derbyn a nodi adolygiad ar ôl y prosiect ar gyfer gwersi a ddysgwyd

Mae Byrddau sefydliadau partner presennol yn cadw'r grym i lofnodi cwblhad yr achos busnes ar bob cam o'r broses ddatblygu trwy drefniadau llywodraethu eu sefydliad, fel a ganlyn:

- Cyngor Gwynedd – Cabinet.
- BIPBC – IHC y Gorllewin, Tîm Gweithredol, PFIG a'r Bwrdd Iechyd.

Cynrychiolir y trefniadau rheoli rhaglen a phrosiect a amlinellir uchod yn Ffigwr 14 (isod) sydd hefyd yn gosod y trefniadau hyn o fewn y cyd-destun ehangach o gymeradwyo'r achos busnes:



Ffigwr 14: Trefniadau rheoli prosiect

Ymgynghorwyr Proffesiynol

Mae'r Tîm Prosiect yn cael ei gefnogi gan nifer o ymgynghorwyr allanol profiadol. Mae rhestr o ymgynghorwyr presennol a'u rôl wrth gefnogi'r prosiect hyd yma wedi'i chrynhof yn y tabl isod.

Darparwr	Cyfrifoldebau
Hugh James	Cyngor Cyfreithiol
Lovelock Mitchell	Penseiri
Wakemans	Ymgynghorydd Cost
Waterco Datrys	Peirianeg Sifil a Strwythurol

Tabl 57: Ymgynghorwyr presennol a'u rôl

5.4 Trefniadau Rheoli Prosiect

Bydd angen i bob cynllun lle mae angen Achos Cyfiawnhad Busnes (ACB), Achos Busnes Amlinellol (ABA) neu Achos Busnes Llawn (ABLI) sefydlu Bwrdd Prosiect priodol. Argymhellir parhau i ddefnyddio rheolaethau sy'n seiliedig ar PRINCE 2 ar gyfer rheoli prosiectau yn seiliedig ar y saith proses ganlynol:

Proses	Camau Gweithredu, Gweithgareddau a Phrosesau (heb fod yn gynhwysfawr)
Y Dechrau Un	Penodi'r tîm a'r swyddogion gweithredol, cynhyrchu'r ABA, diffinio briff y prosiect.
Cychwyn	Paratoi offer fel system rheoli ansawdd, rheoli buddion a rheolaethau prosiectau.
Cyfarwyddo	Awdurdodi'r prosiect a'r cynllun gweithredu tra'n darparu cyfarwyddiadau ad-hoc.
Rheoli Cam	Awdurdodi pecynnau gwaith, adolygiadau statws, adrodd uchafbwyntiau, rheoli risgiau a materion.
Rheoli Cyflawniad	Anfon, perfformio a derbyn pecynnau gwaith
Rheoli Ffin Cam	Cynllunio'r cam dilynol, diweddaru'r achos busnes, diweddaru'r cynllun prosiect a chreu cynlluniau eithrio lle bo angen.
Cau	Paratoi/gwneud y trosglwyddiad a chynnal gwerthusiadau.

Tabl 58: Rheolaethau yn seiliedig ar PRINCE 2 ar gyfer rheoli prosiect

5.5 Cynllun y Prosiect

Cerrig Milltir y Prosiect	Dyddiadau Dangosol
Y Bartneriaeth yn cymeradwyo'r ABS	Mawrth 2023
LIC yn adolygu'r ABS a chymeradwyaeth i fwrw ymlaen	Gorffennaf 2024
Dechrau ar y broses gynllunio	Medi 2025
Caniatâd cynllunio amlinellol	Hydref 2025
Cwblhau'r ABA yn cynnwys cymeradwyaeth fewnol i fwrw ymlaen	Medi 2025
LIC yn adolygu'r ABA a chymeradwyaeth i fwrw ymlaen	Hydref 2025
Cais cynllunio ffurfiol	Ionawr 2026
Cwblhau'r ABLI yn cynnwys cymeradwyaeth fewnol i fwrw ymlaen	Mehefin 2026
LIC yn adolygu'r ABLI a chymeradwyaeth i fwrw ymlaen	Medi 2026
Adeiladu, cwblhau a throsglwyddo	Mawrth 2027 – Medi 2029
Symud i mewn	Hydref 2029

Tabl 59: Cerrig milltir y prosiect

Bydd swyddogion y Cyngor nawr yn datblygu dyluniadau a chynlluniau manwl, i'w cyflwyno i'r broses gynllunio ffurfiol yn ystod 2025, gyda'r nod o ddechrau'r gwaith adeiladu yn 2027. Y gobaith yw y bydd y cartref wedi'i gwblhau ac yn barod i groesawu ei breswylwyr cyntaf yn 2029.

5.6 Cyfathrebu ac Ymgysylltu


Mae ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn hanfodol i sicrhau bod dyheadau gwahanol rhanddeiliaid yn cael eu hystyried trwy gydol datblygiad y cynllun. Felly, bydd y prosiect yn dilyn Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu sy'n amlinellu sut y bydd y Rheolwr Prosiect yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn rheoli cyfathrebu, ac yn sicrhau tryloywder trwy gydol y prosiect. Bydd y cynllun hwn yn esblygu wrth i'r prosiect fynd rhagddo i gyfrif am newidiadau i rhanddeiliaid, newidiadau i'w diddordeb a'u dylanwad a newidiadau i'r ffordd y mae'r Cyngor yn gwneud yr ymgysylltu. Gweler Atodiad I am gopi o'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu)

Mae'r prif rhanddeiliaid ar gyfer y prosiect hwn wedi'u hadnabod ac fe ymgynghorwyd â hwy, gan ymgorffori eu safbwyntiau yn y dyluniad a'r Achos Busnes:

Sefydliad / Enw	Diddordeb	Dylanwad	Strategaeth ar gyfer Ymgysylltu
Llywodraeth Cymru	H	H	Diweddariadau rheolaidd trwy adroddiadau cynnydd bob deufis ac ymgynghoriadau ffurfiol yn ystod y broses ymgeisio IRCF.
BPRh Gogledd Cymru	H	H	Cydlynw agos trwy Swyddfa Rheoli Prosiect Cyfalaf yr BPRh, cymeradwyaeth ranbarthol i symud ymlaen i'r cam ABA, ABLI ac ati, prosesau monitro chwarterol.
NWSSP SES	H	H	Ymgysylltu cynnar ar gynigion / dyluniadau cychwynnol, diweddariadau parhaus a chyfarfodydd i hysbysu ac ymgynghori trwy gydol cylch bywyd y prosiect.
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Cadeirydd a Chyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth	H	H	Ymgysylltu trwy sesiynau briffio wedi'u targedu a diweddariadau i sicrhau cefnogaeth barhaus a bod y prosiect yn cyd-fynd ag amcanion iechyd a gofal cymdeithasol.
Yr Adran Gynllunio	M	H	Cyngor ac arweiniad cynnar ar waith cynllunio, sicrhau bod ceisiadau cynllunio yn cael eu cyflwyno a'u prosesu'n amserol, a chynnal llinellau cyfathrebu agored.
Aelodau	M	M	Sesiynau briffio strategol rheolaidd i sicrhau bod y prosiect yn cyd-fynd ag amcanion corfforaethol CG, sicrhau cefnogaeth, a rhoi diweddariadau ar gynnydd y prosiect, anghenion adnoddau, a deilliannau.
Yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant (Y Cyng. Dilwyn Morgan)	H	H	Ymgysylltu trwy sesiynau briffio wedi'u targedu a diweddariadau i sicrhau cefnogaeth barhaus a bod y prosiect yn cyd-fynd ag amcanion iechyd a gofal cymdeithasol.
Aelod Lleol (Y Cyng. Angela Russell)	H	M	Sesiynau briffio rheolaidd i gael barn ac adborth lleol; ymgynghori ar bryderon cymunedol a sicrhau bod y prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau lleol.
Trigolion a Theuluoedd Presennol Penrhos	M	L	Mae ClwydAlyn mewn partneriaeth â'r Cyngor yn gweithredu tudalen we yn arbennig ar Gynllun Penrhos gyda diweddariadau rheolaidd ar gynnydd.
Cyfryngau a'r Wasg	M	L	Mae'r holl gyfathrebiadau sy'n dod i mewn ac allan yn cael eu rheoli gan Gyngor Gwynedd ac adran gyfathrebu BIPBC mewn ymgynghoriad â'r BPRh.

Tabl 60: Rhanddeiliaid Allweddol

Mae'r rhanddeiliaid allweddol wedi'u mapio yn ôl eu dylanwad a'u diddordeb:



Bydd rheolwr y prosiect yn arwain yr ymgysylltiad gyda nifer o randdeiliaid, gan ymgymryd â'r cyfrifoldebau allweddol a ganlyn:

- Cyfathrebu â BPRh, Llywodraeth Cymru ac eraill, fel bo'n briodol.
- Sicrhau cymeradwyaeth ysgrifenedig yr BPRh a chytundeb ffurfiol i wneud cais am gyllid IRCF a chymeradwyaeth i symud ymlaen ym mhob cam e.e. ABA, ABLI a chyflwyno ceisiadau am gymeradwyaeth.
- Cyflwyno ceisiadau am gymeradwyaeth a hawliadau am grant, gan ddarparu'r holl dystiolaeth ategol sydd ei hangen.
- Monitro, cofnodi ac uwch-gyfeirio risgiau yn ôl yr angen
- Adrodd allbynnau, deilliannau a buddion a darparu gwybodaeth i'r Bwrdd Rhaglen a grwpiau Prosiect.

5.7 Rheoli Newid

Fel gyda phob prosiect cyfalaf ar y raddfa hon, mae'r prosiect yn debygol o fynd drwy newidiadau ac mae'n hanfodol bod mesurau rheoli yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Diben rheoli newid yw galluogi partion i wneud penderfyniadau gwybodus lle gallant fod yn eithaf sicr o'r canlyniad.

Mae gweithdrefnau rheoli newid wedi bod ar waith yn ystod camau cynnar y prosiect ac fe'u defnyddiwyd i gynorthwyo i ddatblygu atebion o'r cychwyn cyntaf.

Dim ond yr Uwch Berchennog Cyfrifol neu'r Cyfarwyddwr Prosiect all roi cyfarwyddiadau am newid, ac mae'n rhaid i'r cyfarwyddiadau hynny fod o fewn eu terfynau awdurdod dirprwyedig. Nid oes unrhyw berson arall wedi'i awdurdodi i roi cyfarwyddiadau.

Er mwyn gwneud penderfyniadau mewn modd gwybodus, rhaid i'r Uwch Berchennog Cyfrifol neu'r Cyfarwyddwr Prosiect fod yn ymwybodol o'r canlynol o leiaf:

- Unrhyw amserlenni cytundebol sy'n gysylltiedig
- Gwerth/effaith y newid arfaethedig ac felly'r lefel gymeradwyo sy'n ofynnol
- Amseriad ac amllder cyfarfodydd sy'n ymwneud â'r awdurdod cymeradwyo angenrheidiol
- Lefel/gwerth/effaith unrhyw waith aflwyddiannus fydd efallai'n digwydd tra eu bod yn ceisio unrhyw ymateb/penderfyniad/cymeradwyaeth.

Bydd yn rhaid i unrhyw newid y gofynnir amdano sy'n uwch, neu'n debygol o fod yn fwy na chyllideb y prosiect a/neu sy'n debygol o ymestyn y rhaglen a/neu sy'n debygol o gynyddu proffil risg y Bartneriaeth, gael ei

gymeradwyo i ddechrau gan y Bwrdd Prosiect, ac yna ei gyfeirio'n uwch yn unol â strwythur llywodraethu Penrhos.

Bydd yr adroddiad cost a gyhoeddir yn fisol yn crynhoi'r holl newidiadau hyd yma – y rhai a gymeradwywyd ac a ragwelir. Mae'r weithdrefn rheoli newid yn unol ac yn cyd-fynd â'r lefelau awdurdod a roddwyd i bersonél penodedig.

Yr unig amgylchiad lle gellir anwybyddu'r weithdrefn rheoli newid, yw pan fydd mater iechyd a diogelwch brys yn digwydd, neu ar fin, digwydd, sy'n gofyn am weithredu ar unwaith; neu pan fo'r newid o fewn yr awdurdod dirprwyedig a roddwyd i'r Uwch Berchennog Cyfrifol, y Cyfarwyddwr Prosiect neu'r Rheolwr Prosiect.

Mewn achosion lle mae perygl iechyd a diogelwch ar fin digwydd a bod gofyn am weithred sydd tu hwnt i awdurdod yr Uwch Berchennog Cyfrifol, y Cyfarwyddwr Prosiect neu'r Rheolwr Prosiect, dylid mabwysiadu'r weithdrefn yn ôl-weithredol. Os bydd unrhyw newidiadau i ofynion cytunedig y prosiect bydd rhaid cael cymeradwyaeth ffurfiol gan y Bwrdd Prosiect, yn dibynnu ar raddfa eu heffaith.


Bydd ceisiadau am newid yn cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio Ffurflen Rheoli Newid prosiect a chânt eu hasesu am eu goblygiadau ariannol a'r goblygiadau i'r rhaglen. Bydd y Rheolwr Prosiect yn nodi ar y ffurflen yr amser sydd ei angen ar gyfer cymeradwyo. Bydd y ddogfen hon yn cael ei hanfon at y Cyfarwyddwr Prosiect i'w chymeradwyo a'i llofnodi.

Ar ôl cymeradwyaeth ffurfiol, bydd y Rheolwr Prosiect yn cyhoeddi Cyfarwyddyd Rheolwr Prosiect. Rhaid i bob newid gael ei gyfathrebu'n ffurfiol i'r contractwr drwy Gyfarwyddyd Rheolwr Prosiect.

5.8 Cynllun Rheoli Risg

Mae'r prosesau a ddilyniir yn cadw at weithdrefn rheoli risg PRINCE 2.

Proses	Tŵls
Adnabod	Adolygiadau Risg – gan ddefnyddio meddwl grŵp, ac ystod briodol o randdeiliaid yn cyfrannu atynt. Rhestr Wirio Risg – dod â gwersi a ddysgwyd o brosiectau a rhaglenni blaenorol. Rhestr Bromptio – defnyddio rhestrau promptio risg sydd ar gael. Strwythur Dadansoddi – adnabod y ffynonellau risg ac asesu sut y gallai'r rhain arwain at risgiau ychwanegol.
Asesu	Coed Tebygolrwydd – defnyddir wrth asesu'r achos a'r effaith i archwilio ymhellach y tebygolrwydd y bydd risg yn digwydd. Gwerth Disgwyliedig – mae'n meintio'r risg gydag asesiad o effaith a thebygolrwydd. Rancio – defnyddir i flaenoriaethu risgiau pan gânt eu hasesu yn erbyn eu heffaith bosibl ar amcanion y prosiect (cyfeirir ato fel arall fel Dadansoddiad Pareto).
Cynllunio	Grid effaith – defnyddir i ddangos yr amlygiad risg ar draws y metrigau effaith a thebygolrwydd, gosod goddefiannau risg a blaenoriaethu.
Gweithredu	Mae'r tŵls a ddefnyddir yn y cam gweithredu yn rhai pwrpasol yn dibynnu ar natur y risg benodol. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y proffiliau risg.



Tabl 61: Gweithdrefn rheoli risg PRINCE 2

Mae'r cyfrifoldeb am reoli risgiau'r prosiect yn gorwedd gyda'r Rheolwr Prosiect. Bydd risgiau prosiect allweddol yn cael eu hadnabod a'u cofnodi ar Gofrestr Risg, lle cânt eu dyrannu i Reolwr Risg, sy'n gyfrifol am reoli'r risg ynghyd â'r mesur lliniaru a nodwyd ar gyfer y risg honno.

Mae'r Gofrestr Risg wedi'i datblygu a'i chyflwyno i'r Bwrdd Prosiect. Mae'n 'ddogfen fyw' annibynnol ar wahân trwy gydol oes y prosiect, ac mae'n rhaid ei diweddaru'n rheolaidd i ddal risgiau newydd, adnabod y rhai y mae eu statws wedi newid, archwilio strategaethau lliniaru a chau risgiau nad ydynt bellach yn berthnasol. Efallai y bydd aelodau allweddol o'r Bwrdd Prosiect yn gyfrifol am fod yn berchen ar risgiau a amlygwyd ar y Gofrestr a chyflawni'r camau lliniaru a nodwyd; fodd bynnag, cyfrifoldeb y Rheolwr Prosiect yw rheoli'r Gofrestr

Risg yn ei chyfanrwydd, gyda sylw arbennig i'r risgiau mwyaf arwyddocaol. Bydd gweithdai risg yn cael eu cynnal yn gyfnodol trwy gydol y prosiect gan ychwanegu risgiau ychwanegol wrth iddynt godi. Trwy awdurdod dirprwyedig, bydd y Rheolwr Prosiect yn cyflwyno'r camau sy'n cael eu cymryd i leihau amlygiad i risg ar y prosiect. Bydd y gweithdy risg wedyn yn penderfynu a yw'r dull yn briodol neu a oes angen cymryd camau ychwanegol.

Bydd risgiau'n cael hasesu yn unol â'r matrices a ddangosir isod a gellir gweld cofrestr risg wedi'i gostio'n llawn yn Atodiad E:

		Tebygolrwydd				
		Anghyffredin	Annhebygol	Posib	Tebygol	Bron yn Sicr
Efaith	5 - Trychinebus	5	10	15	20	25
	4 – Mawr	4	8	12	16	20
	3 – Cymedrol	3	6	9	12	15
	2 – Bach	2	4	6	8	10
	1 – Dibwys	1	2	3	4	5

Tabl 62: Asesiad o'r risgiau

5.9 Trefniadau Amlinellol ar gyfer Gwireddu Buddion

Mae'n gyfrifoldeb ar bob perchennog buddion i gofnodi'r buddion yn unol â'r amllder mesur y cytunwyd arno ac adrodd i'r Uwch Berchennog Cyfrifol.


Mae'r broses fuddion a ddangosir yn y diagram i'r dde yn dangos camau'r broses gwireddu buddion a fydd yn cael ei chynnal trwy gydol cylch bywyd y prosiect yn unol â methodoleg APMG.

Cydnabyddir y bydd proses gadarn o reoli buddion yn allweddol i gyflawni canlyniadau ac amcanion y cynllun hwn. Mae'r dull hwn yn caniatáu i Bartneriaeth Penrhos ddangos llwyddiant y prosiect ar ôl ei gwblhau tra'n cynorthwyo gyda'r gwersi a ddysgwyd a'r prosesau parhaus.

Mae'r Uwch Berchennog Cyfrifol yn parhau i fod yn atebol am dderbyn buddion a gafodd eu tracio gan y perchnogion buddion unigol trwy gydol oes y prosiect. Dylai'r rhain gael eu hadrodd i'r Bwrdd Rhaglen i amserlenni a nodir yn y profiliau buddion a ddatblygwyd.

Monitro'r rhaglen

Mae trefniadau monitro a gwerthuso effeithiol yn bwysig i ddarparu sicrwydd bod cyllid cyfalaf IRCF yn cael ei ddefnyddio'n llawn i gefnogi nod y gronfa i gyflawni ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu o ddatblygu 50 o ganolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ac ailgydbwyso'r farchnad gofal preswyl. Mae'n rhaid i BPRh sicrhau bod ganddynt drefniadau monitro cadarn ar waith i sicrhau bod cynlluniau a ariennir trwy'r IRCF yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir ar amser ac o fewn y gyllideb. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd monitro bob deufis gyda phob BPRh i adolygu cynnydd a pherfformiad ariannol. Bydd cyfarfodydd amlach yn cael eu cynnal yn ôl yr angen, yn enwedig yn ail hanner y flwyddyn ariannol. Swyddogion arweiniol



Ffigwr 15 – Proses Buddion

BPRh fydd y prif bwynt cyswllt i sicrhau y cedwir golwg strategol ar draws pob rhanbarth, fodd bynnag, gall swyddogion arweiniol enwebu cydweithwyr addas i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru os oes angen. Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod BPRh yn cyflwyno adroddiadau monitro bob deufis, gan gynnwys:

- Rhagdybiaethau ariannol
- Cyflawni'r prosiect – amserlenni i gynnwys targedau ynghyd ag unrhyw lithriad a nodwyd yn erbyn y proffil gwariant
- Risgiau rhaglen a statws RAG y cynllun a dilyniant y prosiect
- Allbynnau a deilliannau – erbyn dyddiadau penodol e.e. erbyn 30 Medi a 31 Mawrth
- Gwireddu buddion

Heblaw am risgiau, rhaid i'r drefn adrodd fod yn gronol a chrynhof'r sefyllfa gyffredinol ar y pwynt perthnasol yn y flwyddyn ariannol. Dylai BPRh gynnwys diweddariadau cynnydd ar eu gweithgarwch cyfalaf fel rhan o'u hadroddiad blynyddol. Gall Llywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad cyfnodol i ddangos y gweithgaredd.

Mesur Llwyddiant

Mater i'r BPRh fydd sicrhau bod cofrestr buddion gyda gwaelodlinau'n cael ei datblygu fel y gellir asesu llwyddiant yn erbyn hyn. Bydd gan bob prosiect unigol ei feini prawf llwyddiant ei hun. Dylai unrhyw achos busnes a ddatblygir gynnwys cofrestr buddion. Fodd bynnag, mae angen i BPRh alinio eu cofrestr buddion gyda Fframwaith Canlyniadau'r RIF a deilliannau lefel-uchel y Model Gofal sy'n ymwneud â, er enghraifft, gofal yn y gymuned ac atebion sy'n seiliedig ar lety, ac i'r deilliannau Modelau Gofal eraill lle maent yn gorgyffwrdd ac yn berthnasol i ddarparu'r stori o newid a fwriedir ar gyfer y grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth. Mae Llawlyfr Technegol Fframwaith Canlyniadau y RIF yn darparu cyngor ymarferol ac yn awgrymu tŵls i'w defnyddio i gasglu tystiolaeth gadarn a chydlynol o'r hyn sy'n gweithio, gan gynnwys sut i gyflwyno astudiaethau achos o sawl persbectif.⁴⁹

5.10 Casgliad yr Achos Rheolaethol

Bydd cyflawni'r prosiect hwn yn llwyddiannus yn cael ei ategu gan strwythur llywodraethu cadarn, rolau a chyfrifoldebau clir, ac arferion rheoli prosiect profedig. Mae adnoddau priodol wedi'u hadnabod i gefnogi pob cam, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol drwy gydol y broses gynllunio a chyflawni. Bydd risgiau a dibyniaethau yn cael eu rheoli'n gadarn trwy reolaethau sefydledig, a bydd gwireddu buddion yn cael ei fonitro trwy fframwaith strwythuredig. Mae'r dull arfaethedig yn sicrhau bod y prosiect yn gyraeddadwy, yn gyflawnadwy o fewn sgôp ac amserlen, ac yn cyd-fynd ag amcanion strategol.

⁴⁹[Cronfa gyfalaf integreiddio ac ailgydbwyso iechyd a gofal cymdeithasol: canllawiau 2025 i 2027](#)